# Denu Cymunedau i Ddysgu

**Adroddiad ar ymchwil a wnaed gan Dysg ar ran y Cyngor Cenedlaethol ELWa**

Awduron Kirsti Bohata, a Sonia Reynolds
Ymchwil ychwanegol Rebecca Drennan a Carole Overton

Dysg, Asiantaeth Datblygu Addysg a Sgiliau Cymru
Canolfan Quadrant
Parc Busnes Caerdydd
Llanisien
Caerdydd
CF14 5WF
02920 741820
02920 741822
Dysg@lsda.org.uk
**www.lsda.org.uk/dysg**

**Chwefror 2002**

**Rhestr o'r Cynnwys**


Crynodeb Gweithredol 3

1. Cyflwyniad 10
2. Nodau ac Amcanion 12
3. Methodoleg 13
4. Diffinio Termau 15
5. Adolygiad o'r Llenyddiaeth 18
6. Dadansoddi'r Canlyniadau 57
7. Arferion Da 73
8. Gweld beth sydd heb Weithio 76
9. Casgliadau ac Argymhellion i'w Rhagbrofi 78


**ATODIADAU**


1. Astudiaethau achos yn deillio o ymchwil ddesg 92
2. Gweithdai 131
3. Rhestr o gyrff a gynrychiolwyd mewn gweithdai 139
4. Rhestr o ddeunydd a nodwyd / a ddarparwyd gan gyfranogwyr 141
5. Llyfryddiaeth Ddethol 145

## CRYNODEB GWEITHREDOL

Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno canlyniadau prosiect ymchwil yn anelu at ganfod arferion da o ran denu cymunedau i ddysgu. Caiff tri phatrwm cydberthynol eu hamlinellu lle llwyddwyd i ddenu cymunedau yng Nghymru a chaiff argymhellion eu cyflwyno ar gyfer camau di-oed a thymor hwy i weithredu canlyniadau'r adroddiad hwn. Dechreuwyd yr ymchwil y seiliwyd yr argymhellion hyn arni gydag adolygiad llawn o'r llenyddiaeth yn cwmpasu astudiaethau achos o Gymru, y DU a thu hwnt. Cefnogwyd hyn trwy ddatblygu astudiaethau achos penodol yng Nghymru. Rhoddodd y canlyniadau cyntaf sail i drafodaeth mewn cyfres o weithdai i fudd-ddeiliaid allweddol, gyda chanlyniadau'r rhain yn goleuo'r Adroddiad Terfynol hwn.

**Materion Allweddol:**

Mae'r materion allweddol a godwyd gan yr ymchwil yn cynnwys:

- Rhan ganolog Canolwyr medrus o bob math (gall Canolwyr gynnwys: gweithwyr cymunedol proffesiynol, anogwyr / arweinwyr cymunedol, rhai sy'n cynghori / cyfarwyddo, mudiadau cymunedol, darparwyr dysgu priodol, awdurdodau lleol a llawer o rai eraill)
- Y gofyniad am strwythurau cynaliadwy a gweithgaredd datblygu parhaol er mwyn llwyddo i ddenu cymunedau, a phwysigrwydd cymorth ariannol wrth hyrwyddo cynaladwyedd
- Pwysigrwydd gwahanol fathau o bartneriaethau (h.y. partneriaethau ar gyfer darparu – gan fod tystiolaeth yn dangos na all dim darparwr nac asiantaeth unigol ddiwallu holl anghenion perthnasol mewn cymuned benodol – a phartneriaethau gyda'u golygon fwy tuag at allan ar gyfer cefnogi, rhannu gwybodaeth arbenigol ac arferion)
- Yr angen i fesur llwyddiant a gwella ansawdd trwy werthuso, achredu addas pan yn briodol a/neu sicrwydd ansawdd y broses ddysgu
- Pwysigrwydd dulliau heblaw'r traddodiadol o gymell dysgwyr a gweld rhwystrau i ddenu i ddysgu
- Rheoli gwybodaeth yn y gymuned a'r angen i fod â gofynion dealladwy a chyfundrefnau cydgysylltiedig
- Gwerth ac ymarferololdeb defnyddio TG, TGCh, TGD ac E-ddysgu i hyrwyddo denu i ddysgu yn y gymuned

- Anawsterau cysylltiedig â gwahaniaethu dysgu'n drefnus yn ddysgu galwedigaethol ac analwedigaethol
- Pryderon o ran denu grwpiau targed penodol fel dysgwyr dwyieithog, lleiafrifoedd du ac ethnig (BEM), ffoaduriaid a cheiswyr lloches, teuluoedd, a'r rhai o gymunedau difreintiedig ac ardaloedd Cymunedau'n Gyntaf.

**Arferion Da**

Caiff rhestr helaeth o bwyntiau arferion da denu cymunedau i ddysgu'n llwyddiannus eu darparu, yn cwmpasu meysydd pwnc fel:

- Darpariaeth yn canolbwyntio ar y dysgwr
- Mewnosod dysgu yn y gymuned trwy ddatblygu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o anghenion dysgu yn y dysgwr a'r darparwr fel ei gilydd
- Hyrwyddo perchenogaeth gymunedol o ddysgu, gan ddefnyddio strategaethau 'marchnata' priodol a heb fod yn draddodiadol yn aml
- Sicrhau bod darpariaeth yn briodol i ffyrdd gwahanol o ddysgu, yn cael eu cyd-drafod gyda chyfranogwyr pan yn briodol, eu datblygu gydag ymwybyddiaeth o flaenoriaethau strategol ehangach, ac ati

Mae crynodeb o strategaethau neu arferion sydd heb weithio yn cael ei ddarparu hefyd.

**Patrymau o Ddenu Llwyddiannus**

Mae tri phatrwm yn cael eu cynnig o ddenu cymunedau'n llwyddiannus i ddysgu ac mae pwyslais ar bwysigrwydd mewnosod patrymau o'r fath yn y gymuned, h.y. ym meddiant y gymuned ac wedi eu canoli ar y gymuned. Mae astudiaethau achos ymchwil yn cael eu rhestru fel enghreifftiau, lle mae'r rhain i'w gweld yn cyd-fynd yn amlwg â phatrwm arbennig. Rhaid pwysleisio, fodd bynnag, y gall fod rhywfaint o aneglurder rhwng patrymau, gyda gweithgareddau mewn cymunedau yn dangos tebygrwydd i fwy nag un o'r patrymau a ddisgrifiwyd.

- **Patrwm dan Arweiniad Ymddiriedolaeth Ddatblygu** – Denu dan arweiniad corff datblygu ym meddiant y gymuned yn gweithio gyda grwpiau diddordeb yn y gymuned ac yn tynnu i mewn yr holl bartneriaid darparu eraill (yn yr achosion gorau yn cyfranogi mewn partneriaethau a rhwydweithiau strategol ehangach, yn rhanbarthol, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol).
    - Menter Cwm Aman (Y De-orllewin)
    - Ivanhoe Civic League (Appalachia UDA)
    - Upper Skeena Initiative (British Columbia, Canada)

- **Patrwm Rhannu Adnoddau** – Sefydliad gydag adnoddau a chysylltiadau, yn aml yn ddarparwr addysg, ond efallai yn sefydliad rhwydweithio neu gorff arall, sy'n arweiniol o ran tynnu rhwydwaith o ddarparwyr a mudiadau cymunedol ynghyd mewn cymunedau ar draws rhanbarth daearyddol. Bydd holl bartneriaid yn gweithio'n gyfartal ac yn parchu cryfderau, swyddogaethau a chyfyngiadau'r naill a'r llall tra'n defnyddio'r un ffynhonnell arian ac yn rhannu gwybodaeth arbenigol, staff ac adnoddau eraill. Mae'r patrwm hwn angen cyfranogiad cyrff cymunedol yn lleol iddo lwyddo i ddenu cymunedau i ddysgu.
    - Ar Dir Cyffredin (Amgueddfa Genedlaethol ac Orielau Cymru)
    - Gloucestershire Neighbourhood Project (Lloegr)
    - Sefydliadau Diwylliannol fel Mynedfeydd i Ddysg (Stuttgart, Yr Almaen)
    - Vocational Education and Training with Communities (Tasmania)
    - Partneriaeth Prifysgol Gymunedol y Cymoedd (Cymoedd y De)
    - Rhwydwaith Dysgu Newydd (Castell Nedd Port Talbot)

- **Patrwm trwy Ganolwr Arbenigol** – Canolwr trefnyddol fel grŵp neu fudiad cymunedol arbenigol neu ddarparwr ymwybodol o'r gymuned yn gyfrwng i ddechrau denu dysgwyr mewn cymuned. Gan amlaf caiff hyn ei wneud fel prosiect i ddechrau, a gall fod â diddordeb penodol yn ganolbwynt, yn hytrach na chanolbwynt daearyddol. Yn y patrwm hwn bydd unigolion medrus, gyda chefnogaeth y corff cyfryngol, yn gweithio gydag unigolion a grwpiau a dargedwyd yn eu cymuned leol i gymell dysgwyr, yn aml er budd amlwg yr unigolyn yn bennaf ond o fewn naws gymunedol a mantais y gymuned yn y pen draw.

  - Presgripsiwn ar gyfer Dysgu – NIACE (Y Gogledd)
  - Prosiect yr Ystol (Y De-ddwyrain)
  - Hyfforddi ar gyfer Trawsffurfio (Affrica, Iwerddon a Chymru)
  - Cyngor Henoed Morgannwg (Y De)
  - Coleg Cymunedol y Rhyl (Y Rhyl)
  - Theatr Fforwm Cymru (Cymru a Rhyngwladol)
  - Clybiau Ffermwyr Ifanc (Cymru)
  - XL Cymru (Cymru)

**Crynodeb o'r Argymhellion**

Mae argymhellion helaeth yn deillio o'r ymchwil a byddant angen sylw y rhai sy'n ymwneud yn uniongyrchol â denu cymunedau i ddysgu yn ogystal ag ELWa ac asiantaethau a chyrff perthnasol eraill.

**O dderbyn mai bwriad CC-ELWa yw cynnal gwaith rhagbrofi ym maes dysgu yn y gymuned byddem yn awgrymu'r canlynol:**

- Na ddylid cyfyngu gwaith rhagbrofi yn deillio o'r ymchwil hon i Ardaloedd Cymunedau'n Gyntaf gan fod y dystiolaeth yn awgrymu y gallai bychander y wardiau, all beidio cyd-daro â chymunedau brwd, gyfyngu ar ddenu dysgwyr
- Y dylai fod synergedd gyda datblygu Cyfrifon Dysgu yn y Gymuned rhagbrofol
- Y dylai prisiadau arwyddol y patrymau arfaethedig fod yn un o nodau gweithgaredd rhagbrofol i ysbrydoli datblygu lletach o fewn y sector

**Rydym yn argymell bod Cyngor Cenedlaethol ELWa yn ystyried:**

- **Hyrwyddo arferion a phatrymau gorau a nodwyd yn yr ymchwil hon o lwyddo i ddenu cymunedau ynghyd â chefnogi gwella ansawdd darpariaeth dysgu yn y gymuned drwyddi draw trwy wneud y canlynol:**
  - Lledaenu canlyniadau'r ymchwil i holl fudd-ddeiliaid dysgu, datblygiad economaidd ac adfywio cymunedol yng Nghymru
  - Darparu ar gyfer codi ymwybyddiaeth a datblygiad staff perthnasol holl ddarparwyr a chyrff addysg sydd â diddordeb mewn dysgu yn y gymuned trwy sefydlu rhwydweithiau rhanbarthol dysgu yn y gymuned
  - Gweithio gydag Estyn a sefydliadau perthnasol eraill i wneud y canlynol:

        - Cysylltu canlyniadau'r ymchwil, ac yn arbennig yr arferion gorau, â gweithredu'r Fframwaith Archwilio Cyffredin o fewn darpariaeth gymunedol
        - Galluogi datblygu 'arf archwilio' o'r arferion gorau i gefnogi hunan asesiad
    - Datblygu prosiect gyda rhwydwaith dynodedig o ddarparwyr sy'n arddangos arferion gorau, i ragbrofi agweddau at sicrwydd ansawdd o ddysgu anffurfiol gan gynnwys defnyddio unedau cyffredinol i gysylltu dysgu â'r Fframwaith Credydau a Chymwysterau ac addasu technegau i ddynodi canlyniadau meddal fel 'â gwerth ychwanegol' neu'r peirianwaith gaiff ei ddefnyddio mewn menter gymunedol, 'archwiliad cymdeithasol'

- **Hyrwyddo cynnydd chwim mewn denu cymunedau canfyddadwy i ddysgu trwy wneud y canlynol;**
    - Nodi cyrff sy'n gweithio ar hyn o bryd i'r patrwm ymddiriedolaethau datblygu yng Nghymru a chynnwys y cyrff hyn a'u cymunedau o fewn gwaith rhagbrofi cyfrifon dysgu yn y gymuned neu weithgareddau rhagbrofol eraill (mae mwyafrif y rhain yn ardal cymoedd y De ac, yn ogystal â'r rhai a nodwyd yn yr ymchwil, mae modd eu lleoli trwy wefan Cymdeithas yr Ymddiriedolaethau Datblygu)
    - O'r ymchwil a thrwy ddulliau eraill, nodi sefydliadau canoli arbenigol gyda hanes profedig o lwyddiant o ran denu grwpiau targed penodol neu gymunedau diddordeb, fel bod modd eu cynnwys i'w hystyried o fewn gwaith rhagbrofi cyfrifon dysgu yn y gymuned neu weithgareddau rhagbrofol eraill a/neu galluogi iddynt ddatblygu cysylltiadau gyda wardiau Cymunedau'n Gyntaf.
    - Hyrwyddo posibilrwydd datblygu'r 'Patrwm Rhannu Adnoddau' yn arbennig, trwy is-bwyllgorau dysgu yn y gymuned CCET lle maent yn bodoli
    - Hyrwyddo (o fewn cyfyngiadau adnoddau presennol o ran sgiliau a gwybodaeth arbenigol) dyblygu cynigion Ewropeaidd a phrosiectau llwyddiannus a nodwyd yn yr ymchwil (fel Rhwydwaith Dysgu Newydd, Prosiect yr Ystol a Presgripsiwn ar gyfer Dysgu), mewn meysydd priodol eraill

- Hyrwyddo holl batrymau a dulliau at ddefnydd Partneriaethau Cymunedau'n Gyntaf. Fodd bynnag dylid hyrwyddo'r Patrwm Rhannu Adnoddau yn arbennig oherwydd ei synergedd gyda Strategaeth Cymunedau'n Gyntaf
- Hyrwyddo cysondeb yng ngofynion a ffurfiau MIS rhwng asiantaethau ac, yn arbennig, ceisio datblygu templed unigol ar gyfer data dysgwr ar draws holl ddarparwyr

- **Cysylltu â'r Cyngor AU, asiantaethau datblygu cymunedol a gwaith ieuenctid, Awdurdod Datblygu Cymru, Cynghorau Sgiliau Sector perthnasol y Cynulliad Cenedlaethol ac asiantaethau neu gyrff eraill fel sy'n berthnasol i'r canlynol;**
  - Yn y byrdymor:
    - Hyrwyddo argaeledd chwim amrywiaeth o ddarpariaeth hyfforddiant i ddiwallu'r angen am fwy o weithwyr cymunedol proffesiynol
    - Sicrhau ystyriaeth 'ddi-dor' o fodd i hyrwyddo cynaladwyedd trwy gyllido creiddiol, cefnogi ac adeiladu gallu cymunedau
    - Nodi grwpiau a chanolwyr perthnasol sy'n ymddangos mewn ardaloedd lle mae cyrff cymunedol yn brin (e.e. y Gogledd a'r Canolbarth) fel bod modd cynorthwyo eu datblygiad
  - Yn y tymor hwy, canolbwyntio ar wella sgiliau a chynyddu nifer y canolwyr yng Nghymru drwyddi draw gan gynnwys y canlynol:
    - Cefnogi creu cyrff cymunedol gan y gymuned, ac ymddiriedolaethau datblygu yn arbennig, mewn cymunedau lle nad yw'r rhain yn bodoli ar hyn o bryd
    - Canolbwyntio ar nodi a datblygu unigolion a mudiadau mewn cymunedau sy'n gallu cefnogi denu'r gymuned. Dylid gwneud hyn trwy gefnogi'r canlynol;
      - Cynlluniau prentisiaeth cymunedol
      - Darparu hyfforddiant i arweinwyr ac anogwyr cymunedol a
      - Defnyddio agwedd o ddatblygu cymunedol i gynorthwyo grwpiau cymunedol eginol yn arbennig yng y Gogledd a'r Canolbarth

- **Cysylltu ag asiantaethau eraill a gweithio drwy'r LSRC i ateb y gofynion am ragor o ymchwil a nodwyd, yn arbennig y canlynol;**
    - Cynhyrchu astudiaethau achos a werthuswyd o lwyddo i ddenu cymunedau
    - Ystyried yr anghenion a materion arbennig sy'n berthnasol i'r canlynol;
        - Cymunedau gyda nifer o gyfranogwyr Cymraeg eu hiaith
        - Y rhai gydag anghenion arbennig neu'n gweithio gyda chymunedau ag anghenion arbennig
        - Denu aelodau cymunedau du ac ethnig lleiafrifol
        - Gweithio gyda chymunedau o ffoaduriaid / ceiswyr lloches

## 1. CYFLWYNIAD

Mae addysg oedolion yn rhaganghenraid pwysig ar gyfer cymryd rhan mewn gweithgaredd economaidd ac er hyrwyddo cyfoethogi cymdeithasol, proffesiynol a phersonol. Mae'r adroddiad hwn yn rhoi pwyslais arbennig ar bwysigrwydd denu cymunedau yn ogystal ag unigolion i ddysgu trwy ddarparu a chyfranogi mewn amrywiaeth o wahanol fathau o ddysgu yn y gymuned. Wrth gwrs, mae mudiadau cymunedol, sy'n darparu mathau mwy neu lai ffurfiol o ddysgu ynghyd â dewis o gyfleoedd dysgu anffurfiol i'w grwpiau targed, hefyd yn amgylcheddau dysgu allai fod yn rhagorol i'w cyflogeion a gwirfoddolwyr. Mae'r graddau y caiff dysgu anffurfiol trwy weithio mewn mudiad cymunedol ei ategu a'i gefnogi trwy addysg neu hyfforddiant mwy cyfeiriedig a ffurfiol yn amrywio'n eang ar draws y sector, fel y dengys yr adroddiad ar Grwpiau Cymunedol fel Cyflogwyr. Wrth gwrs, nid oedolion yn unig sy'n gallu elwa ar ddysgu yn y gymuned, cynigiwyd posibilrwydd lleoliadau gyda mudiadau cymunedol a gwirfoddol yn y papur ymgynghori a gyhoeddwyd yn ddiweddar ar 14-19 yng Nghymru (W A2002b). Bydd llawer o fudiadau cymunedol yn gweithio ar egwyddorion dysgu gydol oes, dim ond yn gwahanu darpariaeth lle bydd cyllid a gofynion statudol yn trechu.

Mae'r drafodaeth bresennol ar ddenu cymunedau i ddysgu yn dangos gwahaniaeth safbwynt dirnadwy rhwng cyrff sy'n deillio o fentrau cymunedol – sy'n tueddu i gynrychioli eu hunain fel yn *cyfranogi* mewn dysgu yn y gymuned ar yr un pryd â darparu addysg efallai, felly'n defnyddio rhywfaint o agwedd ethnograffig at ganfod anghenion – a'r rhai, pa mor agos bynnag eu cysylltiadau â'r gymuned leol, sydd o reidrwydd yn gorfod cynrychioli eu hunain yn bennaf fel 'darparwyr' addysg, oddi allan i'r gymuned ei hun, ac yn darparu ar gyfer anghenion sy'n cael eu canfod yn allanol. Tra bo eithriadau i, a gorgyffwrdd o fewn, y ddau ddosbarth bras yma, ac ymdrechion yn cael eu gwneud gan yr ail ddosbarth i ddefnyddio iaith cyfranogiad y gymuned, erys y gwahaniaethau hyn yn sylweddol. Mae'n amlwg o rai astudiaethau achos y gall fod o bryder i gymunedau a oes gwir ddealltwriaeth a chefnogaeth polisi trefnyddol wrth gefn yr iaith sy'n cael ei defnyddio.

Mae meysydd allweddol sy'n cael sylw yn yr adroddiad, trwy'r adolygiad o'r llenyddiaeth a'r astudiaethau achos fel ei gilydd, yn cynnwys y canlynol:

- Rhan dysgu yn y gymuned mewn adfywio cymunedol,

- Atgyfnerthu cymunedau,
- Adeiladu cyfalaf cymdeithasol,
- Chwalu rhwystrau cymdeithasol, a
- Galluogi cymunedau

Er mwyn gwneud gwahaniaeth yn lleol a hefyd ymyrryd mewn ffurfio polisïau yn lleol ac yn genedlaethol, yn ogystal â chyfranogi mewn rhwydweithiau a phartneriaethau rhyngwladol, un o'r materion pwysicaf yn ymwneud â denu cymunedau i ddysgu yw sut i symbylu unigolion a chymunedau. Heb gymhelliad, nid oes modd cyflawni fawr ddim. I gymell, mae angen cydio (wrth reswm) yn yr emosiynau a'r teimladau (i *symud* pobl, ymhob ystyr o'r gair hwnnw). Hefyd mae'n bwysig cydnabod y gall rhwystredigaethau yn ogystal â dymuniadau fod yn symbylwyr grymus.

Mae dewis eang ac amrywiol o Ddarparwyr Dysgu yn y Gymuned mewn bodolaeth, o'r mudiadau gwirfoddol cymunedol lleiaf i sefydliadau mawr yn y sector cyhoeddus. Gall yr amrywiaeth hwn gymhlethu disgrifio'r sector (neu, yn fwy cywir, sectorau) a thanseilio cyffredinoli. Yn yr un modd mae amrywiadau arwyddocaol rhwng gwahanol gymunedau daearyddol a/neu gymunedau diddordeb a gwahanol fathau o (ddarpar) ddysgwyr yn y cymunedau hyn. Fodd bynnag, mae mae modd tynnu nifer o egwyddorion arferion da o'n hymchwil sy'n sylfaenol i ddenu unigolion a chymunedau i ddysgu a chaiff y rhain eu hamlinellu yn adran 6. Ar ben hynny, tra bo adnoddau, cyfleoedd a phroblemau cymunedol yn amrywio o ranbarth i ranbarth, mae modd nodi amrywiaeth o faterion sy'n berthnasol i bawb. Yn ogystal â nodi'r materion sy'n cael eu manylu yn adran 5, daeth yn amlwg yn ystod yr ymchwil hon fod meysydd lle mae prinder gwybodaeth sy'n analluogi. Nod sylfaenol y prosiect hwn fu cael gwybod pa arferion da allai fod orau i'w rhagbrofi yng Nghymru. Felly, ynghyd â'r rhestr o arferion da, mae tri phatrwm o ddysgu llwyddiannus yn y gymuned yn cael eu hamlinellu, gan gynnig argymhellion ar sut ac ymhle y byddai modd cynnal gwaith rhagbrofi.

## 2 NODAU AC AMCANION

Sail resymegol ELWa i'r prosiect hwn yw rhoi gwybodaeth i lunwyr ac ymarferwyr polisïau am anghenion cymunedau ar hyd a lled Cymru, gyda phwyslais ar ganfod ffyrdd llwyddiannus o gynyddu'r galw am addysg, a denu iddi, gan ganolbwyntio ar gymunedau lle mae cyfranogiad yn isel ar hyn o bryd. Gan fod y cylch gwaith hwn mor helaeth, canolbwyntiodd gwaith ar ganfod pynciau llosg, arferion da presennol ac anghenion ymchwil ychwanegol.

Y canlynol yw amcanion y prosiect cyflawn

- Cyfuno tystiolaeth ystadegol a phrif ganlyniadau adolygiadau cenedlaethol a rhyngwladol o arferion gorau dysgu yn y gymuned, gan nodi unrhyw fylchau o bwys yn yr ymchwil
- Gwneud argymhellion ar agweddau llwyddiannus i'w cyflwyno neu ddatblygu ymhellach yng Nghymru
- Cynnal gwaith ymgynghoriad a lledaenu canolbwyntiedig
- Cynorthwyo'r Cyngor Cenedlaethol – ELWa wrth sefydlu rhaglenni rhagbrofol ar sail enghreifftiau dethol o arferion gorau.

## 3 METHODOLEG

Trefnwyd yr astudiaeth hon mewn dau gyfnod:

**Cyfnod A**

Mae'r cyfnod cyntaf wedi ymgorffori adolygiad o'r llenyddiaeth ac ymchwil ddesg, sydd wedi canolbwyntio ar grynhoi cyfres o astudiaethau achos i geisio tynnu sylw at arferion da presennol yng Nghymru. Mae'r astudiaethau achos yn cynrychioli detholiad o amrywiaeth mawr y grwpiau sy'n ymwneud â dysgu yn y gymuned a chyflwyno rhai o'u canlyniadau, llwyddiannau, pynciau llosg a phroblemau.

Mae'r astudiaethau achos hyn yn ceisio ystyried tystiolaeth ar y cysylltiadau rhwng dysgu yn y gymuned (ar yr holl ffurfiau a ddisgrifiwyd yn y cyfarwyddyd, pa un ai 'yn, gyda, am neu drwy' y gymuned) a strategaethau ehangach ar gyfer datblygu cymunedol ac adeiladu gallu cymunedol. Defnyddiwyd yr astudiaethau achos hefyd i archwilio ac egluro rhai o'r materion na ddogfennwyd yn ddigonol trwy'r arolygiad llenyddiaeth, er enghraifft materion yn ymwneud â chefnogi lleiafrifoedd du ac ethnig, dysgwyr ag anghenion arbennig a chymunedau gwledig.

**Cyfnod B**

Trodd ail gyfnod y prosiect hwn o gwmpas cyfres o sesiynau rhyngweithiol yn canolbwyntio ar rai o'r strategaethau ac arweiniadau llwyddiannus a welwyd yn denu cymunedau i ddysgu. Cynhaliwyd tri chyflwyniad a gweithdy ymgynghori hanner diwrnod gyda budd-ddeiliaid allweddol; cynghorau gwasanaethau gwirfoddol sirol, colegau addysg bellach yn ymwneud â gwaith allanol, awdurdodau addysg lleol, mudiadau cymunedol eraill a grwpiau yn y sector gwirfoddol. Digwyddodd y rhain yn Abertawe, Bedwas a Llanelwy ar 22, 28 a 29 Tachwedd yn eu tro.

Ceisiodd y gweithdai hyn wneud y canlynol:

- Cadarnhau ein dealltwriaeth o'r cymunedau blaenoriaethol y bydd eu hanghenion yn cael sylw ym mhrosiectau rhagbrofol ELWa
- Gweld os yw patrymau arbennig yn drosglwyddadwy i neu o fewn y cyd-destun Cymreig
- Ymestyn ein gwybodaeth o 'beth sy'n gweithio' yng Nghymru

- Coethi'r egwyddorion drafft ar gyfer arferion llwyddiannus
- Cynyddu ymwybyddiaeth o'r canlyniadau sy'n ymddangos o'r astudiaeth a hybu 'perchenogaeth' leol nid yn unig o'r argymhellion ond hefyd y camau fydd yn dilyn yr ymchwil.

## 4 DIFFINIO TERMAU

Mae amrywiaeth o dermau yn cael eu defnyddio yn yr adroddiad hwn i gyfeirio at grwpiau o bobl, dulliau o ddysgu a mathau o sefydliad. Mae rhai diffiniadau allweddol yn cael eu dangos isod:

**Cymuned:** (diffiniad CC-ELWa)

- Ymdeimlad o berthyn ymysg grŵp o bobl sy'n gallu codi'n gymdeithasol, yn ddaearyddol neu o ddiddordebau neu bryderon cyffredin. Gall cysylltiadau cymhleth o ddwyochredd a gwrthdaro ei nodweddu ond, fel arfer, bydd yn meithrin teimladau o undod cymdeithasol, gweithrediadau cyfunol ac ymdeimlad o hunaniaeth ddiwylliannol.

**Dysgu yn y Gymuned**: (diffiniad CC-ELWa)

- Dysgu sydd wedi ei lunio i adfywio cymuned trwy ddatblygu addysg a sgiliau ei phobl; a
- Dysgu sy'n cryfhau'r gymuned.

**Mathau o Ddysgu yn y Gymuned** (diffiniad CC-ELWa)

- **Dysgu *yn* y gymuned –** dysgu sydd yn o fewn cyrraedd y gymuned leol, er enghraifft mewn ysgol, llyfrgell, tafarn, cymuned neu neuadd bentref;
- **Dysgu *ar gyfer* y gymuned –** dysgu sy'n cefnogi adeiladu gallu cymunedol trwy weithgareddau a luniwyd i gynorthwyo cyfalaf cymdeithasol yn ogystal â chymhwyseddau unigol;
- **Dysgu *drwy'r* gymuned –** cyfleoedd dysgu anffurfiol sy'n dod trwy gyfranogiad gwirfoddol y dysgwr mewn gweithgaredd cymunedol;
- **Dysgu *gyda'r* gymuned –** dysgu sy'n dod o gymryd rhan mewn gweithgareddau celfyddydol, diwylliannol, chwaraeon a hamdden arall.

**Categorïau o Weithgaredd Dysgu Bwriadol:**
(diffiniad y Comisiwn Ewropeaidd yn y Memorandwm ar Ddysgu Gydol Oes)

- **Dysgu Ffurfiol –** sy'n digwydd mewn sefydliadau addysg a hyfforddiant, yn arwain at ddiplomâu a chymwysterau cydnabyddedig.

- **Dysgu heb fod yn Ffurfiol** – sy'n digwydd ochr yn ochr â chyfundrefnau addysg a hyfforddiant prif ffrwd ac, yn nodweddiadol, heb fod yn arwain at dystysgrifau ffurfiol. Gall dysgu heb fod yn ffurfiol gael ei ddarparu yn y gweithle a thrwy weithgareddau mudiadau a grwpiau sifil (fel mudiadau ieuenctid, undebau llafur a phleidiau gwleidyddol). Mae modd ei ddarparu hefyd trwy gyrff neu wasanaethau a sefydlwyd i ategu cyfundrefnau ffurfiol (fel dosbarthiadau celfyddyd, cerddoriaeth a chwaraeon neu hyfforddiant preifat i baratoi ar gyfer arholiadau).

- **Dysgu Anffurfiol** – sy'n cyd-fynd yn naturiol â bywyd bob dydd. Yn wahanol i ddysgu ffurfiol a heb fod yn ffurfiol, nid yw dysgu anffurfiol o angenrheidrwydd yn ddysgu bwriadol ac, felly, gall yn hawdd beidio cael ei gydnabod hyd yn oed gan unigolion eu hunain fel rhywbeth sy'n cyfrannu at eu gwybodaeth a'u sgiliau.

Yn ogystal â'r diffiniadau uchod o ddulliau dysgu sy'n cael eu darparu gan y Comisiwn Ewropeaidd, caiff y termau canlynol eu defnyddio mewn nifer o ffynonellau a byddant yn ymddangos yn yr adroddiad hwn:

- **Dysgu Digwyddol** – sy'n enw arall ar ddosbarth o Ddysgu Anffurfiol, sydd i'w gael mewn peth o'r llenyddiaeth a adolygwyd. Cyfystyr arall sy'n digwydd yw 'dysgu damweiniol'.

- **Dysgu Anfwriadol** – sy'n digwydd oherwydd cymryd rhan mewn gweithgaredd, a gall fod yn ddysgu ffurfiol, yn ddysgu heb fod yn ffurfiol neu'n ddysgu anffurfiol.

- **Dysgu Cudd** neu **Ddysgu yn y Dirgel** – mae'r rhain yn agos at ddysgu anffurfiol, lle nad yw'r dysgwr fel arfer yn ymwybodol fod dysgu yn digwydd. Fodd bynnag, mae rhywfaint o ddarpariaeth ddysgu o fwriad mewn amgylchedd anffurfiol.

**Ymddiriedolaethau Datblygu** (diffiniad Cymdeithas yr Ymddiriedolaethau Datblygu)

Caiff Ymddiriedolaethau Datblygu eu diffinio fel cyrff sydd fel a ganlyn:

- Yn gweithio ar adfywio economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol ardal neu gymuned ddiffiniedig
- Yn annibynnol ac yn anelu at hunangynhaliaeth
- Nid am elw preifat
- Seiliedig ar y gymuned ac yn ei meddiant
- Yn ymwneud â phartneriaethau rhwng y gymuned a'r sectorau gwirfoddol, preifat a chyhoeddus

**Canolwr** (ein diffiniad)

Diffiniad o ganolwr yw unigolyn neu gorff sy'n gallu hwyluso denu cymunedau neu unigolion mewn cymunedau i ddysgu.

# 5 ADOLYGIAD O'R LLENYDDIAETH

## 5.1 NODAU AC AMCANION

Mae'r adolygiad hwn o'r llenyddiaeth yn archwilio llenyddiaeth bresennol ar ddysgu yn y gymuned gyda'r bwriad o weld ffyrdd newydd o gynyddu'r galw am a mynd ati i ddysgu, gyda phwyslais arbennig ar gymunedau lle mae cyfranogiad yn isel. Y cylch gwaith (ELWa 2002) yw ystyried arferion gorau yng Nghymru, rhannau eraill o'r DU, Ewrop, a gwledydd eraill sy'n cyflwyno enghreifftiau o ddysgu llwyddiannus yn y gymuned.
Felly, mae'r adolygiad yn canolbwyntio, hyd y bo'n ymarferol, ar ganfod gweithredu mewn cymunedau, o fewn y DU a fan arall, i ddenu'r rhai nad ydynt fel arfer yn cyfranogi mewn cyfleoedd dysgu. Y pum amcan allweddol yw nodi a dadansoddi'r canlynol:

- Grwpiau ac unigolion sy'n ymwneud â dysgu yn y gymuned;
- Gweithrediadau a llwyddiannau grwpiau dysgu yn y gymuned
- Rhwystrau i ddysgu a strategaethau i'w goresgyn
- Cydnabod a dilysu dysgu anffurfiol a heb ei achredu
- Priodoldeb amgylcheddau dysgu yn y gymuned o ran caffael sgiliau sylfaenol a sgiliau allweddol

Wrth wneud hyn mae'r adolygiad yn ceisio ystyried amrywiaeth o faterion, gan gynnwys y rhai o gwmpas: peirianwaith cyllido, dulliau cyflwyno a'u heffeithiolrwydd, darparu ar gyfer lleiafrifoedd ethnig, gofynion a darparu ar gyfer anghenion arbennig, rhan dysgu yn y gymuned mewn adfywio, galluogi unigolion a chymunedau a goblygiadau rhaglen Cymunedau'n Gyntaf.

## 5.2 METHODOLEG

Mae toreth o lenyddiaeth ym maes Addysg Oedolion yn y Gymuned. Dangosodd yr olwg gyntaf ar y ffynonellau a nodwyd yn wreiddiol bod y mwyafrif yn cyfeirio at batrymau traddodiadol o addysg oedolion, yn trin darpariaeth oedd efallai mewn amgylchedd cymunedol, ond heb ddenu'r gymuned o angenrheidrwydd, gan wneud dim mwy na chynnig cyrsiau allanol o sefydliadau mwy traddodiadol. Roedd cynrychiolaeth dda hefyd o'r materion polisi o amgylch yr agwedd 'draddodiadol' hon. Trwy gysylltu â mudiadau cymunedol, a darparwyr o bob sector, rydym wedi chwilio am lenyddiaeth ychwanegol a deunydd astudiaethau achos, wrth geisio atebion arloesol. Fodd bynnag, mae prinder deunydd a gyhoeddwyd yn ffurfiol yn disgrifio naill ai theori neu ymarfer denu cymunedau i ddysgu. Mae'r ffynonellau hynny sy'n trin denu cymunedau yn tueddu i ganolbwyntio ar ganlyniadau i'r gymuned o ran datblygu, adfywio ac ati a, thra bo dysgu yn ddiamau yn nodwedd, efallai nad yw yn cael ei nodi'n uniongyrchol neu caiff ei drin o ran adeiladu gallu neu godi hyder. Fodd bynnag, rydym wedi tynnu ar beth o'r llenyddiaeth hon ac wedi defnyddio nifer o ffynonellau llai ffurfiol gan ddefnyddio astudiaethau achos i egluro pwyntiau a chodi materion drwy gydol yr adolygiad. Rydym hefyd wedi ceisio peidio cyfyngu'r adolygiad i Oedolion yn yr ystyr o ganolbwyntio ar ddysgu ôl-18, gan geisio cynnwys llenyddiaeth sy'n edrych ar y gymuned gyfan a rhai astudiaethau lle bu gwaith gyda phobl ifanc yn bennaf.

Mae rhychwant y ffynonellau a ddefnyddiwyd yn cynnwys adolygiadau cyhoeddedig, astudiaethau academaidd, dogfennau polisi, adroddiadau cyhoeddedig ac anghyhoeddedig, gwefannau, y newyddion a thystiolaeth astudiaethau achos o'r cyfan o'r ffynonellau hyn ynghyd â chyflwyniadau cynhadledd. Archwiliwyd y rhain o safbwynt y nodau ac amcanion a restrwyd uchod.

Caiff cyd-destun polisi dysgu yn y gymuned a'r materion tu cefn i gysyniadau denu'r gymuned yng Nghymru eu dadansoddi'n gryno isod. Yna caiff gwybodaeth o'r llenyddiaeth a astudiwyd ei threfnu o ran yr amcanion allwedd a amlinellwyd uchod. Tra bo rhywfaint o ddadansoddi dechreuol yn cael ei gyflwyno ym mhob adran, mae'r materion, argymhellion ac arferion da allweddol a nodwyd i'w gweld yn adrannau dilynol yr adroddiad dros dro.

## 5.3 Y CYD-DESTUN POLISI

Yn ei gyflwyniad i strategaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru 'Cynllun ar gyfer Cymru' mae Prif Weinidog Cymru yn datgan yr ymroddiad i "*raglen o ddiwygio ar sail traddodiadau Cymreig o gefnogi gwasanaethau yn gyffredinol a chynhwysfawr; cyfranogiad y gymuned; cefnogaeth i'r rhai mwyaf anghenus; a gweithwyr brwdfrydig a chynaledig yn y sector cyhoeddus.*" Yn y DU gyfan, mae Addysg, ynghyd ag iechyd, yn cael ei weld fel blaenoriaeth uchaf polisi cyhoeddus. Ailadroddwyd ymroddiad y Llywodraeth ar draws y DU i 'foderneiddio' a chyflwyno agweddau 'newydd' ar y gwasanaethau hyn yng Nghynhadledd y Blaid Lafur yn ddiweddar (Hydref 2002). Targedwyd llawer o'r diwygiadau yn benodol ar sectorau ysgolion ac ysbytai; fodd bynnag, mae'n ddiamau fod gan addysg yn ei hystyr ehangaf ran allweddol mewn cyflawni ffyniant economaidd a chynhwysiad cymdeithasol. Yn wir mae'r 'Cynllun ar gyfer Cymru' yn diffinio tair egwyddor arweiniol ar gyfer ei strategaeth, gan ganolbwyntio ar greu Cymru gynaliadwy, gynhwysol a chyfartal lle bydd pobl yn derbyn y sgiliau sydd arnynt eu hangen i ffynnu mewn economi creadigol modern.

Mae'r egwyddorion hyn hefyd yn sail i strategaeth y Cyngor Cenedlaethol gan ymddangos yn hanfodol os ystyriwn y materion a godwyd yn 'Cymru ar ei Hennill: Dadansoddiad Economaidd' (LICC 2002). Tra'n cydnabod mai gwella cynhyrchiant yw prif yrrwr twf economaidd mae'r dadansoddiad hwn hefyd yn cydnabod yr angen i hyrwyddo cyflogaeth a denu'r economaidd anweithredol. Mae cyfranogiad economaidd pobl oed gwaith yn gymharol isel yng Nghymru. Amcangyfrifon diweddaraf Arolwg y Gweithlu (AyG) yw fod o gwmpas 479,000 o bobl oed gwaith yn economaidd anweithredol yng Nghymru, cyfradd o 27.1% o'r boblogaeth. Yn y cyd-destun hwn, daw denu unigolion i ddysgu fel cam cyntaf tuag at weithgaredd economaidd yn ganolbwynt pwysig.

Yn ôl adroddiad Asiantaeth Datblygu Addysg a Sgiliau (LSDA 2000a) ar waith sy'n canolbwyntio ar ddatblygiadau yn Lloegr, mae seilwaith sefydliadol ehangu ac ad-drefnu dysgu gydol oes yn cael ei osod erbyn hyn. Mae'r gweithgaredd ariannol a gweithredol o fewn cyfrifoldeb y cynghorau dysgu a sgiliau, (Cyngor Cenedlaethol ELWa yng Nghymru). Fodd bynnag, mae'r adroddiad hwn gan yr LSDA yn dweud wrth ystyried

ffyniant economaidd y dyfodol a dileu allgáu cymdeithasol ei bod yn bwysig cynnwys meysydd polisi eraill. Mae creu cymunedau dysg ffyniannus yn dibynnu ar arweiniadau fel cynlluniau adnewyddu cymdogaethau, atal trosedd, darpariaeth blynyddoedd cynnar ac ymgyrchoedd iechyd y cyhoedd. Er bod modd priodoli llawer o weithgaredd gweithwyr 'yn y maes' yn agos i addysg (yn ei hystyr ehangaf) mae'n amlwg fod angen cydweithio agos rhwng yr amrywiol fudd-ddeiliaid swyddogol. Yn arbennig gall cael gafael ar gymorth ariannol ar gyfer prosiectau a'r 'ymgecru' anochel rhwng asiantaethau arwain at ddadrithio'r rhai fyddai'n elwa o gymryd rhan mewn dysgu gydol oes. Yn ogystal dywed yr adroddiad; '*yn rhy aml bydd strwythurau llywodraethu, cyfundrefnau atebolrwydd a gogwydd rheolaeth sefydliadau canolog a rhanbarthol yn llesteirio ffurfiau cyfranogiad a denu'r gymuned sydd arnom eu hangen nawr*'.

Mae adolygiad polisi adfywio cymunedol diweddar Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai CCC yn rhestru'n fanwl nifer mawr y meysydd polisi sy'n ymwneud â thema eu hadolygiad wrth ystyried materion fel posibiliadau symleiddio rhaglenni presennol; swyddogaeth partneriaeth; a thalu am bolisïau a rhaglenni. Mynegodd yr adolygiad y gred gadarn nad oedd modd cael cynnydd heb gyfranogiad ac ymrwymiad llwyr y cymunedau eu hunain. Fodd bynnag, cyfeiriwyd ganddynt at gymhlethdod ac amrywiaeth ffynonellau o ran talu am waith mewn cymunedau yn golygu 'ymdrech gyson' y mudiadau dan sylw. Nododd yr adolygiad 60 o ffrydiau ariannu sy'n cael ei redeg gan Lywodraeth Cynulliad Cymru (LICC) sydd ag effaith yn gymunedol, heb gynnwys y rhai'n cael eu rhedeg gan Gyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad (CCNC). Gan wahaniaethu'n eglur rhwng cyllido creiddiol a chyllid prosiectau a adneuwyd, mae'r adolygiad yn argymell datblygu ffrwd ariannu greiddiol ar fyrder wedi ei thargedu ar brosiectau a mudiadau adfywio cymunedol sydd wedi sefydlu.

Mae Cyngor Cenedlaethol Dysgu ac Addysgu Cymru (CC-ELWa) wedi dynodi creu 'Cymunedau Dysg' fel un o'i bum nod allweddol er mwyn hyrwyddo cyfleoedd dysgu di-ail. Dywed y Cyngor iddo dderbyn neges gryf drwy'r broses ymgynghori bod gweithgaredd cymunedol yn chwarae rhan hollbwysig o ran denu pobl i ddysgu.

Mae'n amlwg, felly, fod canolbwyntio cryf erbyn hyn ar alluogi cymunedau i gymryd rhan flaenllaw mewn adfywio, gyda swyddogaeth dysgu'n allweddol o fewn hyn. Datblygwyd methodolegau i hyrwyddo perchenogaeth gymunedol o weithgareddau trwy Raglen

Wedi ei lansio ym mis Mehefin 2001, lluniwyd y rhaglen i fynd i'r afael â thlodi yng nghymunedau mwyaf difreintiedig Cymru ac mae'n seiliedig ar yr egwyddor y dylai adnewyddu cymunedol ddiwallu anghenion a bennwyd gan y cymunedau eu hunain. Dywedodd yr adroddiad gwaith i Bwyllgor Llywodraeth Leol a Thai CCC (Mai 2002) bod 36 Partneriaeth Cymunedau'n Gyntaf wedi, neu ar fin, cael eu ffurfio a bod Rhwydwaith Cefnogi Cymunedau'n Gyntaf, yn cynnwys amrywiaeth o gyrff, wedi ei sefydlu i roi cefnogaeth i'r partneriaethau. Mae llythyr cenadwri'r Gweinidog Addysg a Dysgu Gydol Oes i CC–ELWa yn mynnu bod y Cyngor yn gweithio'n agos gyda'r Partneriaethau Cymunedau'n Gyntaf o ran agweddau perthnasol ar ddarpariaeth addysg.

Mae CCC a CC-ELWa yn cydnabod rhan y sector gwirfoddol wrth hyrwyddo cyfranogi mewn gweithredu cymunedol. Yn 1998 lansiodd Ysgrifennydd Gwladol Cymru y Cytundeb rhwng y Llywodraeth a'r Sector Gwirfoddol yng Nghymru. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi atgyfnerthu'r arweiniad polisi hwn trwy sefydlu Cyngor Partneriaeth rhwng y Cynulliad a'r Sector Gwirfoddol a thrwy gynhyrchu Cynllun y Sector Gwirfoddol. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi gofyn hefyd i bob un o'r CCNC ddatblygu cytundebau cyflenwol ar gyfer gweithio gyda'r sector gwirfoddol.

Mae ELWa wrthi'n datblygu 'cytundeb gweithredol' gyda'r sector gwirfoddol, 'Cydweithio ar gyfer Cymdeithas Ddysg Gynhwysol'. Mae'r sector gwirfoddol yng Nghymru yn cwmpasu rhyw 26,000 o fudiadau ac 1.8 miliwn o wirfoddolwyr (data a ddarparwyd gan Gyngor Cymru dros Weithredu Gwirfoddol ar gyfer Cytundeb Sector Gwirfoddol y CC-ELWa, Drafft Ymgynghori 2002) ac mae'n ymwneud â phob agwedd ar addysg a dysgu gydol oes fel darparwr, cyflogwr, defnyddiwr ac fel partner.

## 5.4 CYD-DESTUN DENU'R GYMUNED YNG NGHYMRU

O ran unrhyw drafodaeth ar ddenu cymunedau yng Nghymru, bydd yn bwysig ystyried etifeddiaeth ddiwylliannol gyfoethog cyfranogiad y gymuned gyda'r rhan fwyaf o weithgareddau dinesig, cymdeithasol ac economaidd (Clarke et al 2002). Ymddangosodd gwaith adeiladu cymunedau yn ffurfiol ar raddfa fechan gyda sefydlu mudiad y capeli annibynnol yn yr ail ganrif ar bymtheg. Cynhaliodd cefnogaeth y werin,

fel arfer yn hunanddysgedig, fudiadau ysbrydol a lles yn wyneb gwrthwynebiad trefnus y sefydliad.

Yn Ne Cymru, mae effaith defnyddio Cymraeg ffurfiol oherwydd defnyddio'r iaith o fewn, a'i hymledu ar draws ardal, yr eglwysi Anghydffurfiol, yn dal i'w weld (Morgan, DL 1988). Enynnodd diwydiannu ymateb cymdeithasol grymus i ecsploitiaeth ym mhoblogaeth drefol newydd y De. Golygodd twf poblogaeth enfawr y bu raid adeiladu rhai cymunedau o ddim. Tyfodd grwpiau hunangymorth yn y cymoedd, wedi eu sefydlu fel Cymdeithasau Cyfeillgar, o gwmpas Cymdeithasau Lles y Glowyr a'r mudiad undebau llafur, gan ddarparu patrwm gweithredol o allu cymunedau i dynnu eu hunain allan o amgylchiadau enbyd. Mae llawer o lenyddiaeth o ddiwedd y 1980au a'r 1990au yn ymwneud â chymunedau'r cymoedd, yn tynnu ar yr etifeddiaeth hon am atebion cymunedol ac yn amlygu rhan addysg oedolion yn eu hymdrechion i ddod dros ddirywiad diwydiannol (Francis 1989). Caiff y sefyllfa a ddisgrifiwyd o ran cymunedau'r cymoedd ei hadlewyrchu mewn rhai ardaloedd o'r Gogledd-ddwyrain lle cafodd dirywiad cynhyrchu dur, codi glo a thynnu mwynau yn ystod yr un cyfnod effaith enfawr ar gymunedau lleol (Cynllun Gweithredu Lleol Gorllewin Wrecsam). Dim ond ychydig o ddeunydd oedd i'w gael oedd yn berthnasol i rannau penodol eraill o Gymru neu Gymru gyfan. Fodd bynnag, ar hyd a lled Cymru yn niwedd y 1980au a'r 1990au cynnar, sefydlwyd nifer o rwydweithiau gan dynnu ynghyd ymarferwyr addysg oedolion o gyrff statudol a gwirfoddol i hyrwyddo mynediad i addysg (http://www.qaa.ac.uk/crntwork/access). Mae tri rhwydwaith o'r fath yn parhau fel Rhwydweithiau Coleg Agored yn cael eu gweld yn aml erbyn hyn fel cyrff gyda'r prif ddiben o ddyfarnu credydau, yn hytrach nag fel arloeswyr cyfleoedd dysgu seiliedig ar anghenion.

Un enghraifft o rwydwaith traws-sectoraidd, arbennig o berthnasol, yw Menter Addysg Oedolion y Cymoedd (VIAE) sydd, ers ei ffurfio yn 1988, wedi datblygu strategaethau addysg oedolion fel un o brif elfennau adfywio cymunedol. Roedd yn cynnwys holl sectorau darparu a grwpiau cymunedol, gan hyrwyddo cydweithrediad a phartneriaeth yn wyneb polisi'r amser i hyrwyddo cystadleuaeth (Reynolds a Francis 1988). Datblygwyd syniad y 'Brifysgol Gymunedol' gan VIAE i ddisgrifio rhaglen dreigl o ddigwyddiadau a phrofiadau addysgol, yn cael eu cyd-drafod gyda chyfranogwyr a'u trefnu a'u darparu o fewn cymunedau.  Rhoddwyd ar ddeall na allai hyn digwydd, na

denu unigolion na fyddai'n cymryd rhan mewn addysg yn draddodiadol, ond trwy ei wneud fel rhan o batrwm egnïol o ddatblygu cymunedol (VIAE 1990).

## 5.5 GRWPIAU AC UNIGOLION YN YMWNEUD Â DYSGU YN Y GYMUNED

Mae'n anodd adnabod y rhai sy'n cyfranogi mewn dysgu yn y gymuned yn aml oherwydd amrywiaeth eang y termau gaiff eu defnyddio i ddisgrifio ddarpariaeth neu ddysgu, sy'n cael eu cyflwyno mewn, ar ran, trwy neu gyda chymunedau. Felly, mae'n ddefnyddiol adolygu rhai diffiniadau cyfredol mewn llenyddiaeth berthnasol i'r maes hwn a'r cysylltiad rhwng cyrff, gwahanol weithgaredd a 'gweithredwyr' mewn cymunedau.

### 5.5.1 Dysgu yn y gymuned – trefnu a darparu

Diffiniad Faris a Peterson o Gymuned Ddysg (yn cael ei grybwyll yn Yarnit 2001) yw:

> Unrhyw ddinas, tref neu bentref, a'u hardaloedd, gan ddefnyddio dysgu gydol oes fel egwyddor trefnu a nod cymdeithasol, sy'n hyrwyddo cydweithio'r sectorau dinesig, cyhoeddus, economaidd, addysgol a gwirfoddol / cymunedol wrth gyflawni amcanion a gytunwyd yn perthyn i ddau amcan datblygu economaidd cynaliadwy ac allgáu cymdeithasol.

Yn y diffiniad hwn mae'r pwyslais ar ddysgu fel ffordd o gyrraedd y nod – cyflawni amcanion cymdeithasol ac economaidd a gyd-drafodwyd ymlaen llaw ar gyfer cymuned – ac awgrymu agwedd strwythurol ffurfiol. Mae prinder gwybodaeth feintiol ar ddysgu y gellir ei gysylltu'n uniongyrchol â'r math hwn o weithgaredd.

Yn ôl yr Adran Addysg a Sgiliau (Callaghan et al 2001) mae Addysg Oedolion a Chymunedol (ACE) yn gategori culach nag 'addysg oedolion' yn gyffredinol ac mae'n digwydd mewn amrywiaeth eang iawn o leoliadau; mae awdurdodau lleol a cholegau addysg bellach yn chwaraewyr o bwys ledled y wlad ac yn aml mae llinyn o weithredu cymdeithasol neu adfywio yn bresennol. Mae llawer o'r dysgu yn analwedigaethol a heb ei achredu, er bod peirianwaith cyllido a gofynion archwilio ansawdd fwyfwy yn gosod gofyniad i ddilysu canlyniadau dysgu heb ei achredu.

Caiff cysylltiadau rhwng datblygu cymunedol a datblygu sgiliau a dysgu yn gyffredinol eu dynodi yn rhai o'r astudiaethau achos yn Atodiad 3 isod a thrwy amryw o'r papurau a gyflwynwyd yn Datblygu Cymunedol yn Ne Cymru (Clarke et al 2002). Yn aml mae'r iaith gaiff ei defnyddio mewn cyd-destun llenyddiaeth datblygu cymunedol drwch blewyn yn wahanol a bydd llawer o gyfranwyr i'r llyfr yn cyfeirio at adeiladu gallu mewn cymunedau, sydd fel petai'n cynnwys dysgu unigolion, arweinwyr, cyrff neu'r gymuned gyfan. Bydd rhai cyfraniadau, fodd bynnag, yn adlewyrchu swyddogaeth dysgu yn fwy eglur fel yn achos 'Cynnal Cymunedau Bywiog, Addysgedig a Mentrus yng Nghymoedd y De' (Turner 2002). Mae hyn yn adlewyrchu'r angen i dorri ar draws ffiniau daearyddol a sectoraidd i gael buddiannau ehangaf addysg i gymunedau. Yn yr achos a gyflwynwyd, cyflawnwyd hyn trwy ffurfio partneriaethau llorweddol a fertigol. Mae echelin fertigol, neu efallai yn fwy confensiynol hierarchaidd, y bartneriaeth yn cynrychioli tynnu ynghyd holl fudd-ddeiliaid, o unigolion a grwpiau cymunedol, i fyny drwy bob math a dull o gyfarwyddyd statudol a darparwyr addysg, a chyrff datblygu cymdeithasol ac economaidd i'r asiantaethau cyllido a llunwyr polisïau eu hunain. Mae'r echelin lorweddol yn cynrychioli gwasgariad daearyddol y cymunedau dan sylw. Caiff y farn ei mynegi, lle bo partneriaid yn ymroddi i wrando, bod modd nodi anghenion a chyflawni dysgu er budd unigolion a'r gymuned gyfan.

Wrth ffurfio barn ar yr holl gyfraniadau i'r llyfr, mae Clarke et al (2002) yn rhoi sylwadau ar yr angen i weithredu partneriaethau yn gyfartal. Maent hefyd yn nodi anghenion amlwg i gydgysylltu gweithgaredd, partneriaethau o natur gyfartal rhwng holl gyrff ac asiantaethau ac arweiniad cymunedol, a datblygu medrusrwydd. Mae Jansen a Van der Veen (1996) yn tynnu sylw at bwysigrwydd rhwydweithiau a swyddogaeth addysg oedolion fel 'brocer'. Dylai ymarferwyr, yn gweithio o fewn rhwydweithiau, allu ysgogi cysylltiadau a chyfathrebu rhwng grwpiau o 'weithredwyr' cymunedol.

Fodd bynnag, mae Clarke et al yn gwneud y pwynt y dylid gwahaniaethu rhwng swyddogaethau unigolion yn y gymuned. Yn arbennig maent yn gweld posibilrwydd drysu rhwng swyddogaethau gweithredwyr cymunedol a gweithwyr datblygu cymunedol. Maent yn teimlo y dylid diffinio'r swyddogaethau hyn, gyda'r gweithiwr datblygu cymunedol yn weithiwr proffesiynol gyda hyfforddiant a sgiliau, yn ôl pob tebyg o'r tu allan i'r gymuned ac yn gallu bod yn wrthrychol. Byddai swyddogaeth y gweithwyr datblygu yn cynnwys nodi a/neu ddatblygu gweithredwyr cymunedol a ddylai fod, neu

ddod, yn arweinwyr a chynrychiolwyr eu cymuned. Caiff y ddwy swyddogaeth hyn eu gweld fel rhai hanfodol i broses ddenu cymunedau.

Mae dadleuon a gynigiwyd gan Yarnit (2001) yn ategu rhai o gasgliadau Clarke et al. Eu hachos yw na all unrhyw gorff unigol ddarparu'r sgiliau ac adnoddau angenrheidiol i gefnogi datblygu cymunedau dysg llwyddiannus. Gall ceisio darparu cyfuniad o adnoddau a gwybodaeth arbenigol arwain at 'bartneriaethau sy'n tueddu i fod yn bendrwm, dan ddylanwad asiantaethau mawr prif ffrwd fel colegau neu awdurdodau lleol, gan fod mewn perygl o gau allan mudiadau yn y sectorau gwirfoddol a chymunedol. Mae fframweithiau ariannol a rheolaethol yn dwysáu'r anghydbwysedd'. Mae'r papur yn cyflwyno'r syniad o gyfundrefn ddiwygiedig, gan hyrwyddo agwedd 'o'r gwaelod i fyny' fel ei nodwedd. Ble bynnag y bo modd, mae hyn yn adeiladu ar y mudiadau cymunedol lleol yn hytrach na'u disodli gyda biwrocratiaeth feichus newydd. Mae astudiaeth achos Rhwydwaith Dysgu Newydd NPT yn Atodiad 3.4 yn rhoi enghraifft o Bartneriaeth sy'n cynnwys amrywiaeth o fudiadau o'r sectorau cyhoeddus, statudol a gwirfoddol a sydd hefyd yn ymwybodol o'r angen i ymdrechu tuag at 'gydraddoldeb llais' i bob mudiad o fewn y bartneriaeth. Mae'r ymdrech hon yn hanfodol, gan mai un casgliad o bwys o bapur Martin Yarnit yw:
fod ein haddysg ysgol ac addysg a hyfforddiant parhaol cyfundrefnol fel llongau mawr ar fôr o ddysgu anffurfiol. Os na fydd y llongau addysg a hyfforddiant hyn yn talu mwy o sylw i'r swm enfawr o ddysgu anffurfiol, mae llawer ohonynt yn debygol o suddo i amherthnasedd Titanig.

### 5.5.2 Yn ôl gwybodaeth ac ystadegau sydd ar gael, felly, pwy sy'n dysgu mewn cymunedau?

Yn draddodiadol, mewnosodwyd addysg a hyfforddiant ôl-16 yn y sector Addysg Bellach ac Addysg Oedolion yn y Gymuned yn cael ei redeg gan AALl. Ers Deddf Addysg Bellach ac Uwch (1992), pan dorrwyd colegau yn rhydd o reolaeth awdurdodau addysg lleol, cawsant eu siarsio i ddod yn fwy mentergar a chreadigol. O ganlyniad mae llawer wedi ymestyn eu dewis o ddarpariaeth. Mae ystadegau diweddar (ELWa Awst 2002) yn awgrymu, ers yr 'ymgorffori' yn 1992, mai'r amcangyfrif yw fod nifer myfyrwyr yn y sector AB yng Nghymru wedi cynyddu 76% at ei gilydd gyda nifer myfyrwyr rhan-amser wedi cynyddu dros 50%. Roedd 58,616 o ddysgwyr yn dilyn cyrsiau addysg oedolion barhaol (ACE) (ystadegau Hydref 2001). O fewn y grŵp hwn roedd 77% yn fenywod.

Tra gall ystadegau yn deillio o'r sector AB a rhannau o'r sector AOB efallai roi dadansoddiad o ddenu grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol mewn cylchoedd difreintiedig i ddysgu (yn ôl dadansoddiad cod post), ni roddwyd gwybodaeth am effeithiau ehangach dysgu a throsglwyddo gwybodaeth a sgiliau caffaeledig i ymddygiad gwahanol o fewn y gymuned.

Gwyddom o ddata ELWa (Awst 2002) mai merched yn bennaf sy'n cael eu denu i AOB ffurfiol yng Nghymru a bod mwyafrif yr hanes achosion y cyfeiriwyd atynt gan Gorard yn rhoi'r argraff o gefnogi'r farn honno. Yn ogystal dywed McGivney (2000):

> mae'r rhan fwyaf o arolygon o gyfranogiad oedolion yn dal i ddangos mai mwyafrif y bobl sy'n cyfranogi mewn addysg oedolion, addysg bellach ac addysg uwch yw'r rhai gyda chyfnod hwy yn yr ysgol, gwell cymwysterau a statws economaidd-gymdeithasol uwch.

Dengys arolygon o ddysgwyr aeddfed yn y DU yn gyffredinol (Callaghan et al 2001) gyfranogiad isel ymysg dysgwyr hŷn a'r economaidd anweithredol. Fodd bynnag, o fewn darpariaeth dan reolaeth Awdurdodau Addysg Lleol (AALl) mae arwydd bod mwy o bobl hŷn, gyda mwyafrif o ferched, yn cofrestru yn y sector AALl.

Edrychodd yr Arolwg Cenedlaethol o Ddysgwyr Aeddfed (Lavalle a Blake 2001) ar 'brofiadau dysgu', gan ddiffinio hyn i gwmpasu gweithgaredd dysgu ffurfiol a rhai mathau o ddysgu anffurfiol. Fodd bynnag, ni chynhwyswyd achosion o ddysgu anfwriadol na dysgu digwyddol. Dangosodd hyn fod y ganran sydd heb fod yn dysgu wedi cynyddu rhwng 1997 a 2001 yng Nghymru o 29% i 36%.

Mae dadansoddi data Cofnodion Myfyrwyr Unigoledig (CMU) ar gyfer 2000/01 yn caniatáu cymhariaeth rhwng denu dysgwyr o ardaloedd Cymunedau'n Gyntaf ag ardaloedd eraill yng Nghymru. Ymhob un o'r dosbarthau oedran, dan 16, 16-18, 19-20, 21-24, 25-39, fesul un ac fel cyfanrwydd, cafodd canran uwch o ddysgwyr o ardaloedd Cymunedau'n Gyntaf fynediad i AB (71%) o'i gymharu â Chymru gyfan (63%). I'r gwrthwyneb, ymhob un o'r dosbarthau oedran, 40-49, 50-59, 60+, fesul un ac fel

cyfanrwydd, cafodd canran is (29%) o ddysgwyr o ardaloedd Cymunedau'n Gyntaf fynediad i AB o'i gymharu â Chymru gyfan (37%).

Os edrychwn ar ddysgwyr rhan-amser a llawn-amser ar wahân, ym maes myfyrwyr rhan-amser mae'r rhaniad fwyaf amlwg. O ran myfyrwyr llawn-amser mae canran poblogaeth dan 40 y colegau mewn ardaloedd Cymunedau'n Gyntaf yr un ag yng Nghymru gyfan. Mae canran y bobl dros 40 oed yr un fath hefyd mewn ardaloedd Cymunedau'n Gyntaf ac ar hyd a lled Cymru.

Mae'r data yn dangos y canlynol ynghylch rhaniad poblogaeth y colegau rhwng gwrywod a benywod. O ran dysgwyr rhan-amser gwelwn yr un tueddiadau ag wrth ystyried y ddau ryw gyda'i gilydd, gyda chanran uwch o fenywod mewn ardaloedd Cymunedau'n Gyntaf nag ar hyd a lled Cymru ar gyfer y dosbarthau oedran dan 16-39 a chanran is o fenywod yn y dosbarthau oedran dros 40. (Mae'r duedd hon yn dal ymhob dosbarth – dan 16, 16-18,19-20, 21-24, 25-39, 40-49, 50-59, a thros 60). O ran dysgwyr llawn-amser mae canrannau benywod yn y dosbarthau oedran dan 40 a thros 40 yn union yr un fath yn ardaloedd Cymunedau'n Gyntaf a thros Gymru gyfan. Os byddwn yn dadansoddi'r dosbarthau i dan 16, 16-18 ac ati, yna nid yw'r patrwm yn dal.

Mae dadansoddiad o 'gyfnodau' CDU yn cael ei gyflwyno mewn adroddiad diweddar (Gray, M et al 2002) o'r LSDA. Mae hwn yn ystyried effaith gyntaf arweiniad y Cyfrif Dysgu Unigol sydd wedi dod i ben erbyn hyn. Yn y cyd-destun hwn mae darparwyr addysg yn ôl y disgwyl yn cynnwys colegau addysg bellach a sefydliadau hyfforddi eraill. Caiff y dadansoddiad ei gyflwyno ar sail math o ddarparwr o fewn pedair ardal astudiaeth yn y DU ac mae'n dangos bod 11% (1535 allan o gyfanswm o 14,272) i'w priodoli i wasanaethau Addysg Oedolion AALI, gyda 30% mewn colegau AB a 38% yn dod o fewn amrywiaeth o 'ddarparwyr eraill'. Yn anffodus nid yw'r data yn dangos faint o'r darparwyr eraill sy'n perthyn i'r sector gwirfoddol neu lle gall darpariaeth sy'n cael ei briodoli i AB neu AALI fod wedi cael ei chyflwyno mewn partneriaeth yn y gymuned. Nid oes unrhyw arwydd chwaith o'r mathau o ddarpariaeth a wnaed heblaw i ddweud y bu galw mawr am hyfforddiant TG ymysg dysgwyr hŷn.

O gyfanswm o 689,000 cyfrif a agorwyd y cydbwysedd rhywiau oedd 58% benyw i 39% gwryw (ni wnaeth 5% ddatgan eu rhyw). O'r 40% o gyfrifon a ddefnyddiwyd mewn

gwirionedd (ychydig a fanteisiodd), defnyddiwyd 59% gan ferched a 40% gan ddynion. Dengys yr ymchwil bod y merched yn ceisio dychwelyd i'r farchnad waith neu'n chwilio am well gwaith cyflogedig. Daeth y defnydd mwyaf (39%) o'r grŵp oedran 35-49 ac, yn arwyddocaol, roedd pobl hŷn na 49 wedi defnyddio 23% ychwanegol.

Gofynnwyd i ddeiliaid cyfrifon CDU gofnodi eu statws economaidd pan yn cofrestru. Y rhai mewn cyflogaeth fanteisiodd fwyaf, gyda chyn lleied â 9% o'r di-waith yn cofrestru am gyfrifon.

Roedd barn darparwyr yn amrywiodd ar gymhellion y dysgwyr newydd. Fodd bynnag credai nifer sylweddol bod CDU:

- Yn bendant wedi bod yn elfen wrth annog pobl oedd wedi bod allan o addysg
- Wedi annog pobl i geisio cyflogaeth neu ddyrchafiad
- Wedi annog pobl i gynorthwyo eu plant gyda gwaith cyfrifiadurol
- Wedi cynorthwyo pobl mewn swyddi cyflog isel oedd tu allan i'r gyfundrefn fudd-daliadau gan ei fod yn lleihau ffioedd
- Wedi dod â mân fusnesau a busnesau un-person at ddysgu.

O'u cymrwyd at ei gilydd, mae ffigurau o bob un o'r astudiaethau uchod yn rhoi peth gwybodaeth anghyson, a rhaid ystyried eu bod yn ddangosyddion amrwd o ddenu i ddysgu dros y blynyddoedd diwethaf. O ran mwyafrif yr ystadegau, dim ond ychydig o fanylion eglur o nodweddion cyfranogwyr (heblaw rhyw), eu cymhellion, cyflogaeth, neu statws economaidd-gymdeithasol sydd ynddynt. Lle caiff unrhyw ran o'r wybodaeth hon ei chynnwys, nid oes unrhyw ffordd o asesu a oes sail gyffredin i'r dosbarthu o ran math o ddysgu neu nodweddion dysgwyr. Yn bwysicach, nid yw'r ystadegau a gyflwynwyd yn y ffynonellau uchod yn dangos, yn ddigonol i wneud unrhyw ddadansoddi, sut neu ymhle y gwnaed y dysgu. Felly, at ddiben canfod unigolion sy'n ymwneud â dysgu yn y gymuned, ychydig o wybodaeth berthnasol sydd yn y ffigurau hyn.

Un neges glir, fodd bynnag, yw nad yw dysgu anffurfiol yn addas ar gyfer mesurau cyfleus fel cyfraddau cyfranogi a llwyddo ac yn cyfrannu, felly, at y pryderon bod dadansoddwyr yn ddall i lawer iawn o ddysgu a gwybodaeth arbenigol sy'n cael eu caffael tu allan i'r gyfundrefn gofnodi.

Hyd yn oed pan fydd bodolaeth dysgu anffurfiol yn cael ei gydnabod mae'n anodd dod o hyd i brosiectau a phatrymau a gloriannwyd i fesur ei effeithiau o fewn cymunedau. Mae gwaith Gorard, Rees a Fevre (2002) yn ceisio cyflwyno peth gwybodaeth am faint o ddysgu anffurfiol sydd yng Nghymru. Gwnaethant hyn trwy ddadansoddi astudiaethau achos o dri rhanbarth diwydiannol yn y De, (Pen-y-bont ar Ogwr, Castell Nedd Port Talbot a Blaenau Gwent). Mae eu gwaith diweddar yn amau'r diffiniad cul o ddysgu sy'n cael ei ddefnyddio mewn llawer o'r ysgrifau presennol o ran dysgu gydol oes. Fel cyferbyniad, dywedant fod 'llawer o ddysgu gwerthfawr a heb fod yn ddibwys yn digwydd eisoes, a bu'n digwydd erioed, oddi allan i raglenni hyfforddiant ffurfiol'. (Gorard et al 2002, tud. 105). O safbwynt cyflogaeth, dangosodd data yr arolwg nad oedd y rhan fwyaf o swyddi newydd yn cynnwys unrhyw hyfforddiant fel y byddai modd dosbarthu dysgu caffaeledig fel dysgu anffurfiol sy'n trosglwyddo i barhad y sefydliad busnes o fewn ei gymuned.

Mae hanes achosion y cyfeiriwyd atynt gan Gorad et al yn rhoi llawer o enghreifftiau o bobl sydd wedi addysgu eu hunain yn annibynnol ar y cyfundrefnau sefydledig. Roedd un dyn wedi dysgu crochenwaith, electrolysis ar gyfer metaleiddio, electroneg syml, castio cwyr a modelu dodrefn iddo'i hun. Roedd gŵr arall a atebodd yn blastrwr a thrydanwr hunanddysgedig, oedd yn caru'r opera, ond yn gweithio fel dyn ffowndri ddur. Roedd yr un atebwr hefyd wedi darllen sut i ofalu am y 7,000 o blanhigion yn ei ardd.

### 5.5.3 Ysgogi'r Galw am Addysg

Mae adroddiad a gomisiynwyd gan LSDA, ac a baratôdd Hillage ac Aston (2001) o'r Sefydliad Astudiaethau Cyflogaeth, yn adolygu llenyddiaeth y DU a rhyngwladol ar arweiniadau i ysgogi'r galw am addysg. Maent yn nodi bod modd dadansoddi cyfranogiad mewn addysg a hyfforddiant o gwmpas nifer o newidynnau allweddol:

- Profiad addysgol blaenorol – sef yn ôl pob tebyg y newidyn unigol pwysicaf sy'n egluro cyfranogiad mewn dysgu gydol oes. Mae cydberthyniad cryf iawn rhwng faint o amser a dreuliwyd mewn addysg yn union ar ôl addysg orfodol a'r cymwysterau a gafwyd â chyfranogiad yn ddiweddarach mewn bywyd.
- Statws yn y farchnad lafur – mae pobl mewn cyflogaeth yn llawer mwy tebygol o gael gafael ar hyfforddiant a chyfranogi ynddo.

- Galwedigaeth – mae cydberthyniad eglur rhwng math o gyflogaeth a chyfranogiad. Mae dysgwyr yn fwy tebygol o berthyn i alwedigaethau rheolaethol, proffesiynol neu broffesiynol cyswllt.
- Oed – yn gyffredinol mae dysgwyr yn tueddu i fod yn iau na rhai heb fod yn ddysgwyr.
- Rhyw – mae merched yn fwy tebygol na dynion o ddilyn hyfforddiant.
- Ethnigrwydd – mae ystadegau addysg bellach ac uwch yn awgrymu y gall fod mwy o amrywiad rhwng grwpiau o wahanol gefndiroedd cymdeithasol ac ethnig na rhwng y ddau ryw. Bydd cyfran sylweddol uwch o'r gymuned ethnig yn aros mewn addysg lawn-amser na phobl gwyn, er enghraifft.
- Lleoliad – mae cyfranogiad yn amrywio yn ôl lleoliad daearyddol, gyda llai o gyfranogi i'w weld mewn cylchoedd difreintiedig.

Dengys yr ymchwil hefyd bod arweiniadau a luniwyd i ddenu cymunedau i ddysgu yn tueddu i ddilyn dau lwybr gwahanol. Mae'r rhai sy'n canolbwyntio ar ardaloedd gwledig yn ymwneud yn bennaf â gwella mynediad i ddarpariaeth addysg tra bo'r rhai ynghanol dinasoedd yn tueddu i geisio mynd i'r afael â phroblemau fel cymhelliad.

O safbwynt canfod grwpiau ac unigolion sy'n cyfranogi mewn dysgu yn y gymuned, nid yw'r data hyn ond o ddefnydd cyfyngedig chwaith. Fodd bynnag mae yn nodi bod llawer o arweiniadau yn rhoi'r argraff o anelu at ei wneud yn haws i'r rhai sydd eisiau dysgu – yn hytrach na chanolbwyntio ar y digymell sy'n gweld dim mantais o ddysgu. Gall rhestr y newidynnau a amlinellwyd fod yn ddefnyddiol wrth ddatblygu mesurau i asesu os yw dysgwyr a ddenwyd i gynlluniau yn cadw at broffil "dysgwyr traddodiadol" neu yn "ddysgwyr newydd" na ddenwyd yn flaenorol gan y ddarpariaeth ar gynnig.

Mae'r adolygiad LSDA hwn hefyd amlygu fod prinder tystiolaeth werthusol grynodol ar ganlyniadau arweiniadau, yn y gymuned neu fan arall. Byddai'n ddefnyddiol i ddatblygu dulliau fyddai'n annog llunwyr polisïau i weld os yw eu harweiniadau i ysgogi'r galw am addysg yn cael yr effaith sydd ei heisiau. Yna gellid gosod y dystiolaeth o fewn y cyd-destun addysgol, cymdeithasol ac economaidd ehangach.

Un dull sy'n cynnig ei hun i batrwm 'cymuned ddysg' yw targedu grwpiau yn hytrach nag unigolion, gan gynnwys y sector gwirfoddol. Un o'r gwahaniaethau allweddol rhwng

dysgu mewn amgylchedd sector gwirfoddol a strwythur mwy ffurfiol darpariaeth goleg neu hyfforddiant yw sut gaiff pobl eu denu. Mae rhai o'r astudiaethau achos a nowyd uchod yn enghreifftiau o'r agwedd hon. Anaml y bydd grwpiau gwirfoddol yn mynd allan i ddenu dysgwyr, fel y byddai coleg neu ddarparwr addysg arall. Caiff pobl eu denu gan y gwasanaeth sy'n cael ei gynnig, fel bore coffi neu gyfle i chwarae pêl-droed. Dengys grwpiau canolbwyntio o adroddiad diweddar CCET (Consortiwm Cymunedol dros Addysg a Hyfforddiant) Abertawe (ELWa 2002b) bod yr dull hwn yn gweithio fel cam cyntaf i bobl sydd wedi cael profiadau negyddol yn yr ysgol – nid ydynt am ymwneud â 'dysgu' na chofrestru ar 'gwrs'. Trwy eu hymwneud â mudiad gwirfoddol cawsant amgylchedd lle gallent deimlo'n ddiogel i symud ymlaen ar eu cyflymder eu hunain.

Mae rhai 'grwpiau anodd eu cyrraedd' yn dod o fewn y dosbarth 'anfodlon' a chyda'r grwpiau hyn y daw agwedd aml-asiantaeth, gyda'i holl anawsterau gweinyddol a strategol i'w chanlyn, yn hanfodol. Un cynllun ataliol yw Cymunedau sy'n Gofalu (DU) (1997), sy'n targedau pedwar ymddygiad sy'n peri fwyaf o broblem ac yn andwyo bywydau pobl a'r cymunedau lle maent yn byw.

- Troseddu pobl ifanc – sy'n gallu tanseilio diogelwch a hyder cymunedau cyfan
- Camddefnyddio cyffuriau – bydd pedwar allan o ddeg o rai 15-16 oed (CTC 1997) yn sôn iddynt ddefnyddio cyffuriau ar ryw adeg. Y prif berygl yw i iechyd yr unigolyn a pherygl eilaidd yw i gymdogaethau ddod yn gynefin gwerthwyr cyffuriau a throseddau cyffuriol
- Beichiogrwydd tra yn yr ysgol – dengys adroddiadau diweddar (TES 20/09/2002, tud. 20) bod cyfradd uchaf beichiogrwydd arddegol yn y DU yng Nghymru, gyda 35.2 allan o bob 1000 o ferched o dan 20 yn mynd yn feichiog o'i gymharu â 28.8 yn Lloegr a 26.1 yng Ngogledd Iwerddon
- Methu yn yr ysgol – mae bron i un mewn 10 o ymadawyr ysgol heb gymhwyster.

Seiliwyd cynllun Cymunedau sy'n Gofalu (DU) ar batrwm Americanaidd gyda chefnogaeth Sefydliad Joseph Rowntree yn y DU. Mae yn rhaglen hirdymor sy'n canolbwyntio ar adeiladu cymunedau mwy diogel lle caiff plant a phobl ifanc eu gwerthfawrogi. Mae'r prosiect yn sefydlu partneriaeth weithio rhwng pobl leol, asiantaethau a chyrff i hyrwyddo datblygiad personol a chymdeithasol iach ymysg pobl ifanc gyda'r nod o ostwng perygl ymddygiad sy'n peri problemau.

Mae pedwar prif gyfnod i'r rhaglen:

- Cyfranogiad y gymuned
- Archwiliad o beryglon ac adnoddau
- Cynllunio a gweithredu
- Arolygu a gwerthuso.

Tra bo 'cynghreiriau lleol' yn cael eu gweld fel canolog i gyflawni cynllun gweithredu, a chryfderau a gallu cudd pobl o fewn cymunedau yn cael ei gydnabod, ar yr olwg gyntaf mae'r cynllun yn rhoi'r argraff o fod 'o'r brig i lawr'. Er i CTC ddweud ei fod yn gweld yr angen am gefnogaeth pobl leol ac na allant 'barasiwtio i mewn' aiff ymlaen i nodi mai'r arweinwyr allweddol yw Prif Weithredwr y Cyngor, y Cyfarwyddwr Addysg, Penaethiaid Ysgolion, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol, y Cyfarwyddwr Tai a'r Prif Gwnstabl! Yna caiff y bobl hyn eu tynnu at ei gilydd am sesiwn cyfeiriannu gyda'r bwriad o sicrhau cefnogaeth ac ymroddiad cyhoeddus.

Mae'r patrwm gwerthusol sy'n cael ei ddefnyddio gan Cymunedau sy'n Gofalu yn un trwyadl gyda'r gallu i ddangos i gymunedau sut i fesur a mapio'r prif elfennau perygl ac amddiffynnol o ran troseddu pobl ifanc, camddefnyddio cyffuriau, beichiogrwydd tra'n yr ysgol a methiant ysgol. Fodd bynnag, mae'n amlwg bod angen rheoli'r dull o gyflwyno yn deimladol. Mae'r cynllun yn uchelgeisiol ac angen ymroddiad yr asiantaethau swyddogol er mwyn cael hygrededd a nawdd. Fodd bynnag mae'r fethodoleg 'o'r brig i lawr' yn groes i'r dulliau trin sy'n cael eu hyrwyddo gan Yarnit, CCET Abertawe ac eraill, lle caiff adeiladu o'r gwaelod ei weld fel yr unig ffordd effeithiol o gael gafael ar gronfeydd o ewyllys da, sgiliau ac ysbryd cymunedol y werin.

## 5.6 CYRAEDDIADAU GRWPIAU DYSGU YN Y GYMUNED

Fel mae Gorard et al yn awgrymu, gall fod yn anodd mesur pwysigrwydd grwpiau cymunedol o ran diwallu anghenion dysgu am nad yw dysgu cofnodedig ffurfiol, ac felly y dystiolaeth sydd ar gael trwy ddata swyddogol, yn ddim ond 'crib y mynydd iâ' (Gorard et al 2002). Fodd bynnag, mae'r dull 'o'r gwaelod i fyny' sy'n cael ei hyrwyddo gan Yarnit (2001) yn pwysleisio gwerth grwpiau dysgu yn y gymuned. Felly, caiff detholiad o

astudiaethau achos cyhoeddedig eu hamlinellu isod: Prosiect yr Ystol (arweiniad ar gyfer pobl 16-25 oed o Gymoedd y De); gwaith Menter Cwm Aman (prosiect Addysg Oedolion ac Adfywio Cymunedol); prosiect *Gloucestershire Neighbourhood*; Ar Dir Cyffredin (prosiect rhagbrofol ar gyfer pobl ifanc yng nghymunedau Cymru dan arweiniad Amgueddfa Genedlaethol ac Orielau Cymru), trosglwyddo 'Hyfforddi i Drawsffurfio' o Ddwyrain Affrica i'r Iwerddon a Chymru a phrofiadau mentrau yn cynnwys cymunedau yn yr UDA, Wrwgwái, yr Almaen a Thasmania.

### 5.6.1 Prosiect yr Ystol

Sefydlwyd Prosiect yr Ystol yn 1997 gan Uned Pobl a Gwaith mewn partneriaeth gydweithredol gyda Sefydliad Rank, Ymddiriedolaeth y Tywysog a thair ymddiriedolaeth ddatblygu leol yn gweithio ar adfywio cymunedau'r Cymoedd (Lloyd-Jones, 2002). Y nod oedd gweithio gyda phobl 16-25 oed oedd â chymwysterau gwael neu heb yr un cymhwyster ac yn ddi-waith. Lluniwyd y prosiect i fod yn brosiect ymchwil weithredu gyda'r bwriad o ddeall y bobl ifanc hyn yn well ac i ragbrofi atebion arloesol i roi sylw i'w hanghenion. Roedd chwech o staff ar gyfer y cynllun rhagbrofol a'r meini prawf denu oedd fod fod raid iddynt fod o'r ardal lle'r oeddent yn gorfod gweithio ac yn gallu dangos ymroddiad i weithio yn eu cymuned leol. Hefyd roedd raid iddynt fod yn 'awchus am gymwysterau'.

Defnyddiwyd agwedd, sydd wedi hen sefydlu mewn gwaith ieuenctid, lle bydd cyfranogwyr yn sefydlu cysylltiad effeithiol dros gyfnod hir gyda gweithiwr sy'n gofalu amdanynt (mentora anffurfiol). Gwelwyd sgwrs a chefnogaeth bersonol yn sylfaenol i ddenu pobl ifanc ac mae ymateb cynnar y cyfranogwyr yn cefnogi hyn – roeddent yn dweud eu bod yn gwerthfawrogi'r cysylltiadau a ffurfiwyd gyda rhywun y gallent ymddiried ynddo/ynddi fyddai yn gallu eu helpu i ystyried eu hanghenion yn fanwl ac yna'u hannog i wneud newidiadau.

Cynlluniwyd y prosiect heb gwricwlwm nac offer a chyda thargedau bras iawn. Roedd yr Ystol yn darparu gweithwyr a ddenwyd yn lleol i'r partneriaid lleol. Bydd y recriwtiaid yn treulio traean o'u hamser ar eu hyfforddiant a datblygiad eu hunain, traean yn gweithio yn eu cymuned ochr yn ochr â gweithwyr eraill a thraean yn canolbwyntio ar hunangyflogaeth fel dewis at y dyfodol.

Mae astudiaethau achos o rai o'r cyfranogwyr yn rhoi 'ciplun' o'r math o brofiadau sy'n gyffredin yn y cymunedau sy'n cael eu gwasanaethu gan Brosiect yr Ystol.

- Steve – rhoddodd gynnig ar y Fargen Newydd ond bu'n fethiant iddo, ni all hyd yn oed gael gwaith fel labrwr
- Karen – treuliodd dair blynedd fel gwirfoddolwr, ond darganfu nad oedd cyflogwyr yn cydnabod y math hwn o brofiad gwaith
- Alun – cafodd swyddi niferus ond ni pharodd yr un ohonynt yn hir
- Anne – rhiant unigol gyda phroblemau llythrennedd
- Darren – sydd â'i hanes yn amlinellu mynd yn gaeth i heroin ac ymdeimlad o golli rheolaeth.

Dengys yr adroddiad nad oedd un o'r bobl ifanc hyn yn 'anfodlon' trwy fod yn amharod i roi cynnig ar gyfleoedd newydd. Roeddent hwy, fel llawer o bobl eraill mewn cymunedau dan anfantais, mewn sawl ffordd yn ddioddefwyr eu hamgylchiadau a'u hansicrwydd eu hunain. Maent wedi eu dal mewn drws troi o anfantais.

Dros gyfnod o bum mlynedd, gweithiodd gweithwyr yr 'ystol' gyda chyfanswm o 1361 o'r bobl ifanc anoddaf eu cyrraedd. O'r rhain: aeth 363 (27%) i gyflogaeth neu hunangyflogaeth; cofrestrodd 672 (49%) mewn addysg bellach neu hyfforddiant. O fewn y grŵp, daliodd 716 o oedolion (53%) i gyfranogi mewn gweithgareddau gwirfoddol a chymunedol. Dilynodd y gweithwyr eu hunain hefyd weithgareddau datblygiad personol ac, erbyn diwedd y prosiect, roedd pob un yn weithwyr ieuenctid cymwysedig. Cafodd un BA mewn Addysg Anffurfiol; roedd pedwar ar gyrsiau diploma ac roedd un yn cwblhau tystysgrif mewn gwyddor cymdeithas.

Mae naws debyg, a rhai o ddulliau'r Prosiect Ystol, i'w gweld hefyd yn un o'r astudiaethau achos (gwelwch atodiad 3.7) ar Theatr Fforwm Cymru, sy'n cynnal 'prentisiaethau'. Mae llawer o'r prentisiaid hyn wedi mynd ymlaen i ddod yn ymarferwyr yng Nghymru.

### 5.6.2 **Menter Cwm Aman** (Reynolds 1995)

Ffurfiwyd Menter Cwm Aman yn 1987 gan grŵp bach o ferched, wedi eu tynnu ynghyd trwy gyfres o arddangosfeydd a drefnwyd gan y Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol. Rhyngddynt, roedd ganddynt sgiliau a gwybodaeth, heb dystysgrif yn bennaf, yr oeddent am eu rhannu a'u datblygu i'w mantais eu hun a'r gymuned. Gwelwyd gwybodaeth leol rhai o aelodau'r grŵp fel canolog i gael cefnogaeth leol a llafur gwirfoddol i ailwampio eiddo ac adeiladau a roddodd Glo Prydain iddynt. Dechreuodd cyrsiau, a gynhaliwyd mewn partneriaeth ag amrywiol ddarparwyr addysg, yn 1988. Cyn i'r ddarpariaeth fod ar gael yn AVE, roedd yr addysg a hyfforddiant agosaf ar gael mewn coleg AB 6 - 12 milltir i ffwrdd. Athroniaeth AVE yw gweithredu fel catalydd i gynorthwyo pobl i feddwl yn fentrus o safbwynt y gymuned, i ddarparu addysg a hyfforddiant i oedolion, cyfleoedd datblygiad personol ac i gynorthwyo gydag adfywio cymdeithasol, economaidd, ac amgylcheddol Cwm Aman a Chwm Tawe. Mae adroddiad blynyddol 1999-2000 yn dangos bod AVE erbyn hyn yn gweithredu o dri lleoliad, wedi bod yn gyfrwng cefnogi creu symudiad cenedlaethol, Datblygu Cymunedol Cymru, ac wedi ehangu i gynnwys arlwyo, cefnogi busnes, gofal plant, gofal chwarae yn y gwyliau, clwb ar ôl ysgol a chynllun rheoli coetir.

Mae athroniaeth Menter Cwm Aman yn pwysleisio lles cyfunol yn hytrach nag elw unigol. Yn ogystal ag ymgyrchu dros ailfuddsoddi yn yr economi lleol, y nod trosfwaol yw defnyddio ac adfywio sgiliau ac adnoddau segur i ailadeiladu hyder unigolion a chymunedau.

### 5.6.3 ***The Gloucestershire Neighbourhood Project*** (LEDIS 2002)

Cynllun hirsefydlog tebyg yw *The Gloucestershire Neighbourhood Projects*, a ddechreuwyd yn wreiddiol yn 1979. Mae diwylliant 'gallwn' yn anelu at ymateb i gymdogaethau dan anfantais ac wedi eu heithrio'n gymdeithasol trwy ddatblygu gwasanaethau mewn ymateb i anghenion lleol a chefnogi datblygu seilwaith cymunedol cynaliadwy. Erbyn hyn mae'r prosiect yn hawlio cwmpasu dros 75% o boblogaeth y sir sydd wedi eu heithrio'n gymdeithasol. Mae arweiniadau diweddar yn cynnwys:

- Rhwydwaith o Ganolfannau Byw'n Iach
- Hyrwyddo menter gymunedol.

Mae'r astudiaeth achos nesaf yn edrych ar drosglwyddo methodoleg ethnograffig yn deillio o waith yn Ne America a'i ddatblygu yn Affrica ac Iwerddon cyn ei gweithredu yng Nghymru.

**5.6.4 Hyfforddi i Drawsffurfio** (Jones 2002)

Datblygwyd Hyfforddi i Drawsffurfio trwy brofiad gweithwyr cymunedol yn gweithio gyda phobl sy'n anffodusion rhyfel a llywodraethau gormesol. Y dull yw gweithio gyda chymunedau i hwyluso eu perchenogaeth o newid a chreu damcaniaethau o gymdeithas trwy ddadansoddi beirniadol a gweithredu. Deuant yn berchenogion gwybodaeth. Yn y lle cyntaf caiff hyn ei wneud trwy gynnal arolwg gwrando o fewn y gymuned a chyflwyno yn ôl iddynt y materion sy'n eu pryderu fwyaf a lle mae cydsynio cryf yn eu cylch. Mae hyn yn creu egni i gynhyrchu a chymhelliad i newid. Trwy ddadansoddi'r materion yn feirniadol gan weithio o fewn cyd-destun y personol, y gymuned a'r byd ehangach, bydd pobl yn datblygu dealltwriaeth o'u sefyllfa eu hunain. Caiff cynllun gweithredu ei ddatblygu, ym meddiant y gymuned ac yn cael ei lunio ganddi. Ochr yn ochr â hyn bydd proses o ddatblygu grwpiau i gefnogi datblygu timau effeithiol yn cael ei chynnal. Yna gall y grwpiau hyn beri newid, trwy weithio gyda'r cynllun gweithredu.

Mae'r syniadau yn deillio o waith yr addysgwr Brasilaidd Paulo Freire, a ddadleuodd o blaid proses addysgol oedd yn gweithio *gyda* phobl yn hytrach nag arnynt neu ar eu rhan. Datblygwyd ac addaswyd gwaith Freire gan weithwyr yn Nwyrain Affrica, De America ac Iwerddon yn arwain at ddatblygu Hyfforddi i Drawsffurfio (Hope a Timmel 1984). Hyfforddwyd nifer bach o weithredwyr o Gymru yn Iwerddon ac ers hynny maent wedi defnyddio'r technegau gyda chymunedau yng Nghymru. Wrth gyflwyno enghreifftiau o gymunedau o'r fath, dywed Lynn Jones:

*"Roeddwn yn ddigon ffodus i weithio gyda gweithiwr cymunedol profiadol iawn ar stad dai'r awdurdod lleol yn y Fenni. Dysgodd i mi weithio gyda phobl, i'w*

*helpu ddod o hyd i'w lleisiau, i sôn am eu profiadau o fywyd wrth y bobl oedd yn rheoli eu bywydau – sef Meddygon, Gweithwyr Cymdeithasol, Ymwelwyr Iechyd, Bydwragedd a Phenaethiaid Ysgol. Roeddwn yn gweithio ochr yn ochr â hwy, gan eu cynnwys mewn cyfarfodyd, oedd yn trafod cynlluniau fyddai'n effeithio ar eu bywydau. Rhoddodd gyn gyfle iddynt fynegi eu profiadau'n uniongyrchol wrth lunwyr ac ymarferwyr polisïau oedd yn aml yn sôn am eu problemau ond erioed wedi gofyn iddynt am eu barn na beth oeddent eisiau ei wneud ynghylch datrys y problemau hynny."*

*"Un profiad llwyddiannus oedd y gwaith gyda mudiad adfywio cymunedol yng Nghwm Cynon. Yn gweithio ochr yn ochr â dau hyrwyddwr arall, cynorthwyais i hwyluso Diwrnod Gweledigaeth ar gyfer dau ar hugain o wirfoddolwyr a staff ar sail eu syniadau o beth oeddent am ei gael o'r diwrnod. Datblygwyd rhaglen gennym oedd o gymorth iddynt feddwl am eu hanes a'u llwyddiannau, archwilio eu cysylltiadau gyda'i gilydd, nodi ac archwilio effaith eu ffyrdd cadarnhaol a negyddol o weithio gyda'i gilydd, atgyfnerthu eu heffeithiolrwydd fel tîm, creu Datganiad Gweledigaeth at y dyfodol a datblygu cyfres o amcanion am bum mlynedd."*

Mae astudiaeth achos o'r ymchwil ddesg yn atodiad 3.7 yn sôn am y mudiad cymunedol gwirfoddol, Theatr Fforwm Cymru, ac yn cyflwyno enghraifft arall o grŵp yn gweithio yng Nghymru sy'n defnyddio egwyddorion ac arferion tebyg.

Mae'r astudiaethau canlynol yn Appalachia ac yn disgrifio astudiaethau achos o argyfyngau mewn cymunedau mwyngloddio a chymunedau eraill yn y De Eithaf. O safbwynt diwylliannol, wrth gwrs, mae gwahaniaethau enfawr rhwng y cymunedau hyn a'r rhai yng Nghymru. Fodd bynnag, mae cyffelybiaethau diddorol gyda Chymru o ran ad-drefnu economaidd, yn arbennig y symudiad o economi gweithgynhyrchu i un sy'n seiliedig yn bennaf ar wasanaeth, fu'n destun ymchwil academaidd, dadansoddi polisi a dadl wleidyddol helaeth o bobtu'r Iwerydd. O dderbyn y gall rhannau o Gymru fod yn 'gymunedau mewn argyfwng', mae'n werth archwilio rhai arweiniadau a wnaed yn y 1980au yn yr UDA a chânt eu dogfennu gan Gaventa, Smith a Willingham (1990).

### 5.6.5 America – Astudiaethau Achos yn Appalachia

Ym mis Medi 1986, ffurfiodd pobl Ivanhoe yr Ivanhoe Civic League gydag un diben: i atal gwerthu parc diwydiannol anghyfannedd llawn chwyn. Cymuned wledig fechan yw Ivanhoe oedd wedi bod yn ddibynnol ar fwyngloddio cyn hynny. O'r 1960au i'r 1980au, gyda graddol gau'r glofeydd a busnesau ymylol, gadawyd yr ardal yn economaidd ddiffaith. O fan cychwyn mewn swyddfa fechan mewn adeilad gadawedig, trefnodd grŵp bach weithdai i'r gymuned leol, gan ymestyn wedyn i ddarparu rhaglenni henoed, rhaglenni ieuenctid, ac ati. Fel y dywed un atebydd, 'o nod gwreiddiol o gael unrhyw ddatblygiad, erbyn hyn rydym yn creu ein datblygiad ein hunain'. (Waller et al *yn* Gaventa, et al 1990 tud. 19).

Yn y lle cyntaf ymgyrchodd y grŵp i gael diwydiannau newydd i'r cylch '*roeddem eisiau'r ffatri ryfeddol hon ac roedd raid bod mwg yn dod allan ohoni a byddai'n cyflogi'r bobl' … 'roeddwn yn dal i geisio dod o hyd i ffatri ond nid oedd un i'w chael'.* Roedd sylweddoli hyn yn beth cadarnhaol trwy fod y gymuned yn sylweddoli bod eu hamgyffred o wirionedd eu sefyllfa yn llawer mwy cywir nag amgyffred swyddogion y llywodraeth.

Roedd diffyg cyrhaeddiad addysgol yn rhwystr pan yn delio â'r byd swyddogol ond mae un atebydd yn dechrau deall gwerth dysgu anffurfiol …

*'Dros Ivanhoe rydw i'n gweithio' … 'Rwyf wedi cael trawiadau yn fy erbyn am fy mod yn ferch a heb fod ag addysg' …. 'does gen i ddim papurau bach i fynd efo fy addysg, ond mae gennyf addysg credwch fi. Mae gennyf addysg ryfeddol oherwydd fy mod i'n darllen ac yn ymchwilio ac yn gwneud yr holl bethau yma ond dydyn nhw ddim yn bethau y gallaf eu hysgrifennu ar ddarn o bapur a rhoi 'XYZ' tu ôl i fy enw'.* (Waller, et al yn Gaventa, et al 1990 tud. 27)

Mae'r astudiaeth achos nesaf, a grybwyllwyd yn *Attracting New Learners International Evidence and Practice* (LSDA 2001) yn cyflwyno canlyniadau cystadleuaeth a drefnwyd ar gyfer mentrau economaidd yn cael eu rhedeg gan ferched. Roedd y mentrau yn fodd i ferched gynhyrchu incwm o'u gwaith cynhyrchiol. Cawsant eu sefydlu gan y merched eu

hunain gan roi cyfleoedd iddynt hyrwyddo eu haddysg a datblygiad personol yn ogystal â meithrin datblygu fel grŵp.

### 5.6.6 Wrwgwái – dysgu a datblygu economaidd (LSDA 2001)

Nodwyd y mentrau a'u tynnu ynghyd o ganlyniad i gystadleuaeth. Maent ym meddiant a dan reolaeth y merched, yn aml yn defnyddio proses ddemocrataidd. Fel endidau cyfreithiol maent yn gallu gweithio gyda'r wladwriaeth ac asiantaethau datblygu. Mae'r cyfan yn darparu rhaglenni addysg sy'n galluogi i'w haelodau ddysgu'r sgiliau technegol a busnes cysylltiedig â'r fenter. Yn aml byddant yn cefnogi eu haelodau gydag addysg iechyd a datblygiad personol, benthyciadau bach, ac ati.

Gwelwyd bod mentrau llwyddiannus yn gwneud y canlynol:

- Galluogi eu gweithwyr i reoli'n llwyddiannus
- Bod â strwythurau cyfranogo l/ democrataidd
- Hwyluso newidiadau yn hunaniaeth y cyfranogwyr trwy adeiladu hunan-barch
- Cynhyrchu incwm
- Gweithredu fel enghreifftiau i hyrwyddo datblygu ehangach

Mae'r astudiaeth achos yn dangos pwysigrwydd cyd-destun cymdeithasol ac economaidd cydberthynol wrth symbylu'r dymuniad i ddysgu. Dangosodd y cyfranogwyr hefyd bwysigrwydd profiadau ac anghenion bywyd ar y cyd / cyffredin wrth greu dealltwriaeth ac awyrgylch cefnogol.

Mae'r astudiaeth achos o'r ymchwil ddesg ar Gymuned yn y Rhyl (atodiad 3.5) yn tynnu sylw at fodolaeth menter sy'n ceisio rhoi grym cymdeithasol ac economaidd i ferched yn yr un modd tra'n eu cefnogi yn eu haddysg trwy ystyried eu dyletswyddau cartref, er nad oes unrhyw berchenogaeth o'r ddarpariaeth (a ddechreuwyd a'i chynnal gan goleg AB) gan y merched gaiff eu gwasanaethu, fel y disgrifiwyd uchod.

Mae'r astudiaeth hon o gymuned yn British Columbia yn rhoi cipolwg o'r posibiliadau i gymunedau gwledig gymryd eu camau eu hunain mewn addysg.

### 5.6.7 Naddu Cymuned Ddysg yn ôl ei thelerau ei hun (Faris 2001)

Tiriogaeth o 30,000 cilomedr sgwâr o Gitxsan First Nation yw Upper Skeena yng nghornel ogledd-orllewinol British Columbia. Gydag arwynebedd yn debyg i Wlad Belg mae tua 6,500 o bobl yn byw mewn 14 o bentrefi. Mae dros 70% yn Gitxsan a'r gweddill yn deuluoedd o dras Ewropeaidd, llawer ohonynt wedi ymgartrefu yno dros 100 mlynedd yn ôl.

Yn hanesyddol bu'r ardal yn ddibynnol ar bysgodfeydd a choedwigaeth sydd erbyn hyn wedi disbyddu trwy arferion amgylcheddol gwael ac mewn perygl oherwydd marchnadoedd byd-eang ansicr a pherchenogaeth dramor o gyflogaeth heb ymrwymiad hirdymor i'r cylch. Mae diweithdra affwysol, enfawr (40-80%) gyda chyrhaeddiad addysgol islaw cyfartaledd y dalaith. Mae 70% o'r boblogaeth o dan 30 ac, felly, mae bwgan rhagor o amddifadiad yn amlygu ei hun.

Yn 1999, yn dilyn cyfres o astudiaethau a ddechreuwyd yn lleol, cyflwynodd grŵp o ddinasyddion lleol gynnig i Swyddfa Technolegau Dysgu Datblygu Adnoddau Dynol Canada i gymryd rhan yng nghyfnod datblygiadol arweiniad Rhwydwaith Dysgu yn y Gymuned (CLN). Roedd sail werthoedd y cymunedau'n amlwg o'r cynnig gan ddatgan:

*"Ieuenctid yw swyddogion penderfyniadau ein dyfodol", "Ymdrechwn am hunanddibyniaeth, hunangynhaliaeth, ymreolaeth ac annibyniaeth." A "Dysgu drwy brofiadau yw'r ffordd orau i ni gaffael gwybodaeth a sgiliau".*

Crybwyllwyd nifer o strategaethau:

- Cynnwys aelodau'r gymuned mewn cynllunio a datrys problemau lleol
- Cynllunio ar gyfer rheoli adnoddau'n gynaliadwy
- Prynu'n lleol, gan fynd ar drywydd cyfleoedd â gwerth ychwanegol
- Meithrin busnesau bach, trefnu cwmnïau cydweithredol, hybu clystyrau busnes
- Gwella seilwaith y gymuned (cludiant a chyfathrebu) ac addysg a sgiliau lleol

Pwysleisiwyd pwysigrwydd gwneud hyn trwy adeiladu partneriaethau sy'n cyfuno cyfleoedd ffurfiol ac anffurfiol i ddysgu, creu cyfleoedd dysgu

cymunedol, cysylltu dysgu â gweithredu a defnyddio technolegau dysgu. Rhaid oedd i gamau cynnar ddilyn y blaenoriaethau a osododd llywodraeth ffederal, gan ganolbwyntio felly ar ddwy garfan oedran, y cyn-enedigol i'r cyn-ysgol a'r ieuenctid yn ac allan o'r ysgol. Bu nifer o ganlyniadau dechreuol gan gynnwys sefydlu *Tech Café*, siop ddysgu a siop gymunedol.

Mae dysgu gydol oes wedi gwasanaethu'r gymuned hon fel egwyddor drefnu, lens ddadansoddol a nod cymdeithasol o ddechrau'r prosiect. Bu adeiladu ymddiriedaeth hanfodol a chyfalaf cymdeithasol arall yn y cymunedau. Mae'r prosiect yn parhau ac mae mwy i'w ddysgu trwy ddolenni i'r dudalen we.

Mae'r astudiaeth achos nesaf yn canolbwyntio ar ddenu trwy dreftadaeth a diwylliant. Mae'n defnyddio dull o'r brig i lawr sy'n canolbwyntio ar hyrwyddo arloesi a phartneriaethau newydd ymysg sefydliadau yr ochr gyflenwi.

**5.6.8 Sefydliadau Diwylliannol Almaenaidd fel Mynedfeydd i Ddysg** (LSDA 2001)

Yn yr Almaen mae sefydliadau diwylliannol fel llyfrgelloedd, orielau celfyddyd, amgueddfeydd ac archifdai yn gweithredu ar wahân i sefydliadau dysgu fel canolfannau addysg oedolion, colegau ac adrannau addysg barhaol y prifysgolion. O dderbyn disgwyliadau cyfannu polisïau cyhoeddus mae disgwyliadau newydd o gydweithio rhwng sefydliadau mewn gwahanol feysydd. Profwyd amrywiaeth o arweiniadau mewn sefydliadau diwylliannol yn Stuttgart i hybu diddordeb mewn dysgu. Hysbyswyd y rhain i'r Attracting New Learners International Evidence and Practice (LSDA 2001), gan gynnwys:

- Arolygon o ymwelwyr i weld os oedd ganddynt unrhyw anghenion addysg.
- Darlleniadau am arlunwyr mewn ieithoedd tramor fel ffordd o symbylu diddordeb mewn dysgu iaith.
- Gosod llinell o dâp coch ar lawr llyfrgell o'r llyfrau teithio i'r pecynnau dysgu iaith.
- Creu byrddau hysbysebion am gyfleoedd dysgu mewn sefydliadau diwylliannol.

Amrywiol fu llwyddiant y gweithgareddau hyn ond eu canlyniad fu creu rhwydwaith o asiantaethau yn gallu gwneud cyfeirebau i'w gilydd. Mae casgliadau o'r arweiniadau sy'n cynnig cipolwg o ddenu cymunedau yn cynnwys:

- Mae angen profiadau sy'n ysgogi diddordeb dysgwyr.
- Gall dysgu fod wedi ei lapio neu wedi ei guddio mewn gosodiadau ysgogol.
- Mae modd mewnosod cyfleoedd dysgu mewn cyd-destunau cymdeithasol a sefydliadol presennol.
- Mae angen bod yn fwy agored i'r cysylltiadau rhwng dysgu anffurfiol a ffurfiol.
- Mae angen cyflwynodd dysgu fel hwyl ac i'w ddewis yn hytrach na diflas ac angenrheidiol.

Wedi ei grybwyll yn seminar Attracting New Learners International Evidence and Practice (LSDA 2001), mae'r astudiaeth achos ganlynol yn cyflwyno casgliadau astudiaeth o addysg a hyfforddiant galwedigaethol.

### 5.6.9 Tasmania – Astudiaeth o Gydweithio gyda Chymunedau mewn Addysg a Hyfforddiant Galwedigaethol (LSDA 2001)

O astudiaeth o drefniadau addysg a hyfforddiant galwedigaethol (AHG) ar gyfer oedolion mewn 10 safle rhanbarthol yn Awstralia. Nodwyd nifer o ddibenion neu yrwyr cydweithio AHG, gan gynnwys:

- Ymateb cydweithredol cymuned i adfyd.
- Cydweithio ar sail cymdeithas ddiwylliannol – er enghraifft darparwyr yn ffurfio partneriaethau gyda chymdeithasau diwylliannol brodorol i gael mwy i fanteisio ar AHG.
- Cydweithio gyredig gan fenter.
- Rheoli adnoddau naturiol a chydweithio aml-sectoraidd cymunedol – yn aml wedi ei adeiladu o gwmpas materion amgylcheddol ac yn cynnwys y sector gwirfoddol ac ysgolion.
- Cydweithio gyredig gan ddarparwyr – e.e. i alluogi ysgolion i gyflwyno AHG mewn cylchoedd anghysbell.
- Datblygu sgiliau ar gyfer diwydiant – cydweithio mewn meysydd o brinder sgiliau mewn diwydiant arbennig.

Ymddangosodd nifer o elfennau fel rhai'n gwella effeithiolrwydd trefniadau cydweithredol, fel:

- Cydweledigaeth ac ymddiriedaeth rhwng y partneriaid.
- Arweinwyr / cydgysylltwyr i hwyluso gweithio cysylltiadau parhaol.
- Rhwydweithiau yn ymestyn oddi allan i'r gymuned dan sylw sy'n rhoi mynediad i gyngor, adnoddau a darparwyr arbenigol.

Golygodd bychander rhai cymunedau nad oedd digon o grwpiau ac unigolion gydag amser a sgiliau i gynllunio a chyd-drafod i ddiwallu anghenion. Yn ogystal roedd tyndra rhwng cystadleuaeth a chydweithio oedd i'w weld yn gostwng effeithiolrwydd. Mater arall y cyfeiriwyd ato oedd diffyg parhad rhaglenni, lle'r oedd personél lleol yn aml yn gwastraffu adnoddau wrth gadw ar y blaen i newidiadau neu hybu brwdfrydedd oedd yn cilio.

Drwyddi draw daethpwyd i'r casgliad bod cydweithio effeithiol yn dod â'r canlyniadau mwyaf o adnoddau dynol prin mewn cymunedau rhanbarthol trwy nodi, lleisio a chyd-drafod i ddiwallu anghenion. Felly byddai modd cael y mwyaf allan o rychwant y cyfleoedd mewn cymunedau bach. Daethant i'r penderfyniad mai'r cydweithio mwyaf effeithiol oedd cynlluniau'n cynnwys sgiliau byw fel sgiliau cymdeithasol, llythrennedd a rhifedd, a datblygiad personol yn ogystal â sgiliau ar gyfer gwaith.

Mae pob un o'r enghreifftiau hyn yn dangos pwysigrwydd y cyd-destun cymdeithasol ac economaidd wrth symbylu'r dymuniad i ddysgu. Yn ogystal daw'n amlwg bod gweithio gyda phobl sydd â phrofiadau bywyd neu anghenion tebyg, pa un ai oddi mewn neu ar draws, yn gallu creu awyrgylch cefnogol i ddysgu ynddo.

## 5.7 RHWYSTRAU I DDENU I DDYSGU A STRATEGAETHAU I'W GORESGYN

Edrychodd astudiaeth sefydliad Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd, 'Goresgyn Allgáu trwy Addysg Oedolion' (OECD 1999), ar oresgyn rhai o'r elfennau sy'n perthyn i allgáu cymdeithasol mewn chwe gwlad. Cadarnhawyd ganddynt y gall dulliau anffurfiol fod yn llawer mwy effeithiol o ran hyrwyddo dysgu ymysg rhannau o'r boblogaeth, yn arbennig y rhai yn y cylchoedd mwyaf difreintiedig yn economaidd a chymdeithasol, na darpariaeth brif ffrwd mewn sefydliadau addysg, gyda'u heffaith yn aml yn fwy eang.

Mae Taylor a Cameron (LSDA 2002) yn ystyried rhwystrau i gyfranogiad a dysgu yn 'Denu Dysgwyr Newydd: Tystiolaeth ac Ymarfer Rhyngwladol'. Maent yn nodi'r rhai sydd leiaf tebygol o gyfranogi mewn addysg a hyfforddiant arian cyhoeddus fel y rhai heb fawr ddim cymwysterau lle methodd eu haddysg ddechreuol roi sgiliau llythrennedd a rhifedd digonol iddynt. Maent hefyd yn debygol o ddioddef tlodi gwirioneddol neu gymharol, o ddod o deuluoedd dosbarth gweithiol ac o rai grwpiau ethnig lleiafrifol. Ymysg y grwpiau cymdeithasol hyn mae dynion, yn arbennig dynion hŷn, di-waith neu lafuriol, yn debygol o fod heb gynrychiolaeth ddigonol ymysg dysgwyr. Yn y cyfamser, gan gyfeirio at Phillips (1993), McGivney (2000) a Meadows (2001), dywed Taylor a Cameron fod bechgyn sy'n anfodlon ac yn tangyflawni yn debygol o gyflymu tueddiadau o'r fath rhwng y rhywiau.

Ar yr ochr gyflenwi, mae arferion a safonau'r gyfundrefn addysg yn gweithio yn erbyn newid; mae tuedd i fod yn fwy cysurus wrth drafod materion cyflenwad yn hytrach na manylion y galw. Fodd bynnag mae'n amlwg, oni bai i ddarpar gyfranogwyr dylanwadu ar arweiniadau, eu bod yn annhebygol o gael effaith hirdymor na newid diwylliannol. Mae'r iaith sy'n cael ei defnyddio pan yn trafod darpariaeth, ar waethaf dod yn fwy cadarnhaol pan yn sôn am arweiniadau i gael mwy i gyfranogi, yn dal i awgrymu ymestyn gweithgaredd presennol i ragor o bobl – y patrwm cenhadol.

Mae adroddiad FEDA 2000 ar ran Fforwm, 'Ehangu Cyfranogiad a Chyfle Cyfartal mewn Addysg Bellach yng Nghymru: Astudiaeth o Golegau De Cymru Ddiwydiannol', yn dangos materion cysylltiedig ag ehangu cyfranogiad a chyfle cyfartal a brofwyd gan Golegau AB (FEC) gyda'r bwriad o wella arferion a'r effaith ar y cymunedau / sail gleientiaid dan sylw. Mae'r adroddiad hwn yn ystyried swyddogaeth ystrydebau fel

rhwystrau i ddysgu, gan sôn bod llawer o golegau yn cydnabod fod ystrydebau y rhywiau, er enghraifft, yn broblem. Er y teimlwyd yn gyffredinol ei bod yn anoddach denu dynion na merched i'r coleg, roedd merched yn wynebu problemau dysgu eraill, fel "diffyg cefnogaeth deuluol a/neu gymdeithasol neu hyd yn oed … wrthwynebiad oherwydd agweddau negyddol helaeth". Aeth nifer o golegau ymhellach gan awgrymu fod "diwylliant dan ddylanwad gwrywod yn cwtogi ar hyder ac uchelgais merched" a bod "rhai llecynnau cryf" o ragfarnau a gwerthoedd nad ydynt yn cefnogi cyfle cyfartal "sydd heb fod â chydnabyddiaeth eang o'u heffaith". Dywedodd un coleg ei bod yn anodd cael gafael ar a denu lleiafrifoedd ethnig yn gyffredinol, a merched Bangladeshi ac Indiaidd yn arbennig, er y gallai adeiladu partneriaethau gyda grwpiau perthnasol gynorthwyo i oresgyn y problemau hyn.

Dangosodd adroddiad FEDA faterion mynediad hefyd fel rhwystrau posibl i gyfranogiad. Efallai nad yw safleoedd colegau o fewn cyrraedd rhwydd pob aelod o'r gymuned. Tynnodd sylw hefyd at y ffaith, er bod prif gampws yn hawdd ei gyrraedd ar y bws a thrên, bod cysylltiadau cludiant llawer o gymunedau'r Cymoedd yn wael. Rhwystrau eraill i fynediad a nodwyd, yn effeithio ar grwpiau a dargedwyd i ehangu eu cyfranogiad, oedd anawsterau fel

- Newid patrymau sifftiau,
- Oriau gwaith hwy yn ei gwneud yn anodd i fod yn bresennol yn rheolaidd,
- Ychydig o gyfleoedd rhyddhau am y dydd a chyndynrwydd rhai cyflogwyr i ryddhau eu staff ar gyfer hyfforddiant.

Mae argymhellion i'r CAHC a CCET yn deillio o'r ymchwil hon ar ehangu cyfranogiad yn cynnwys y cyngor y dylai pob CCET gynnal adolygiad o ehangu cyfranogiad yn ei gymuned, yn cynnwys yr holl asiantaethau perthnasol. Dylai elfennau hanfodol yr adolygiad hwn gynnwys materion llosg a rhwystrau a nodwyd gan wahanol asiantaethau yn y gymuned. Argymhellwyd hefyd bod angen i CCET ystyried eu swyddogaeth wrth hyrwyddo addysg a hyfforddiant yn eu cymunedau mewn ffyrdd sy'n sicrhau cyfle cyfartal ac ehangu cyfranogiad. Felly, argymhellwyd prosiectau ymchwil ar ehangu cyfranogiad, yn cwmpasu gwahanol agweddau ar ddarpariaeth neu gysylltu â grwpiau cymunedol, fel yr oedd astudiaethau hydredol o ddysgwyr aeddfed a grwpiau penodol i nodi eu dilyniant a chyrchfannau o ganlyniad i ehangu cyfleoedd cyfranogi sy'n cael eu

darparu gan golegau. Argymhellwyd bod y cyswllt rhwng seilwaith cludiant / datblygiad (gan gynnwys arweiniadau ar gonsesiynau a chymorthdaliadau cludiant cyhoeddus) yn cael eu hymchwilio, yn ogystal â mynediad i addysg a hyfforddiant, gan gynnwys mapio lleoliad gwaith allanol colegau.

Dengys astudiaeth ddiweddarach a wnaed gan NIACE Dysgu Cymru (Aldridge a Horrocks 2002) y gall lleoliad effeithio ar ba mor debygol yw i oedolion fod yn dysgu yng Nghymru. Maent yn nodi bod dros hanner holl oedolion yn y De-orllewin heb gyfranogi mewn dysgu ers gadael addysg lawn-amser. Fodd bynnag, yn y Gogledd a'r De-ddwyrain, mae oedolion yn llawer mwy tebygol o fod yn ddysgwyr presennol neu ddiweddar.

Mae archwiliad helaeth o lenyddiaeth bresennol am Ddysgu Oedolion ac yn y Gymuned (Callaghan, G et al 2001) yn dangos mai'r prif rwystrau i gyfranogi mewn dysgu yw

- Pwysau ar amser yn y gwaith a'r cartref
- Lleoliad
- Cyllid
- Cyfrifoldebau cartref a gofalu
- Diffyg gwybodaeth
- Absenoldeb cyfle
- Cred nad oes gan ddysgu fawr i'w gynnig
- Atgofion anhapus o'r ysgol.

Yn ategu'r canlyniadau hyn mae astudiaeth fwy lleol a wnaed yng Nghymru gan yr Uned Coleg Ymatebol yn 1998. Gwnaed hyn ar ran consortiwm o ddarparwyr wedi eu tynnu ynghyd i chwilio am atebion dysgu i ddiswyddiadau diweddar yng Nghwm Tawe uchaf a'r cylch (Uned Coleg Ymatebol 1998) a ddangosodd mai'r elfennau oedd yn troi pobl oddi wrth ddysgu oedd, yn nhrefn pwysigrwydd:

- Diffyg amser
- Methu ei fforddio
- Dim cwrs ar gael
- Oed / cyflwr iechyd

- Ddim yn gwybod beth sydd ar gael
- Wnaiff y cyflogwr ddim talu
- Rhy hir ers dilyn cwrs o'r blaen
- Dim diddordeb
- Cost / argaeledd gofal plant
- Digon o sgiliau / cymwysterau

Daethant i'r casgliad ei bod yn amlwg fod angen argyhoeddi pobl leol fod modd astudio'n hyblyg i gyd-fynd ag ymrwymiadau eraill a bod angen i ddarparwyr sicrhau hyblygrwydd ac ymatebolrwydd trwy ddatblygu canolfannau hygyrch lleol a defnyddio technoleg gwybodaeth.

Mae adroddiad diweddar (2001) Cymdeithas Cyrff Gwirfoddol Powys yn dangos y canlynol rhwystrau i gyfranogiad y gymuned:

- Diffyg hunanhyder
- Disgwyliadau isel
- Llythrennedd gwael
- Colli hunaniaeth
- Ymwybyddiaeth wleidyddol a dinesig wael

Mae'r canlyniadau hyn yn tynnu sylw at ddau fater gwahanol

- Rhwystrau diwylliannol / cymhelliad, h.y. agwedd at ddysgu all fod â gwreiddiau dwfn mewn profiad personol a sefyllfa bresennol
- Rhwystrau ymarferol, h.y. rhwystrau sy'n haws rhoi sylw iddynt gyda dychymyg a chyllid.

Dywedodd grwpiau canolbwyntio o adroddiad diweddar CCET Abertawe (ELWa 2002b): "…Y rhwystr mwyaf enbyd i'w oresgyn yw agweddau negyddol diysgog yn y rhan fwyaf o grwpiau a eithriwyd yn gymdeithasol".

Trafodwyd llawer o'r materion a nodwyd fel rhwystrau uchod yn Adroddiad Rees (2001), a argymhellodd sefydlu grantiau dysgwyr, wedi eu targedu i annog y rhai gyda'r

adnoddau lleiaf i ddychwelyd i ddysgu. Arweiniodd hyn at sefydliad Grantiau Dysgu'r Cynulliad eleni.

### 5.8 CYDNABOD A DILYSU DYSGU ANFFURFIOL A HEB EI ACHREDU

O fewn y sector ôl-16 a ad-drefnwyd yn ddiweddar mae llond gwlad o ddarpariaeth addysg ar gyfer oedolion a phobl ifanc, rhai'n arwain at gymwysterau a rhai nad ydynt. Tra'n cydnabod gwerthoedd dysgu heb achrediad ac yn arbennig y cyfraniad pwysig y gall wneud i ehangu cyfranogiad, mae'r Llywodraeth wedi rhoi ar ddeall ei fwriad i godi safonau mewn addysg a bydd dosbarthiad cyllid yn gysylltiedig â blaenoriaethau strategol fydd yn gofyn am fesurau meintiol ar gyfer holl ddysgu.

Mae Sefydliad Cenedlaethol Addysg Oedolion a Pharhaus (NIACE) a LSDA yn cefnogi'r 'Prosiect Ymchwil i Ganlyniadau Dysgu' (Greenwood, M et al 2001). Ei nodau yw ymchwilio i ddulliau dilysu cyflawniad mewn dysgu heb achrediad a darparu tystiolaeth ar fuddiannau cymdeithasol ac economaidd dysgu er mwyn dylanwadu ar ffurfio polisi a chynllunio strategol cenedlaethol a lleol.

Yn y cyflwyniad i astudiaethau achos Greenwood o saith prosiect o gwmpas y DU, (dau ohonynt yn cael eu hystyried yma) mae'r ymchwilwyr yn pwysleisio'r angen i reolwyr sicrhau bod yr adnoddau sydd eu hangen i ddarparu tystiolaeth o ddysgu yn ddigonol ac i sylweddoli na ddylid bychanu faint o amser a chefnogaeth sydd eu hangen i ddatblygu cyfundrefnau newydd. Mae hyn yn arbennig o berthnasol mewn sefydliadau sy'n ddibynnol ar staff rhan-amser nad ydynt efallai yn gymwysedig fel athrawon.

#### 5.8.1 Partneriaeth Coleg Kingston a Chelsea

Mae Partneriaeth Coleg Kensington a Chelsea wedi dyfeisio prosiect Cerdyn Post Dysgu sydd yn ymgais i nodi canlyniadau dysgu o 3 dosbarth 30 awr o addysg oedolion heb ei hachredu mewn ffordd sydd yn ystyrlon i fyfyrwyr a darlithwyr ac yn ddigon cadarn i fodloni arolygwyr a chyrff cyllido. Agwedd leiafswm yw hon, sydd heb fod angen dogfennau cymhleth. Mae'n caniatáu i fyfyrwyr o bob gallu bennu nodau dysgu personol a gofyn bod y darlithydd yn dilysu datganiadau myfyrwyr gan annog deialog rhyngddynt ynghylch y dysgu.

O safbwynt dysgwyr amharod a'r gallu i ddefnyddio'r gyfundrefn mewn lleoliadau anffurfiol, prif gryfderau'r patrwm fyddai:

- Nid yw'r drefn yn ymwthio gormod ar y broses ddysgu.
- O'u cyflwyno mewn dull cefnogol a chadarnhaol, gall pennu targedau ac adolygu dysgu fod yn ysgogol.
- Mae modd gweld, gwerthfawrogi a dathlu tystiolaeth o fuddiannau cymdeithasol ac economaidd dysgu i unigolion a grwpiau.

Roedd yr anawsterau a brofwyd o safbwynt y darparwyr yn cynnwys:

- Cyfleu'r rhesymau cadarnhaol dros fesur dysgu.
- Roedd rhai darlithwyr yn tueddu i ddweud wrth y dysgwyr beth a ddysgwyd ganddynt yn hytrach na chael trafodaeth gyda hwy, fyddai'n eu cynorthwyo i weld eu cynnydd eu hunain.

Ar ei orau mae'r patrwm yn caniatáu i ddarlithwyr weithio gyda myfyrwyr a'u cynorthwyo i ganfod a mynegi eu hanghenion dysgu a chofnodi cynnydd. Fodd bynnag, nid oedd rhai darlithwyr eto yn datblygu unrhyw ymgom ystyrlon gyda myfyrwyr a, thrwy hynny, weld angen i ddatblygu staff.

### 5.8.2 Y Rhaglen Camu Allan, Coleg Park Lane, Leeds

Lluniwyd y Rhaglen Camu Allan ar gyfer oedolion gydag anghenion iechyd y meddwl. Mae'r cwricwlwm yn cynnwys pynciau sgiliau sylfaenol, TG, gofalu am anifeiliaid, ysgrifennu creadigol, crochenwaith, coginio, celfyddyd, aromatherapi, gwaith coed a cherflunio. Datblygwyd patrymau ar gyfer canlyniadau dysgu unigol a grŵp. Caiff y Cytundeb Dysgu Grŵp ei drafod yma, gan gyfeirio at ddatblygu cymunedau dysgu a phrosiectau cydweithredol.

Mae modd dyfeisio ac arolygu canlyniadau dysgu grŵp trwy ddefnyddio Cytundeb Dysgu Grŵp. Gall dysgwyr gytuno ar ganlyniadau penodol y byddent am eu cyflawni ar wahanol adegau yn ystod neu erbyn diwedd cwrs. Mae canlyniadau cadarnhaol yn cynnwys grŵp o ddysgwyr yn cydweithio i gynhyrchu

calendr lliw o safon. Deilliant o hyn yw cydweithio gyda grŵp ysgrifenwyr i gynnwys darnau o ryddiaith i fynd gyda'r darluniau ar y calendr nesaf.

Prif gryfderau'r dull cytundeb dysgu grŵp yw:

- Rhoi cyfle i'r unigolyn ddod yn gysurus a theimlo'n gartrefol yn yr ystafell ddosbarth a sefyllfa grŵp.
- Cynorthwyo'r unigolyn i (ail)ddarganfod sut maent yn dysgu orau.
- Mae gan y rhaglen enw da gyda'r asiantaethau gwasanaeth iechyd y meddwl lleol.

Dynodwyd y gwendid mawr fel:

- Tyndra rhwng profiad rhoi grym i fyfyrwyr fod â rheolaeth dros eu rhaglen astudio eu hunain a'u cael i gyfranogi mewn gwaith papur hanfodol.

Archwiliodd adroddiad diweddar CCET Abertawe (Cyngor Gwasanaeth Gwirfoddol Abertawe 2002) y materion o gwmpas prisio dysgu anffurfiol. Ymysg argymhellion allweddol y gwaith hwn oedd:

- Yr angen i werthfawrogi dysgu anffurfiol yn ei rinwedd ei hun ac nid yn unig fel peirianwaith dilyniant
- Rhan allweddol gweithwyr datblygu dysgu yn y gymuned wrth hyrwyddo dysgu anffurfiol, a'r angen i dalu am y swyddogaeth hon er mwyn cael gafael ar grwpiau anodd eu cyrraedd
- Y dylai achredu fod ar gael os oes ei angen ond ni ddylai unrhyw ddysgwr fod dan orfod i gael achrediad ac y dylai unrhyw asesu fod yn briodol a derbyniol i ddysgwyr yn ogystal â darparwyr a chyllidwyr
- Yr angen i adeiladu cysylltiadau gyda'r fframwaith credyd a chymwysterau eginol i edrych ar gydnabod dysgu anffurfiol.

Soniodd diweddariad llafar diweddar ar y gwaith hwn fod trafodaethau cyfredol gyda gwybodaeth arbenigol ar gredyd ar gael o fewn Dysg tuag at nodi unedau asesu cyffredinol allai wasanaethu aml ddibenion gallu cysylltu dysgu anffurfiol â chanlyniadau

a chael sicrwydd ansawdd yn rhwyddach drwy hynny; gan alluogi cysylltu gwerth credyd â dysgu anffurfiol ar gyfer cyllid ar raglen a/neu i ganiatáu cael achrediad pe bai dysgwyr yn penderfynu cael eu hasesu'n briodol. Mae'r CCET yn gobeithio cael cyllid prosiect ychwanegol i ragbrofi datblygiadau dysgu anffurfiol.

## 5.9 CAFFAEL SGILIAU SYLFAENOL AC ALLWEDDOL O FEWN AMGYLCHEDDAU DYSGU YN Y GYMUNED

Gall fod yn anodd annog pobl sy'n brin o sgiliau sylfaenol i gydnabod eu hangen ac fe lansiwyd amrywiaeth o arweiniadau ers i Adroddiad Moser ganolbwyntio sylw ar y mater yn 1999. Er i'r llywodraeth sefydlu strategaeth Sgiliau Sylfaenol yn 2000 clywyd (Hillage ac Aston 2001 tud. 37) ei bod yn rhy gynnar i ddisgwyl unrhyw werthuso ystyrlon o'r canlyniadau.

Yn ôl arolwg diweddar (Kirk a Kirk 2002) yn archwilio faint sy'n manteisio ar y cyrsiau newydd eu cyllido tair i chwe awr 'maint brathiad' yn cael eu darparu yn y sector AB, mae'n ymddangos fod gan tua 10% o'r bobl sy'n cofrestru anghenion sgiliau sylfaenol.

Darganfu'r ymchwil a wnaed yn 2001/2002 fod cyrsiau byr, yn enwedig cyrsiau TGCh, yn denu llawer o bobl na fyddai wedi cofrestru ar gwrs hwy a bod gan gyrsiau o'r fath ran werthfawr i'w chwarae wrth gyflwyno dysgu i bobl. Mae proffil oedran dysgwyr yn dangos cyfran lawer uwch o ddysgwyr hŷn na sy'n arferol ar gyrsiau eraill. Mae cryn dystiolaeth bod y cyrsiau hyn yn denu dysgwyr newydd er bod diffyg diffiniad cyson o 'newydd-deb' yn ei gwneud yn anodd i fod yn fanwl gywir. Mae'r astudiaeth achos ganlynol yn rhoi enghraifft o atyniad cyrsiau TG priodol mewn amgylcheddau cymunedol:

### 5.9.1 Partneriaeth Prifysgol Gymunedol y Cymoedd.

Mynychodd dros 2000 o fyfyrwyr gyrsiau Technoleg Gwybodaeth gyda chefnogaeth ESF. Trefnwyd y cyrsiau, a ddechreuodd yn 1989, gan Brifysgol Cymru, Abertawe (PCA).

Wedi ei lunio'n wreiddiol fel cwrs i ferched yn ceisio dychwelyd i waith ar ôl cyfrifoldebau gofal plant llawn-amser, trefnwyd y cwrs i fod yn ddeniadol i rieni, gydag darpariaeth oriau ysgol a chymorth gyda gofal plant. O'r 2,024 o

fyfyrwyr, roedd 80% yn fenywod, 20% yn wrywod, a roedd angen i holl fyfyrwyr fod yn ddi-waith am o leiaf chwe mis cyn dechrau'r cwrs. Wedi ei fewnosod yn yr hyfforddiant Technoleg Gwybodaeth oedd codi hyder, arweiniad addysgol a galwedigaethol, paratoi braslun gyrfa a sgiliau ymgeisio am swydd.

Cyflwynwyd y cyrsiau yn wyth o ganolfannau cymunedol y bartneriaeth ac ar gampws Prifysgol Cymru, Abertawe. Roedd y canolfannau mewn cymunedau arunig neu mewn ardaloedd oedd wedi dioddef amddifadedd oherwydd colli'r diwydiant glo. Nodwyd darparu cyrsiau mewn canolfannau cymunedol lleol fel un o ffactorau denu. Gyda chymorth Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop darparwyd adnoddau TG rhagorol gan gynnwys rhwydweithio i gampws PCA, oedd yn sicrhau cydraddoldeb adnoddau a datblygu cwricwlwm ac achredu ar y cyd.

Mae darparu cyrsiau mewn canolfannau cymunedol lleol yn cyfrannu at ddatblygu cysylltiad grŵp grymus yn y gymuned honno. Roedd myfyrwyr yn gwerthfawrogi agweddau cymdeithasol y cwrs a'r amgylchedd cymunedol, oedd yn cynnwys "cyfeillion newydd rownd y gornel" a "chwmnïaeth ryfeddol". Dywedodd llawer o fyfyrwyr eu bod yn defnyddio eu sgiliau newydd i helpu eu cymuned trwy gynorthwyo grwpiau gwirfoddol gyda'u hanghenion gweinyddol.

Ar ôl y cwrs:

- Aeth 66% o'r merched a 57% o'r dynion i astudiaeth bellach.
- Aeth 41% o'r merched a 36% o'r dynion i astudiaeth bellach mewn TG.
- Aeth 23% o'r merched a 19% o'r dynion i addysg bellach mewn pynciau heblaw TG
- Aeth 7% o'r merched a'r dynion i Addysg Uwch mewn TG
- Aeth 15% o'r merched a'r dynion i Addysg Uwch mewn pynciau heblaw TG.
- Aeth 17% o'r merched a 12% o'r dynion i hyfforddiant ar gyfer / yn y gwaith.

(James 2002)

Mae'n rhesymol tybio fod llai o warth mewn cyfaddef bod angen cefnogaeth gyda TGCh na chyfaddef bod angen llythrennedd a rhifedd sylfaenol. Felly mae'n ddefnyddiol i ystyried gwerth cyrsiau TGCh o ran ymosod ar faterion sgiliau sylfaenol. Mae ymchwil

bellach LSDA ar 'Gydnabod a dilysu cyrhaeddiad dysgwyr mewn sgiliau sylfaenol ac ESOL heb ei achredu' yn tynnu sylw at amryw faterion sy'n uniongyrchol berthnasol i gyrsiau TGCh byr, gan cynnwys:

- Pwysigrwydd rhannu dysgu yn 'dalpiau maint brathiad' i ddod â llwyddiant buan a hybu dilyniant
- Mae llythrennedd oedolion yn cael mwy a mwy o sylw yng nghyd-destun dysgu arall
- Bydd cyrsiau a luniwyd i ddenu dysgwyr newydd yn aml yn cysylltu dysgu sgiliau sylfaenol gyda dysgu sgil arall.

O safbwynt cymell dysgwyr, cynllunio a chyflwyno cyrsiau, gellir tybio bod cyrsiau TGCh byr yn gyd-destun priodol i archwilio nifer o faterion sgiliau allweddol ynddo. Mae'r goblygiadau i sefydliadau yn rhannu i nifer o ddosbarthau bras

- Datblygu ymwybyddiaeth o sgiliau sylfaenol i amrywiaeth eang o staff
- Sicrhau bod deunyddiau dysgu a dulliau addysgu wedi eu llunio i ystyried anghenion sgiliau sylfaenol dysgwyr
- Darparu cefnogaeth briodol i ddysgwyr yn ystod y cwrs ei hun
- Darparu gwybodaeth glir a hawdd ei deall am lwybrau dilyniant.

Mae materion cefnogaeth briodol i ddysgwyr gydag anghenion sgiliau sylfaenol sy'n dewis dysgu 'ar-lein' yn faes arbennig o bryder. Cyswlltdysgu a'r Brifysgol i Ddiwydiant yw arweiniadau'r llywodraeth a lansiwyd yn 1998 i hybu dysgu mewn mannau hwylus gan ddefnyddio'r rhyngrwyd. Mae'r grwpiau targed yn cynnwys y rhai sydd wedi bod allan o'r gweithlu am beth amser, y rhai sydd am uwchraddio sgiliau a'r rhai sy'n wynebu diswyddiad.

Mae ymchwil gyfredol o Brifysgol Caerdydd a grybwyllwyd yn y *Times Educational Supplement* (TES 21/7/02) yn hawlio bod y chwyldro technolegol yn methu cyrraedd dysgwyr newydd, ar waethaf gobeithion y byddai'n ehangu cyfranogiad. Mae'n ymddangos bod yr arweiniadau miliynau o bunnoedd fel Cyswlltdysgu, UFI a'r DU-ar-lein wedi methu cael yr effaith ofynnol. Edrychodd yr ymchwilwyr ar ddata 6000 deiliaid tŷ o

arolwg blynyddol o ddysgwyr aeddfed, a gynhaliwyd yn 2002 gan Y Sefydliad Cenedlaethol dros Addysg Barhaus Oedolion (NIACE).

Dadl gyffredin ar swyddogaeth technoleg mewn dysgu yw y byddai rhith golegau yn annog cyfranogi, ond dim ond 2% o grŵp yr arolwg soniodd am ddefnyddio'r rhyngrwyd i gael gwybod am ddysgu a dim ond 1% ddefnyddiodd Ufl neu Cyswlltdysgu. Gwelwyd TGCh fel dull o oresgyn rhwystrau amser, lle a chost o ran grwpiau 'anodd eu cyrraedd'. Fodd bynnag, dywed ymchwilwyr Prifysgol Caerdydd nad oes ond cefnogaeth gyfyngedig i TGCh fel yr ateb. Dim ond 1% o atebwyr soniodd am deithio a chludiant fel rhwystr i gyfranogiad, nid oedd gan 25% ddiddordeb mewn dysgu mwy beth bynnag, ystyriai 13% eu hunain yn rhy hen, nid oedd 9% yn ystyried fod arnynt angen dysgu a dywedodd 6% nad oeddent wedi gwneud dim am y peth. Dyma gyfanswm o 53% o rai heb gyfranogi na fyddai TGCh, o dderbyn eu gair, yn effeithio ar eu mynediad i gyfleoedd dysgu.

Casgliad yr astudiaeth hon, felly, yw mai'r rhai arferol sy'n cael eu denu i fynediad technolegol i addysg, sef pobl iau, cyflogedig, proffesiynol, cymwys sydd eisoes yn ddysgwyr, gyda chyfrifiaduron ar gael adref, er bod rhywfaint o dystiolaeth bod merched o grwpiau economaidd-gymdeithasol is yn defnyddio cyfrifiaduron i 'brofi'r dŵr', a chaiff hyn ei ategu gan astudiaeth achos Partneriaeth Prifysgol Gymunedol y Cymoedd.

Byddai gweithgaredd cymunedol yn ymddangos fel y lle rhesymegol i unigolion ddysgu a defnyddio sgiliau allweddol ehangach. Daw'r astudiaeth achos ganlynol o un o brosiectau datblygu Rhaglen Gefnogi Sgiliau Allweddol Cymru, ac mae'n canolbwyntio ar ddefnyddio adnoddau treftadaeth, partneriaeth rhwng asiantaethau a darpariaeth sydd yn cynnwys y gymuned mew hyrwyddo pobl ifanc i gaffael sgiliau allweddol.

#### 5.9.2 **Ar Dir Cyffredin** (Morgan a Reynolds 2002)

Fel arfer nid yw amgueddfeydd a safleoedd treftadaeth yn atyniadau mawr i'r genhedlaeth o bobl ifanc sy'n dechnolegol graff ac yn deall y cyfryngau. Felly cafodd staff addysg yn Amgueddfa Genedlaethol ac Orielau Cymru, casgliad o wahanol safleoedd treftadaeth ar draws y wlad, syniad ar gyfer prosiect fyddai'n ehangu mynediad i'w ymchwil a chasgliadau a rhoi profiad o dreftadaeth Cymru i bobl.

Mae'r Amgueddfa Genedlaethol ac Orielau wedi sefydlu prosiect, yn dwyn yr enw 'Ar Dir Cyffredin', fydd yn mynd ag addysg dreftadaeth seiliedig ar yr amgueddfa i bedair cymuned ar hyd a lled Cymru – Dinbych, Dinbych-y-pysgod, Abertawe ac Aberdâr. Mae'r prosiect yn cael ei gynnal trwy Gronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol.

Bydd pobl ifanc 16 -24 oed o golegau addysg bellach a chanolfannau ieuenctid yn datblygu prosiectau ymhob ardal. Yn Ninbych-y-pysgod mae grŵp yn trefnu arolwg i weld pam nad yw pobl ifanc ddim yn ymweld ag amgueddfeydd. Mae grŵp arall yn Ninbych yng nghyfnodau cynnar taflen ar gyfer trywydd treftadaeth tafarnau. Mae trydydd grŵp yn edrych ar ffyrdd o gefnogi cyfranogiad y gymuned yn niwylliant Cymru – trwy gyfrwng yr iaith Gymraeg. Y nod yn y pen draw yw datblygu archifau cymunedol a lledaenu eu gwaith drwy arddangosfeydd teithiol.

Yr hyn sy'n gwneud y prosiect yn anghyffredin yw ei fwriad i ddefnyddio technegau 'gwerthuso cyfranogol' a 'mapio cymunedol' – agwedd strwythuredig at gasglu gwybodaeth sy'n cael ei defnyddio'n eang gan gyrff ac ymchwilwyr yn gweithio mewn cymunedau fel symbyliad i gael barn pobl leol ac asesu anghenion y gymuned. Lluniwyd llawlyfr o'r technegau gan Dysg LSDA Cymru i hyfforddi'r rhai sy'n ymwneud â'r prosiectau ac i'w gylchredeg yn ehangach. Mae llwyddiant y technegau hyn yn dibynnu ar fynd allan i'r gymuned i sicrhau cael cyfranogiad llawn pobl leol yn y gweithrediadau a'r canlyniadau gyda phwyslais ar ddefnyddio gwahanol ddulliau cyfathrebu i hyrwyddo cynhwysiad a chyfranogiad amrywiaeth eang o bobl gydag amrywiol anghenion cyfathrebu.

Trefnwyd y prosiect hefyd fel y gall myfyrwyr ddatblygu portffolios sgiliau allweddol trwy weithgareddau prosiect (gan ddefnyddio cyfathrebu, cymhwyso rhifau, TG, datrys problemau, ac ati). Mae Rhaglen Cefnogi Sgiliau Allweddol Cymru yn cynnal y prosiect trwy roi cyngor a hyfforddiant ar ddulliau addysgu a helpu gydag adeiladu portffolios. Bydd achredu sgiliau allweddol yn rhan o 'gist arfau' y prosiect. Partneriaid eraill yw amgueddfeydd lleol, mudiadau cymunedol lleol yn canolbwyntio ar y grŵp oedran 16-24 a cholegau AB.

## 6 DADANSODDI'R CANLYNIADAU

Cynhaliwyd y prosiect mewn tri llinyn: adolygiad llawn o'r llenyddiaeth (gan gynnwys ystyried deunydd a gyhoeddwyd ar nifer o astudiaethau achos lleol a rhyngwladol); ymchwil ddesg yn canolbwyntio ar ganfod a dadansoddi astudiaethau achos yng Nghymru; tri gweithdy ar gyfer budd-ddeiliaid allweddol lle cyflwynwyd, trafodwyd ac ychwanegwyd at ganlyniadau dros dro yr ymchwil. Mae'r adolygiad o'r llenyddiaeth, manylion astudiaethau achos a wnaed yn ystod yr ymchwil ddesg a chrynodeb o'r materion a godwyd yn ystod y gweithdai i'w gweld yn yr Atodiadau. O'r themâu cyffredinol sydd i'w gweld ar draws y cyfan o'r astudiaethau achos i ryw raddau, mae modd nodi nifer o faterion allweddol. Caiff y materion hyn, ynghyd â'r rhai'n deillio o'r gweithdai a'r adolygiad o'r llenyddiaeth, eu cyflwyno isod, gyda meysydd lle gall fod angen rhagor o ymchwil neu ddatblygiadau cysylltiedig â pholisi i'w canlyn.

### 6.1 Ariannu a chynaladwyedd

O bob un o linynnau'r ymchwil hon mae'n amlwg nad oes modd denu cymunedau'n llwyddiannus dros nos na thrwy strategaethau byrdymor. Mae'n gofyn datblygu ymddiriedaeth ac adeiladu perchenogaeth gymunedol. Fodd bynnag, dangosodd yr ymchwil nad yw'r strwythurau sydd ar gael i dalu am y ddarpariaeth hon ar hyn o bryd wedi eu llunio i hyrwyddo'r strategaethau angenrheidiol a bod codi arian, felly, yn treulio amser anghymesur darparwyr dysgu yn y gymuned. Mae'r llond gwlad o ffrydiau ariannu sydd ar gael yn gymhleth (yn wir, yn rhy gymhleth) tra bo natur ansicr, a byrdymor yn aml, cyllid yn gyffredinol i'w gweld yn tanseilio pob math o brosiectau a gwasanaethau cymunedol yn ddifrifol.

Roedd mater ariannu yn un o themâu cryfaf yn llinynnau rhyngweithiol yr ymchwil. Mewn llawer o astudiaethau achos, ac yn y gweithdai, cyflwynwyd achosion cryf ac ymarferol gan ymarferwyr oedd yn cael trafferth i sicrhau cymorth ariannol i barhau am y flwyddyn nesaf. Roeddent yn pwysleisio'r angen am symleiddio ac eglurder; am egluro hawl i gymorth ariannol fel ag i wneud ymdrechion codi arian mor effeithlon ag y bo modd. Mae siom a dicter diweddar llawer o fudiadau cymunedol (gan gynnwys rhai o'r rhai a gydweithredodd yn yr ymchwil hon a sy'n cael eu hamlygu fel cyrff yn dangos agweddau o arferion da) dros eu methiant i sicrhau cyllid o Gronfa Her Dysgu, hyd yn oed ar ôl cefnogaeth a chyngor ELWa, wedi effeithio ar agweddau yn ystod cysylltiadau diweddarach ar gyfer yr ymchwil hon. Nid yw profiad Cronfa Her Dysg wedi cynorthwyo i

dawelu meddwl y mudiadau cymunedol hynny oedd eisoes yn rhwystredig oherwydd peirianwaith cyllido presennol. Er ein bod yn ymwybodol bod CC-ELWa yn cyllido dysgu mewn cymunedau – nid cyfanrwydd datblygiad neu adfywiad – mae'n amlwg o rai o'r astudiaethau achos, ac mae'n amlwg mewn man arall yn yr adroddiad hwn, bod dysgu yn rhan gymhleth o'r prosesau ehangach hyn. Felly, mae un o'r argymhellion gaiff eu trafod yn adran 8 yn cynnwys ystyried datblygu ffrwd o gyllid craidd ar fyrder wedi ei dargedu ar brosiectau a mudiadau adfywio cymunedol llwyddiannus ac wedi hen sefydlu.

Mae'n amlwg o lawer o'r ffynonellau a archwiliwyd bod angen i strwythurau cyllido fod yn fwy addasadwy, fel bod cyllid ar gael ar gyfer prosiectau gwreiddiol, arloesol yn hytrach na llunio prosiectau o gwmpas meini prawf ariannu. Atgyfnerthwyd y farn hon trwy archwilio'r astudiaethau achos. Yn ogystal, tra bo dealltwriaeth o'r angen i ddatblygu sail o dystiolaeth o ddarpariaeth, mae angen i gyllidwyr fod yn fwy parod i fentro a chaniatáu arloesi, gan ennill tystiolaeth trwy werthuso, felly'n dysgu am a phrisio canlyniadau negyddol yn ogystal â chadarnhaol arweiniadau newydd. Mae gwir angen datblygu safbwynt hirdymor ar gyllido a chael canlyniadau. Nid yw'n ymarferol i ddisgwyl canlyniadau parod oddi wrth gymunedau ac unigolion; yn wir mynegwyd y farn yn eglur yn y gweithdai, y gall cyllid byrdymor (a phrosiectau byrdymor o'r herwydd) nid yn unig fod yn aneffeithiol trwy ddefnyddio adnoddau yn aneffeithlon a gwastraffus, gall meddylfryd byrdymor o'r fath beri effeithiau aflesol mewn gwirionedd. Enghraifft dda o hyn yw llesteirio ym maes gwaith ieuenctid ac estyn braich lle caiff ymdrechion gweithwyr i annog pobl ifanc wedi eu heithrio'n gymdeithasol fynd i addysg a chyflogaeth eu rhwystro pan ddaw cyllid i ben yn union fel y bydd ymddiriedaeth yn dechrau datblygu.

Mae agwedd a chyllido byrdymor yn tanseilio cynllunio strategol a chreadigol hefyd, tra bo'r pwyslais ar brosiectau arwahanol cyfnod penodol yn tanseilio adeiladu medrusrwydd, parch / ymddiriedaeth ac adnoddau all ddod trwy ymdrechion parhaol dros gyfnod hwy. Gall cyllido byrdymor ddwysau problemau cyllido isel. Mae bod yn brin o adnoddau ynddo'i hun yn rhoi cyrff dan anfantais o ran cael cymorth ariannol, gan fod mudiadau cymunedol a gwirfoddol yn arbennig yn rhy brin o adnoddau yn aml i allu cadw cofnod digonol o'u gweithgareddau. Yn aml, felly, ni allant ddangos gwerth a chanlyniadau llwyddiannus eu gwaith i gyllidwyr. Dangoswyd i ni hefyd yn ystod yr

ymchwil hon ei bod, ar waethaf pwysigrwydd hanfodol cael nawdd, yn eironig, mae'n anodd iawn cael cyllid ar gyfer Swyddogion Codi Arian, hyd yn oed lle mae gan fudiadau swyddogaeth o hyrwyddo codi arian i rwydwaith ehangach o gyrff. Mynegodd amryw o sefydliadau siom hefyd ynghylch dal i orfod cynnig am arian, proses a gredant yn bendant sy'n groes i ddatganiadau polisi ar ddatblygu partneriaeth a dileu cystadleuaeth ddiwerth. Ar ben hynny, roedd neges glir bod angen caniatáu digon o amser ar gyfer datblygu ceisiadau neu gynigion am gyllid, fel bod mudiadau cymunedol llai a rhai heb gymaint o adnoddau yn gallu ymgeisio.

Gall cymorth ariannol byrdymor achosi problemau i'r rhai sy'n ceisio sefydlu darpariaeth ddysgu am y tro cyntaf, lle gall derbyniad dechreuol fod yn isel a darpariaeth o'r fath yn cael ei hystyried yn economaidd anhyfyw yn gyffredinol o'r herwydd. Mae safbwynt cyfnod hwy yn caniatáu i nifer bach o gyfranogwyr gael profiad o ddysgu i ddechrau, gan adeiladu ymddiriedaeth o fewn y gymuned y caiff anghenion eu diwallu a hybu geirda gan ddysgwyr bodlon i gael mwy i gyfranogi mewn darpariaeth. Un pwynt sydd angen i gyllidwyr ei gydnabod yw fod grwpiau bach yn effeithiol dros ben ar gyfer dysgwyr anodd eu cyrraedd, a gall canlyniadau fod yn llawer mwy llwyddiannus lle mae nifer bach dan sylw. Felly, gallant fod yn defnyddio adnoddau'n fwy effeithiol mewn gwirionedd. Gallai cyfundrefn werthuso – sy'n ystyried pa ddysgwyr sy'n cael eu gwasanaethu a beth yw llwyddiant y ddarpariaeth yn hytrach na dim ond cyfrif 'tinau ar seddau' – fod yn un ffordd ymlaen.

### 6.2 Swyddogaeth Canolwyr

Nid oes modd gorbwysleisio pwysigrwydd canolwyr wrth ddenu cymunedau i ddysgu. Dangosodd yr ymchwil yn eglur bwysigrwydd swyddogaeth canolwyr wrth ddenu cymunedau ac unigolion i ddysgu. Mae canolwyr yn hanfodol i lwyddiant amrywiaeth o ddarpariaeth addysg yn ogystal â bod yng nghanol y rhaglen Cymunedau'n Gyntaf. Mae adroddiad DEMOS – Cyfrifon Dysgu yn y Gymuned hefyd yn gosod canolwyr (Hwyluswyr Dysgu yn y Gymuned) wrth galon un o'i ddau batrwm o Gyfrifon Dysgu yn y Gymuned. Mae'r enw 'canolwr' yn cwmpasu nifer mawr o wahanol weithwyr proffesiynol a gwirfoddolwyr ac mae'n bwysig bod yn glir ynghylch ystyr y term. Diffiniad canolwr yn y cyd-destun hwn yw unigolyn neu gorff sy'n gallu hwyluso denu cymunedau i ddysgu. Mae'r rhain yn cynnwys y rhai sy'n gweithredu i ddenu unigolion, y rhai sy'n gweithio

gyda'r gymuned gyfan a'r rhai sy'n gallu cyfryngu'r partneriaethau gofynnol oddi allan i gymunedau i sicrhau darpariaeth a chefnogaeth briodol. Rhai enghreifftiau yw:

- Gweithwyr proffesiynol:
  - Gweithwyr datblygu cymunedol
  - Gweithwyr ieuenctid
  - Gweithwyr cymdeithasol
  - Gweithwyr iechyd
  - Gweithwyr allanol darparwyr addysg
  - Gweithwyr gyrfaoedd / cyfarwyddyd addysgol
  - Staff canolfannau gwaith
  - Llyfrgellwyr
  - Swyddogion prosiectau

- Gweithredwyr / arweinwyr cymunedol
  - Aelodau gweithredol o fudiadau gwirfoddol
  - Cynghorwyr cymuned
  - Arweinwyr crefyddol

- Mudiadau neu brosiectau (yn cynnwys ymddiriedolaethau datblygu i Brosiect yr Ystol) neu rwydweithiau cymunedol
  - Ymddiriedolaethau datblygu fel Menter Cwm Aman neu'r mudiad cymunedol a sefydlwyd yn Upper Skeena
  - Prosiectau arbenigol fel Prosiect yr Ystol neu Theatr Fforwm Cymru
  - Clybiau neu fudiadau diddordeb arbennig sydd hefyd yn ddolen gyswllt i ddysgu fel y Clybiau Ffermwyr Ifanc neu MEWN Cymru
  - Rhwydweithiau diddordeb arbennig fel Rhwydwaith y Lleiafrifoedd Du ac Ethnig
  - Cynghorau Gwasanaethau Gwirfoddol Sirol
  - CCET (gan y gallant hwyluso partneriaethau cymunedol)
  - Partneriaethau Cymunedau'n Gyntaf
  - Partneriaethau Ewropeaidd lleol a rhanbarthol (Amcan 1, ac ati)

Ar hyn o bryd, clytiog iawn yw argaeledd canolwyr hyfforddedig / profiadol yng Nghymru. Mewn rhai ardaloedd, fel y rhai a nodwyd yn yr astudiaethau achos, mae'r seilwaith yn bodoli eisoes. Mewn eraill nid oes unrhyw dystiolaeth ei fod. Mae'n ymddangos bod mwyafrif yr arweiniadau fel ymddiriedolaethau datblygu i'w gweld yng nghymunedau cymoedd y De. Mae cyrff cyfryngol sydd â mwy o ganolbwynt grŵp targed neu gymuned o ddiddordeb – fel Theatr Fforwm Cymru, Amaethwyr Ifanc neu MEWN Cymru – naill ai'n gyrff Cymru gyfan neu'n fudiadau mwy lleol sy'n gallu gweithredu ar hyd a lled Cymru os oes angen. Mae cyrff fel CCET a'r Cynghorau Gwasanaethau Gwirfoddol Sirol yn bodoli ar hyd a lled Cymru ond mae llawer o amrywiad yn y flaenoriaeth a roddant i ddenu cymunedau i ddysgu. Er enghraifft dim ond rhai CGGS sydd â'r adnoddau i hyrwyddo a chefnogi darpariaeth ddysgu o fewn y sector gwirfoddol yn eu hardaloedd.

Ar waethaf amrywiaeth o arweiniadau, a chydnabyddiaeth gyffredinol o bwysigrwydd rhan y canolwyr, mae problemau gyda chanfod canolwyr priodol yng Nghymru, gan gynnwys mewn ardaloedd Cymunedau'n Gyntaf. Mae cyflogau isel ac anawsterau gyda thalu am ganolwyr yn arwain at feddylfryd byrdymor a bydd canolwyr yn diflannu ar ôl dim ond cyfnod byr. Gall defnyddio canolwyr amhriodol ddod â chanlyniadau difrodus, gyda chyfranogwyr yn y gweithdai yn nodi enghreifftiau o hynny. Roedd yr enghreifftiau'n cynnwys prosiectau a gweithwyr wedi eu cyllido trwy Fenter y Cymoedd yn y 1980au, gweithwyr cymunedol yn cael eu dodi yno nad oedd yn deall, nac yn ennyn ymddiriedaeth, y cymunedau y bwriadwyd iddynt eu gwasanaethu, yn methu datblygu prosiectau perthnasol na chynaliadwy. Mae pryder y gallai'r sefyllfa debyg ar hyn o bryd, o ran y cymorth ariannol sydd ar gael ar gyfer cymunedau a diffyg ymarferwyr cymunedol medrus, arwain at enghreifftiau pellach o ddod â gweithwyr a chyrff o'r tu allan. Dangosodd y gweithdai fynychder marchnad agored mewn sgiliau gwaith cymunedol yng Nghymru. Un canlyniad o hyn yw bod gweithwyr yn symud o un swydd yn y gymuned i'r llall, gyda llawer o ddwyn gweithwyr. Mae angen hyfforddi gweithwyr cymunedol o bob safon i ddiwallu anghenion Cymuned yn Gyntaf. Mae'n werth sylwi yng nghynnig DEMOS am Hwyluswyr Dysgu yn y Gymuned, bod ELWa i hyfforddi'r hwyluswyr: *"bydd ELWa yn gweithredu fel ffynhonnell arweinyddiaeth a strategaeth gyflawn, a hyfforddi ar gyfer Hwyluswyr Dysgu yn y Gymuned."* (DEMOS 2002)

Gwelwn swyddogaeth canolwyr yng Nghymru yn hanfodol i ddenu mwy i ddysgu mewn cymunedau. Felly, mae'n hanfodol rhoi sylw i brinder canolwyr unigol a rhai mathau o rai

trefnyddol gyda'r sgiliau a phrofiad sydd eu hangen. Byddai agwedd gyd-drefnus, ar draws amrywiaeth o asiantaethau, cyrff ac adrannau'r llywodraeth, tuag at ddarparu'r hyfforddiant ar gyfer canolwyr newydd, yn sicrhau bod yr hyn sy'n adnodd prin o ran y rhai sydd ar gael eisoes yn cael ei feithrin a'i ddefnyddio yn y dull mwyaf effeithlon posibl. Er enghraifft, dylid trefnu unrhyw weithredu o'r cynigion am Hwyluswyr Dysgu yn y Gymuned (fel y cynigiodd DEMOS) mewn cysylltiad â mudiadau cymunedol ac asiantaethau eraill fel Gyrfa Cymru gan y byddai ganddynt ran hanfodol ac amrywiol i'w chwarae. Gall fod personél neu gyrff eisoes yn bodoli a allai weithredu yn y swyddogaeth hon gydag ychydig o hyfforddiant neu gefnogaeth ychwanegol. Fel hyn gallai Hwyluswyr Dysgu yn y Gymuned ddarparu gwasanaeth caboledig o arweiniad a chefnogaeth ar gyfer trefnu, gwneud a dysgu a bod yn gyfrifol am arolygu darpariaeth ddysgu a chynnydd, gan borthi ELWa a budd-ddeiliaid perthnasol eraill.

### 6.3 Partneriaethau

Mae partneriaethau llwyddiannus yn hanfodol os yw mudiadau cymunedol i gael yr adnoddau a darpariaeth eithaf sydd ar gael i'r gymuned ac mae agwedd aml-asiantaeth yn hanfodol i rai mathau o ddarpariaeth, er enghraifft denu'r anfodlon. Er mwyn diwallu rhychwant llawn anghenion addysg cymuned byddai angen i bartneriaeth yn cynnwys nifer o gyrff canoli gydweithio. Byddai'n cynnwys nifer o unigolion, pob yn gweithredu fel canolwr all fod yn gysylltiedig â sefydliadau unigol neu yng nghyflogaeth y bartneriaeth. Gall trefniadau o'r fath fod yn ffurfiol a hirdymor, fel patrwm eginol Partneriaethau Cymunedau'n Gyntaf, neu unswydd i bwrpas gydag un corff yn defnyddio sgiliau arbenigol corff arall am gyfnod byr. Un enghraifft o'r trefniant olaf hwn fyddai ymddiriedolaeth ddatblygu yn dod â grŵp fel Theatr Fforwm Cymru i weithio gyda phobl ifanc wedi dadymafael yn eu cymuned. Byddent yn hyfforddi gwirfoddolwyr a gweithwyr yn yr ymddiriedolaeth ddatblygu yn eu naws a'u technegau fel y gallent barhau'r gweithgaredd ar ôl y cyfnod hyfforddi.

Mae angen ystyried dysgu yn y gymuned o fewn cyd-destun ehangach darpariaeth gymdeithasol arall, yn cynnwys cydweithio agos rhwng yr amrywiol fudd-ddeiliaid swyddogol mewn meysydd fel iechyd y cyhoedd, darpariaeth blynyddoedd cynnar, atal trosedd, a chynlluniau adnewyddu cymunedol. Mae angen chwalu ffiniau daearyddol a sectoraidd hefyd i gael buddiannau ehangaf addysg i gymunedau.

Nodwyd dau brif fath o bartneriaeth yn ystod y prosiect hwn. Yn gyntaf, gall partneriaethau fodoli rhwng dau sefydliad neu fwy i ddarparu dysgu yn y gymuned, a enwyd gennym yn 'Bartneriaethau Darparu'. Mae ail fath o bartneriaeth neu rwydwaith i'w gweld all fod yn llai ffurfiol a sy'n bodoli i hyrwyddo cefnogaeth cyfoedion a chyfnewid arferion da a gwybodaeth arbenigol.

- **Partneriaethau Darparu**

  Rhaid peidio amcangyfrif yr adnoddau sydd eu hangen i sicrhau partneriaethau llwyddiannus yn rhy isel, yn arbennig os yw partneriaid lluosog parhaol dan sylw. Mae angen ystyried yn gynnar unrhyw gwestiynau fel sut fydd y partneriaethau'n cael adnoddau ac yn cael eu cynnal. Mae'n hanfodol cael ffyrdd o sicrhau bod cydberthynas grym o fewn partneriaethau yn cael sylw fel bod holl bartneriaid yn parchu ei gilydd a bod ganddynt lais cyfartal o fewn unrhyw bartneriaeth.

- **Partneriaethau â'u Golygon tuag Allan**

  Mae gan nifer o'r cyrff yn yr astudiaethau achos bartneriaethau neu rwydweithiau, â'u golygon tuag at allan, sy'n gweithredu drwy'r DU gyfan, Ewrop a thu hwnt. Mae'r partneriaethau hyn yn cynnig dull o ganfod a rhannu arferion da rhwng amrywiaeth eang o gymunedau a gallant hefyd gynnig profiadau hynod werthfawr i wirfoddolwyr a dysgwyr trwy drefnu cyfnewid aelodau. Mae canlyniadau arweiniadau o'r fath yn cynnwys llawer mwy o gymhelliad yn ogystal â dysgu. Dylid cefnogi ac annog rhwydweithiau o'r fath, ffurfiol ac anffurfiol fel ei gilydd. Bydd Theatr Fforwm Cymru a'r CFfI yn defnyddio rhwydweithiau o'r fath er budd mawr.

**6.4 Mesur llwyddiant: Gwerthuso ac Achredu**

Mae tystiolaeth ryngwladol yn awgrymu y gall peth o'r dysgu mwyaf gwerthfawr sydd ar gael i'r gymuned fod yn anffurfiol, ac mae'n ymddangos bod grwpiau arbennig sy'n gweld dysgu anffurfiol yn arbennig o ddeniadol. Mae tystiolaeth hefyd i awgrymu mai'r ffordd hawddaf i ddenu darpar ddysgwyr, yn enwedig yr anfodlon, neu'r 'anodd eu cyrraedd', yw ar hyd llwybrau sy'n cynnig dysgu digwyddol yn y lle cyntaf. Tra bo'n ymddangos bod mwy o gydnabod nad yw dysgu yn digwydd ar 'gyrsiau' yn unig, mae angen gwerthfawrogi dysgu anffurfiol yn ei rinwedd ei hun, ac nid yn unig fel peirianwaith

ar gyfer dilyniant. Bydd llawer o'r cyrff yn yr astudiaethau achos sy'n cael eu disgrifio yn yr adroddiad hwn yn rhoi pwyslais mawr ar 'ddysgu trwy wneud' a 'dysgu cudd'.

Tra gall achredu ffurfiol fod yn amhriodol o dan rai amgylchiadau mae ymwybyddiaeth, serch hynny, y gall achredu hybu hyder ac atgyfnerthu dysgu. Tra'n pwysleisio pwysigrwydd dysgu digwyddol sy'n rhan o weithredu, yn ôl Foley (1999) "i sylweddoli gwerth dysgu o'r fath yn llawn mae angen i ni ei ddatgelu". Hynny yw, mae angen amlygu'r dysgu sydd wedi digwydd petai ond i wneud dysgwyr yn ymwybodol o'r sgiliau a gafwyd, eu henwi, fel eu bod yn gallu 'marchnata' eu hunain yn fwy effeithiol a chael y gorau o'r canlyniadau dysgu felly. Fodd bynnag, dylai unrhyw asesu fod yn briodol a derbyniol i ddysgwyr yn ogystal ag i ddarparwyr a chyllidwyr.

Caiff canlyniadau meddal eu hamlygu dro ar ôl tro fel canlyniadau dysgu hanfodol. Fodd bynnag, bydd darparwyr yn ei chael yn anodd iawn i gael cymorth ariannol ar gyfer prosiectau sydd heb eu hachredu'n ffurfiol, heb fod yn dangos dilyniant hierarchaidd neu nad ydynt yn dod â chanlyniadau cyflogaeth ar unwaith. Mae angen llunio a gweithredu dulliau mwy soffistigedig o werthuso darpariaeth a dilyn canlyniadau, tra bo angen trefnu achrediad o gwmpas darpariaeth yn hytrach na bod darpariaeth yn cydymffurfio ag achrediad. Mae angen adeiladu cysylltiadau gyda'r fframwaith credyd a chymwysterau eginol ac fe ategwyd cynnig i nodi 'unedau asesu' cyffredinol gan gyfranogwyr yn y gweithdai. Trwy gysylltu dysgu anffurfiol â chanlyniadau dysgu a darparu meini prawf ar gyfer dangos llwyddiant, byddai modd gwasanaethu dibenion lluosog cynnal fframwaith sicrwydd ansawdd. Byddai hyn yn galluogi cysylltu gwerth credyd â dysgu anffurfiol ar gyfer cyllido rhaglenni a chaniatáu achredu pe bai dysgwyr yn penderfynu cael asesiad priodol. Fodd bynnag, mae angen eglurder ar beth sydd i'w hystyried fel canlyniadau cadarnhaol o ran dysgu yn y gymuned, h.y. ydi mesurau llwyddiant i gael eu cyfyngu i syniadau traddodiadol am lwyddiant, achredu a dilyniant unigolion, neu oes modd iddynt gynnwys: datblygu dinasyddion gweithgar, budd cymunedol (cymdeithasol, amgylcheddol, diwylliannol neu economaidd) neu ryw fesurau eraill?

### 6.5 Sicrwydd Ansawdd

Mae cyswllt agos rhwng Sicrwydd Ansawdd a strwythurau achredu neu ffordd arall o werthuso canlyniadau dysgu. Gall dysgu anffurfiol a chanolbwyntio ar ganlyniadau meddal ei gwneud yn anodd i fesur ansawdd darpariaeth a chreu problemau cydredol

wrth geisio sicrhau cyllid. Tra mynegwyd teimlad cryf yn y Gweithdai bod sicrwydd ansawdd yn bwysig iawn, ychydig syniadau ar batrymau gwerthuso a gynigiwyd. Felly, mae'n amlwg bod angen cael ymchwil ar batrymau i sicrhau ansawdd y broses ddysgu anffurfiol a mesur effeithiau dysgu anffurfiol yn y gymuned.  Un o nodweddion pwysig gwerthuso darpariaeth yw'r amser ac adnoddau eraill sydd ar gael i alluogi cyrff cymunedol baratoi adroddiadau ar eu gweithgareddau. Lle mae cyswllt agos rhwng dysgu a datblygu ac adfywio cymunedol, efallai fod rhywfaint o werth archwilio cysylltiadau gyda syniad 'archwiliadau cymdeithasol cymunedol' fel y datblygwyd yn y symudiad mentrau cymunedol.

## 6.6 Cymhelliad

Daw un neges glir o ran cymhelliad i ddenu cymunedau i ddysgu, a ategwyd gan yr ymatebion yn y gweithdai, o'r astudiaeth achos ar Hyfforddi i Drawsffurfio lle maent yn cyfeirio at Paulo Freire a ysgrifennodd yn ei waith enwog, *Addysgeg y Gorthrymedig.* (Freire 1970)

> "Addysg fydd y llwybr i ryddhad parhaol ac mae mewn dau gyfnod. Y cyfnod cyntaf yw pryd y daw pobl yn ymwybodol o'u gorthrwm (diriaethu) a, thrwy arfer, gweddnewid y cyflwr hwnnw. Mae'r ail gyfnod yn adeiladu ar y cyntaf ac mae'n broses barhaol o ryddhau gweithredu diwylliannol."

Yn yr ystyr hwn, felly, mae creu cymhelliad yn golygu codi ymwybyddiaeth o anghenion yn gyffredinol, a gweithio gyda'r gymuned i ddatblygu dealltwriaeth o'r hyn sydd ei angen.  Mae gweithio gyda'r gymuned tuag at ddatblygu'r ymwybyddiaeth o angen fel hyn yn dra medrus – pwynt a bwysleisiodd nifer o gyfranogwyr yn y gweithdai. Byddai rhagor o ymchwil i dechnegau denu a chymell ynghyd ag astudiaethau achos manwl ychwanegol o arferion da yn y maes hwn yn rhoi goleuni ar y ffyrdd gwahanol o wneud hyn gyda grwpiau ac unigolion o amrywiaeth o gefndiroedd cymdeithasol, diwylliannol ac economaidd.

## 6.7 Rhwystrau

Mae modd rhannu rhwystrau i ddysgu yn rhwystrau diwylliannol / ysgogol (h.y. agwedd at ddysgu all fod â'i gwreiddiau'n ddwfn mewn profiad personol a'r sefyllfa bresennol) a rhwystrau ymarferol (h.y. rhwystrau sydd, gyda dychymyg a chyllid, yn haws eu trin).

Nodwyd y rhwystrau diwylliannol ac ymarferol canlynol yn ystod yr astudiaeth hon. Er mwyn llwyddo i ddenu cymunedau, rhaid rhoi sylw i'r rhwystrau hyn:

- Diffyg amser i fod yn dysgu
- Diffyg cymhelliad
- Anawsterau cartref
- Diffyg rhwydwaith cefnogi
- Diffyg cludiant
- Diffyg hyder
- Diffyg uchelgais
- Diffyg cyfarwyddyd
- Diffyg gwybodaeth
- Dim digon o arian
- Cyfrifoldebau cartref a gofalu
- Absenoldeb cyfle
- Cred nad oes gan ddysgu fawr i'w gynnig
- Atgofion anhapus o'r ysgol.
- Llythrennedd gwael
- Anghenion arbennig
- Diffyg hunaniaeth
- Ymwybyddiaeth wleidyddol a dinesig wael
- Mannau cyfarfod anhygyrch neu annymunol
- Ystrydebau negyddol
- Darpariaeth amhriodol
- Patrwm sifftiau newidiol
- Oriau gwaith hwy yn gwneud presenoldeb rheolaidd yn anodd
- Ychydig gyfleoedd rhyddhau am y dydd a chyndynrwydd rhai cyflogwyr i ryddhau eu staff ar gyfer hyfforddiant.

Mae rhywfaint o orgyffwrdd rhwng nifer o'r rhwystrau a nodwyd ac mae angen eu cyfuno. Lle mae arferion da yn bodoli chwalwyd rhai o'r rhwystrau hyn.

## 6.8 Gofynion gwybodaeth reoli

Cododd nifer o faterion ynghylch casglu gwybodaeth am ddysgwyr. Yn aml bydd gan grwpiau cymunedol ffrydiau ariannu lluosog a bydd y rhan fwyaf o gyllidwyr â'u galwadau eu hunain am wybodaeth. Canlyniad hyn yw gorfod casglu gwybodaeth mewn amrywiaeth o ffyrdd. Bydd rhai cyrff yn gwrthod tarfu ar breifatrwydd y dysgwyr o ran casglu gwybodaeth am faterion statws cyflogaeth, hawl i fudd-dal neu ethnigrwydd. Fodd bynnag, dywed llawer o grwpiau eu bod yn arfer casglu'r wybodaeth sydd ei hangen gan eu cyllidwyr (yn wir roedd rhai cyrff yn cyfaddef, er yn elyniaethus ar y dechrau i'r angen i gasglu data arbennig, bod y data hyn wedi bod yn ddefnyddiol iddynt mewn gwirionedd). Fodd bynnag, mae'r galwadau lluosog am wybodaeth ar ffurfiau gwahanol yn bwnc llosg amlwg.  O ran mudiadau cymunedol sy'n gweithio gyda mwy nag un darparwr addysg gall hyn arwain at lawer o ailadrodd i ateb gwahanol ofynion, yn aml ynghylch yr un dysgwr. Mae angen annog casglu data mwy manwl ar ddysgwyr a sefydlu categorïau, tu hwnt i ryw a chyfeiriad, allai gynorthwyo cael gwybodaeth / ystadegau mwy unffurf a defnyddiol ymysg y sectorau gwirfoddol, cyhoeddus a statudol. Yn ogystal, mae angen datblygu diffiniad cyson o'r hyn sy'n ffurfio 'dysgwr newydd'.

### 6.9 Defnyddio TG, TGCh, TDG ac E-ddysgu mewn Cymunedau

Er eglurder diffiniwn yr amrywiol dermau gaiff eu defnyddio yn yr adran hon:

TG – Technoleg Gwybodaeth, sydd fel arfer yn gysylltiedig â darpariaeth lle bydd dysgwyr yn caffael sgiliau defnyddio pecynnau heb fod angen unrhyw rwydweithio na chysylltiadau cyfathrebu.

TGCh – Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu, sy'n awgrymu dysgu cyfathrebu ar sail TG fel sgiliau gwe neu e-bost.  Yn ogystal, gall addysgu'r dechnoleg hon ddefnyddio rhywfaint o weithgaredd dysgu o bell.

TDG – Technoleg Dysgu Gwybodaeth, sy'n derm gaiff ei ddefnyddio'n gyffredinol i nodi defnyddio technoleg ar gyfer dysgu unrhyw bwnc neu sgil, a gall gynnwys dysgu o bell.

E-ddysgu, yn y diffiniad a ddatblygwyd ar gyfer strategaeth e-ddysgu ELWa, mae'n cynnwys unrhyw fath o ddysgu drwy gymorth electroneg sy'n gallu awgrymu dysgu o bell a sy'n cynnwys hyn yn gyffredinol.

Ni chaiff TGCh neu e-ddysgu o bell eu gweld yn llwyddo i ddenu dysgwyr *newydd* o blith y rhai nad ydynt ar unwaith yn gweld dysgu fel rhywbeth sy'n berthnasol iddynt hwy neu'r rhai sy'n cael eu disgrifio fel wedi dadymafael.  Fodd bynnag, mae'n ymddangos bod cyrsiau TG yn denu dysgwyr newydd. Mae llai o warth mewn cyfaddef bod angen

cymorth i ddefnyddio a deall TG na chyfaddef bod angen llythrennedd a/neu rhifedd sylfaenol ac, felly, mae'n ddefnyddiol i ystyried gwerth cyrsiau TG o ran ymosod ar faterion sgiliau sylfaenol. Fodd bynnag, mae lle mawr i TDG / e-ddysgu, wrth ddarparu cyfleoedd dilyniant i ddysgwyr yn y gymuned unwaith y cânt eu denu ac y byddant yn ymroddi i ddysgu. Mae lle hefyd i ddefnyddio TDG / e-ddysgu yn arloesol gyda chefnogaeth (darpariaeth nad yw o reidrwydd yn ynysu'r dysgwr) i ddatrys mater dosbarthiadau, gan fod yn fodd i unigolion neu grwpiau bach ddysgu lle na fyddai darpariaeth ddysgu gonfensiynol yn ymarferol.

Y neges gyffredinol yw fod o werth defnyddio technolegau sydd ar gael yn ystyriol fel arf ar amrywiol gyfnodau denu cymunedau.

### 6.10 Denu grwpiau targed penodol

Mae nifer o wahanol grwpiau y ceisiodd yr ymchwil nodi unrhyw faterion arbennig o ran eu denu i ddysgu. Mae'r rhain yn cynnwys pobl sy'n gymdeithasol eithriedig, pobl ifanc a'r anabl. Yn gyffredinol y materion a nodwyd o'r astudiaethau achos yw y daw denu llwyddiannus trwy arferion da, sy'n cysylltu'r pwyntiau cyffredinol gaiff eu cyflwyno isod yn benodol â'r grŵp targed penodol dan sylw.

### 6.11 Dysgu Dwyieithog mewn Cymunedau

Tra bo hyn yn fater yr oedd yr ymchwil yn awyddus i edrych arno, hyd yma ychydig a gafwyd yn y llenyddiaeth ac nid yw wedi codi fel rhywbeth o bryder mawr o ran ymarfer yn unrhyw un o'r astudiaethau achos. Mae tystiolaeth chwedlonol o'r gweithdai yn awgrymu, hyd yn oed os caiff cyrsiau eu cynnal yn Saesneg, fod gallu tiwtoriaid i sgwrsio'n anffurfiol yn y Gymraeg gan addasu eu rhyngweithio gyda chyfranogwyr yn ôl anghenion iaith yr unigolyn, yn cael effaith tra buddiol ar gymell a chadw siaradwyr Cymraeg. Mae'r Adroddiad Dros Dro ar Gyfrifon Dysgu yn y Gymuned yn rhestru siaradwyr Cymraeg fel iaith gyntaf yn un o'r grwpiau “mwyaf tebygol o fod yn profi … rhwystrau i ddysgu” er nad yw sail yr honiad hwn yn amlwg (ELWa 2002).

### 6.12 Lleiafrifoedd Ethnig, Ffoaduriaid a Cheiswyr Lloches

Nid oes gan y rhan fwyaf o'r cyrff yn yr astudiaethau achos ddarpariaeth, targedau na chofnodion penodol ar gynnwys lleiafrifoedd ethnig, ceiswyr lloches neu ffoaduriaid. Mae prinder llenyddiaeth yn y maes hwn ac mae angen amlwg am ragor o waith. Cysylltwyd â dau grŵp penodol ar gyfer yr astudiaethau achos, sef: BVSNW, sy'n

gweithio gyda darparwyr prif ffrwd yn ogystal â darpariaeth a dargedwyd yn benodol, a MEWN Cymru. Mae MEWN Cymru yn teimlo'n gryf iawn bod buddiannau lleiafrifoedd du ac ethnig (BEM) a chyrff BEM yn aros fwy neu lai yn ddi-sôn yng Nghymru. Roedd yn amlwg bod y galwadau ar amser ac adnoddau'r cyrff hyn yn fawr ac amrywiol ac, yn anffodus, ni fu modd i gynrychiolwyr y cyrff hyn fynychu'r gweithdai.

### 6.13 Dysgu teuluol

Tra bo enghreifftiau o hyn yn gyfyngedig yn yr achosion a gwmpaswyd yn yr ymchwil, roedd yn ymddangos bod cael rhieni i gyfranogi mewn dysgu yn gefn i'w plant yn gymhelliad effeithiol iawn i rai rhieni fanteisio ar gyfleoedd. Fodd bynnag, mae rhai anawsterau wrth hyrwyddo hyn yn ehangach. Mae llawer o ddarparwyr dysgu yn gyfyngedig o ran gweithio gyda rhai o dan 16 oherwydd materion diogelu plant. Gall hyn hefyd rwystro cyfranogiad ehangach oedolion mewn ysgolion. Rhwystr arall i'r math hwn o ddysgu yw diffyg unrhyw asiantaeth unigol gyda chyfrifoldeb dros ariannu dysgu ar draws y sbectrwm oedran cyfan o 3 i 93 oed a throsodd. Mae hwn yn ymddangos fel maes lle gellid mynd ar drywydd partneriaethau effeithiol yn cynnwys ysgolion yn arbennig. Enghraifft dda o ganolwr yn gweithredu'n llwyddiannus yn y maes hwn yw XL Cymru, yn cydweithio gydag ysgolion ac yn rhedeg canolfan deuluoedd stryd fawr.

### 6.14 Dysgu Galwedigaethol

Yn llenyddiaeth ac astudiaethau achos y DU, ychydig sydd o ystyried dysgu yn y gymuned yng nghyd-destun cymunedau o gyflogeion gyda chanolbwynt ar addysg a hyfforddiant galwedigaethol gyda chraidd o sgiliau allweddol. Dyma faes sy'n gwbl amlwg yn y gwaith rhyngwladol. O'r drafodaeth yn y gweithdai mae'n ymddangos fod cyndynrwydd i nodi bod dysgu yn 'alwedigaethol' yng nghyd-destun y gymuned. Gall hyn fod oherwydd gwahaniaethu dysgu galwedigaethol yn amlwg iawn fel rhywbeth sy'n berthnasol yn unig i ddarparu sgiliau galwedigaethol uniongyrchol o fewn strwythurau cymwysterau a chyllido'r DU. Yn Ewrop, fodd bynnag, mae'n ymddangos bod ystyried dysgu galwedigaethol yn ymgorffori unrhyw ddysgu sy'n gallu cefnogi unigolyn wrth fynd i gyflogaeth ac, ymysg pethau eraill, mae'n cynnwys amrywiaeth eang o sgiliau allweddol a throsglwyddadwy. Dyma faes sydd efallai angen ei ystyried ymhellach yng nghyd-destun Cymru.

### 6.15 Cymunedau Difreintiedig a Chymunedau'n Gyntaf

Mae cryn ymwybyddiaeth o'r angen i weithio oddi mewn i gymunedau difreintiedig a'r problemau cysylltiedig â denu darpar ddysgwyr o gefndiroedd difantais. Tra bo cytundeb cyffredinol bod angen targedu cymunedau dan anfantais, teimlwyd nad oes modd rhoi ffiniau daearyddol clir ar amddifadedd bob amser a bod ymatebion cymysg i agweddau ar y cynllun Cymunedau'n Gyntaf. Y pwynt mwyaf arwyddocaol yw fod amrywiad mawr rhwng gwahanol ardaloedd Cymunedau'n Gyntaf. Lle mae seilwaith Cymunedau'n Gyntaf yn gryf, a phartneriaethau gweithio wedi cael eu sefydlu gyda chymorth Cydlynwyr Cymunedau'n Gyntaf, mae peth cefnogaeth i'r cynllun o fewn rhwydwaith ehangach o bartneriaethau. Mae Rhwydwaith Dysgu Newydd NPT yn cynnwys ardaloedd Cymunedau'n Gyntaf ac mae'n frwdfrydig ynghylch posibiliadau Cymunedau'n Gyntaf. Fodd bynnag, mewn ardaloedd lle na ddatblygodd Cymunedau'n Gyntaf gymaint, mae beirniadu 'gorlifo' cylchoedd bach gyda phrosiectau ac adnoddau newydd yn mynd law yn llaw â beirniadu diffyg cydgysylltu'r ymdrechion hyn. Gall diffyg ymgeiswyr cymwys ar gyfer swyddi Cydgysylltwyr Cymuned yn Gyntaf a sefydliadau arweiniol, mewn rhai achosion, fod yn ffactor allweddol yn hyn, sy'n edrych fel methiant. Teimla rhai bod y cynllun yn rhy newydd i allu barnu – mewn rhai ardaloedd ni ddechreuodd fawr ddim eto o dan y cynllun Cymunedau'n Gyntaf er bod ystadegau dechreuol mewn AB yn ardaloedd Cymunedau'n Gyntaf fel pe bai'n awgrymu derbyniad uwch yn y cylchoedd hyn o'r gymharu â gweddill Cymru.

Ar wahân i un astudiaeth achos sy'n ystyried prosiect rhagbrofol, yn cael ei redeg ar lefel ward (ward Cymunedau'n Gyntaf Gorllewin y Rhyl), dengys yr holl astudiaethau achos bod cyrff yn gweithredu tu hwnt i ffiniau Cymuned yn Gyntaf. Yn wir, er y crëwyd rhai partneriaethau cadarnhaol, mae rhai cyrff wedi osgoi ymwneud â Chymunedau'n Gyntaf o fwriad oherwydd natur leol yr arian, gan ffafrio cael gafael ar gyllid sy'n caniatáu cynwysoldeb trwy ddarpariaeth / cyfranogiad ehangach. Mae rhesymau ideolegol yn ogystal ag ymarferol wrth wraidd penderfyniadau o'r fath, gydag CffI, er enghraifft, wedi ymgadw rhag Cymunedau'n Gyntaf gan eu bod yn dymuno osgoi unrhyw beth sy'n creu rhwystrau ac anghydraddoldeb.

### 6.16 Mannau Lle Nodwyd bod Angen Rhagor o Ymchwil

Mae manyleb y prosiect yn gofyn am nodi "argymhellion am ragor o weithgaredd ymchwil, gan nodi unrhyw ddiffygion yn yr adolygiad arferion gorau". Daw'r rhestr isod o

argymhellion am ragor o ymchwil yn uniongyrchol o adolygu llenyddiaeth, yr ymchwil ddesg a'r gweithdai.

Mae anghenion ymchwil a datblygu ychwanegol, heb eu rhestru yn nhrefn blaenoriaeth, yn cynnwys astudio'r canlynol:

- Dysgu a denu cymunedau, damcaniaethol ac ymarferol fel ei gilydd, fel mae'n digwydd tu hwnt i feysydd addysg oedolion *traddodiadol*. Maes sy'n tyfu yw maes cyfan denu'r gymuned, gyda'r prosiect ymchwil byr hwn ond wedi crafu'r wyneb. Yn arbennig, bydd angen edrych yn well ar y posibiliadau 14 i 19 mewn amgylcheddau cymunedol a chysylltu'r gwaith arloesol sy'n dechrau ymddangos mewn rhai mudiadau cymunedol â strategaethau prif ffrwd.
- Anghenion arbennig – gydag angen canfod a lledaenu rhagor o enghreifftiau o arferion da yn y maes hwn.
- Datblygu canllawiau ymarferol ar gymell dysgwyr.
- Effeithiau ehangach dysgu a throsglwyddo gwybodaeth a sgiliau caffaeledig o ran newid ymddygiad a gweithgareddau o fewn y gymuned.
- Ymchwil fwy manwl i ganfod *ffurfiau dysgu* sy'n digwydd mewn cymunedau a phwysleisio astudiaethau achos gyda gwerthuso crynodol sy'n nodi amrywiaeth o ganlyniadau'n eglur.
- Hanes achosion sy'n darlunio trosglwyddo rhethreg i brosiectau llwyddiannus parhaol.
- Rhwystrau allai fod yn wynebu dysgwyr Cymraeg eu hiaith wrth gyrchu darpariaeth ddysgu yn y gymuned, yn ogystal â chyfleoedd arbennig i'r grŵp hwn. Mae DEMOS yn awgrymu fod siaradwyr Cymraeg fel mamiaith yn wynebu rhwystrau i ddysgu; tra *gall* hyn fod yn wir mewn rhai enghreifftiau, dengys ein hymchwil nad yw felly bob amser a, lle gall fod felly, bod nifer o faterion cymhleth i roi sylw iddynt, gan gynnwys sgiliau Cymraeg amrywiol a'r berthynas rhwng Cymraeg llafar a Chymraeg ysgrifenedig. Felly, rydym yn pryderu bod angen ymchwil arbenigol ychwanegol yn canolbwyntio ar siaradwyr Cymraeg fel mamiaith sy'n dangos ffyrdd ymarferol o hyrwyddo denu.
- Y cyswllt rhwng seilwaith / datblygiad cludiant a gofal plant (gan gynnwys arweiniadau ar gonsesiynau a chymorthdaliadau mewn cludiant cyhoeddus) a denu dysgwyr.

- Swyddogaethau gwahanol (a chysylltiadau rhwng) gweithwyr allweddol yn y gymuned – fel bod modd diffinio a chydnabod y rhain yn ffurfiol.
- Mae angen gwahaniaethu rhwng, a dadagregu, deunydd yn y categori culach Addysg Barhaus Oedolion a chategori ehangach 'Addysg Oedolion', yn ogystal ag Addysg Oedolion yn y Gymuned a Dysgu yn y Gymuned. Gall hyn gynorthwyo gyda darparu gwybodaeth ddefnyddiol tra bo rhagor o ymchwil yn cronni ar ddenu cymunedau fydd yn gallu cynnwys pob un o'r categorïau hyn.
- Mae angen rhagor o dystiolaeth werthusol grynodol ar ganlyniadau arweiniadau yn y gymuned. Gyda chyfundrefnau cyllido priodol gallai mudiadau cymunedol gasglu'r wybodaeth hon, a'i rhoi ar gael iddynt.

## 7 ARFERION DA

Bydd arferion da denu cymunedau i ddysgu yn bodoli lle bydd y canlynol yn wir.

### 7.1 Bod darpariaeth yn canolbwyntio ar y dysgwr:

- Bod darpariaeth yn uniongyrchol *berthnasol* i anghenion a diddordebau dysgwyr (darpar ddysgwyr) gan sicrhau bod yr hyn sy'n cael ei gynnig yn eu cymell.
- Bod aelodau'r gymuned yn cael cymorth wrth fynegi angen am ddysgu a welwyd ganddynt.
- Bod canolbwynt ar *gymell* dysgwyr newydd yn llwyddiannus.
- Bod unigolion, cyrff a chymunedau yn cael eu *galluogi* trwy ddysgu.
- Bod dysgwyr yn cael eu hannog a'u cynorthwyo i fod yn gyfrifol am eu dysgu eu hunain.
- Bod cefnogaeth a mynediad parhaol ac agored ar gyfer dysgwyr.
- Bod mentora'n bodoli, naill ai'n anffurfiol neu'n ffurfiol, a bod adnoddau ar gael i ganiatáu amser am sgwrs a chefnogaeth bersonol.
- Bod amser ac adnoddau yn cael eu buddsoddi mewn cysylltiadau sy'n meithrin hyder a pharch.
- Bod gweithgareddau dysgu yn *hwyl*, yn amrywiol ac yn cadw diddordeb dysgwyr.

### 7.2 Bod darpariaeth wedi ei phlannu yn y gymuned:

- Bod cymunedau yn rhan uniongyrchol o ddylunio darpariaeth.
- Bod ymwybyddiaeth o faterion neu anghenion penodol y gymuned, naill ai trwy wybodaeth leol, uniongyrchol neu trwy waith mapio cymunedol.
- Bod cyrff yn gweithio *gyda'r* gymuned yn hytrach na *throsti* (h.y. mai'r gymuned yw perchen a sy'n arwain dysgu).
- Bod dysgu *yn, ar ran, gydag a thrwy'r* gymuned yn gynaliadwy.
- Bod dysgu yn gysylltiedig â gweithgareddau ehangach o fudd i'r gymuned.

### 7.3 Bod strategaethau 'Marchnata' priodol yn cael eu defnyddio:

- Bod amrywiaeth o wahanol dechnegau yn cael eu defnyddio, e.e. diwrnodau agored, gwaith allanol, sesiynau blasu, lledaenu ar lafar, datblygu gwirfoddolwyr

cymunedol trinwyr gwallt, postfeistri a staff bar fel ‘arwyddbyst byw’ i ddysgu, cyflogi hwyluswyr cymunedol yn ogystal ag ymgyrchoedd posteri / pamffledi.

- Bod canolwyr gwybodus wedi eu hyfforddi’n dda ar gael i gyfeirio dysgwyr i ddarpariaeth dysgu.

**7.4 Bod darpariaeth yn briodol i ffyrdd gwahanol o ddysgu:**

- Bod cyfoedion yn arwain hyfforddiant a dysgu.
- Bod hyfforddwyr / tiwtoriaid / hyrwyddwyr yn ymateb i ofynion dysgwyr o ran arddulliau dysgu.
- Bod anghenion arbennig gwahanol unigolion / mathau o ddysgwyr yn cael eu deall ac yn cael lle trwy addasiadau / datblygiadau newydd angenrheidiol o’r ddarpariaeth.
- Bod y gwahanol bwysau cymdeithasol sy’n wynebu dysgwyr yn cael eu cydnabod (e.e. gall dysgwyr ddod o gymuned lle caiff dysgu werth isel a’i weld yn negyddol).
- Bod pwysau teuluol sy’n wynebu dysgwyr yn cael eu cydnabod (e.e. gall dysgwyr fod yn gyfrifol am ofal plant, gofalu am berthnasau oedrannus neu anabl neu gallant fod â pherthnasau anghefnogol neu rwystrol).

**7.5 Bod asesu ac achredu priodol yn cael eu defnyddio:**

- Bod achredu wedi ei deilwrio i’r dysgu / gweithgareddau, ac nid i’r gwrthwyneb.
- Bod achredu yn ddewis heb fod o angenrheidrwydd yn unig neu brif amcan dysgu a bod yr asesu yn briodol i’r sefyllfa a’r dysgwyr.
- Bod canlyniadau dysgu dan arolygaeth a bod dilyniant dysgwyr (yn ei ystyr ehangaf) yn cael ei ddilyn lle bo modd.
- Bod asesiadau cyfoedion a hunanasesiadau yn cael eu defnyddio ac ymateb iddynt.

**7.6 Bod sicrwydd ansawdd / gwerthuso darpariaeth wedi ei sicrhau:** (mae’r dosbarth hwn wedi ei gysylltu’n amlwg â mater asesu ac achredu a amlinellwyd uchod; fodd bynnag, ni ddylid ystyried bod asesu ac achredu yn hanfodol i ddysgu gyda sicrwydd ansawdd.

- Bod gwerthuso darpariaeth, gan gynnwys dilyn canlyniadau dysgwyr, yn rhan annatod yn hytrach na chael ei ychwanegu ar ddiwedd cyrsiau neu brosiectau, a bod ymateb / addasu cyflym iawn i atborth o'r fath.
- Bod gan sefydliadau yr adnoddau i ganiatáu iddynt baratoi adroddiadau ar eu gwaith.

**7.7 Bod darparwyr yn sefydliadau dysgu:**

- Bod buddsoddi parhaol mewn hyfforddi staff a gwirfoddolwyr.
- Bod parodrwydd i ddod o hyd i, rhannu a mabwysiadu arferion da.
- Bod parodrwydd i arloesi a mentro rhywfaint.
- Bod gwerthuso a strwythur democrataidd mewnol yn sicrhau bod pob llais yn cael ei glywed a bod gan staff a gwirfoddolwyr swyddogaeth wrth gynllunio yn ogystal â gweithredu darpariaeth.

**7.8 Bod holl adnoddau sydd ar gael (oddi mewn ac oddi allan i'r gymuned) yn cael eu defnyddio:**

- Bod sefydliadau yn cydnabod, denu ac adeiladu ar sgiliau a chryfderau presennol unigolion a chymunedau.
- Bod adnoddau'r gymuned fel mannau cyfarfod ac offer yn cael eu defnyddio i'r eithaf.
- Bod adnoddau TG / TGCh a TDG / e-ddysgu sydd ar gael yn cael eu gweld fel arf i hyrwyddo dysgu (yn hytrach na'r ateb cyflawn i ddenu) ac yn cael eu defnyddio'n briodol.
- Bod partneriaethau'n cael eu datblygu i alluogi darpariaeth neu i gael gafael ar fedrusrwydd proffesiynol, sgiliau arbenigol neu adnoddau.
- Bod gweithwyr Datblygu Cymunedol, gweithredwyr, grwpiau cymunedol a rhwydweithiau yn gallu gweithredu fel *canolwyr* effeithiol i hyrwyddo dysgu.

**7.9 Bod dysgu yn cael ei ddatblygu gydag ymwybyddiaeth o flaenoriaethau strategol ehangach:**

- Bod cyrff yn datblygu gweithgareddau, gan gynnwys dysgu, yn strategol.
- Bod cyfranogiad mewn rhwydweithiau / gweithgareddau ehangach yn rhanbarthol, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol.

## 8 GWELD BETH SYDD HEB WEITHIO

Un o ofynion yr ymchwil oedd canfod, trwy edrych ar arferion presennol, beth sydd heb fod yn gweithio wrth hyrwyddo dysgu mewn cymunedau. Mae'n amlwg o'r llenyddiaeth nad yw enghreifftiau o arferion aflwyddiannus yn cael eu hysbysu ac, mewn trafodaethau gydag ymarferwyr, mai ychydig fydd yn cyfaddef methiannau. Fodd bynnag, yn ystod yr ymchwil rydym wedi nodi nifer o enghreifftiau o 'arferion drwg'. Mae enghreifftiau ymysg yr astudiaethau achos yn cynnwys un lle gofynnwyd i grŵp cymunedol ddarparu profiad dysgu arbennig ar gyfer grŵp o gyflogeion. Daeth yn amlwg nad ymgynghorwyd â'r grŵp ynghylch y dysgu, a'u bod yn ddig o achos gorfod mynychu'r 'hyfforddiant' ac, o ganlyniad, roedd y darparwyr hyfforddiant yn cydnabod fod y profiad wedi bod yn aflwyddiannus. Mae'r ail achos yn ymwneud â chymuned ddaearyddol fach ac ynysol lle'r oedd aelodau'r grŵp cymunedol yn adnabyddus. Cynhaliwyd arolwg un-i-un o'r gymuned o ran cyfres o gyfleoedd dysgu dichonol. Nid oedd y cyrsiau a ddarparwyd o ganlyniad i'r arolwg yn llwyddiannus a dangosodd trafodaeth bellach yn y gymuned nad oedd llawer o'r rhai a holwyd wedi bod eisiau gwrthod y cyfleoedd oedd yn cael eu cynnig pan wyneb yn wyneb â chymydog.

Yn ogystal â'r enghreifftiau hyn, mae'r rhestr o arferion drwg isod yn tynnu sylw at rai o feysydd mwyaf amheus arferion cyfeiliornus neu amhriodol. Nid yw'r rhestr hon yn ceisio bod yn gatalog cynhwysfawr na chyflawn o gamgymeriadau posibl a dylid ei darllen gyda'r arferion da a nodwyd uchod mewn golwg, gan y gallwn ystyried bod arferion drwg yn gorfod bod yn groes i arferion da i raddau.

**Bydd Arferion Drwg neu Amhriodol yn bodoli lle bydd y canlynol yn wir:**

- Bod canolwyr neu weithwyr eraill heb sgiliau digonol.
- Bod gweithwyr cymunedol yn cael eu dodi mewn cymunedau nad oes ganddynt ddealltwriaeth ohonynt.
- Bod tybiaethau yn cael eu gwneud ynghylch anghenion grwpiau penodol o ddysgwyr.
- Bod yr hyn sydd mewn gwirionedd yn grwpiau amryfal yn cael eu tybio i fod yn homogenaidd (e.e. y dybiaeth fod BEM (lleiafrifoedd du ac ethnig) neu siaradwyr Cymraeg oll yn dioddef yr un mathau o anfantais neu fantais).
- Bod cofnodi annigonol o weithgareddau a llwyddiannau cyrff (heb adroddiadau).

- Bod dysgwyr yn cael eu gorfodi i ddilyn cwrs o ddysgu.
- Bod darpariaeth yn amherthnasol neu anaddas i anghenion dysgwyr a chymunedau.
- Bod darparwyr yn penderfynu anghenion dysgwyr neu gymunedau heb ymgynghori.
- Nad oes unrhyw ymgais i gymell dysgwyr.
- Nad oes unrhyw gefnogaeth barhaol i ddysgwyr.
- Nad oes hyder na pharch rhwng darparwr a dysgwyr neu gymunedau.
- Bod darpariaeth yn fyrdymor a/neu yn anghynaliadwy.
- Bod marchnata yn canolbwyntio ar bamffledi a phosteri lliwgar yn unig.
- Bod arddulliau addysgu yn anhyblyg a / neu'n anaddas i anghenion dysgwyr neu gymunedau.
- Bod anghenion arbennig dysgwyr heb gael sylw a darparu ar eu cyfer.
- Bod dyletswyddau neu bwysau teuluol ar ddysgwyr heb gael sylw na chefnogaeth.
- Bod yr amrywiol bwysau cymdeithasol ar ddysgwyr heb eu cydnabod na'u cefnogi.
- Bod darpariaeth wedi ei theilwrio o gwmpas achredu amhriodol.
- Mai achredu ffurfiol yw prif nod darpariaeth bob amser.
- Bod asesu a gwerthuso cyfoedion heb ei ddefnyddio'n ddigonol.
- Bod darparwyr yn methu ymateb i werthusiadau darpariaeth.
- Bod gwerthuso ansawdd darpariaeth yn cael ei ychwanegu ar ddiwedd cyrsiau yn hytrach na bod yn rhan annatod o ddarpariaeth.
- Nad yw staff a gwirfoddolwyr yn derbyn hyfforddiant digonol a pharhaol.
- Bod partneriaethau yn cael eu hanwybyddu.
- Bod diffyg arloesi a mentro.
- Bod diffyg cynllunio strategol.
- Bod diffyg democratiaeth yn strwythur cyrff darparu neu lle bydd darpariaeth yn cael ei gorfodi ar gymunedau o'r brig i lawr.
- Nad yw dilyniant dysgwyr yn cael ei ddilyn (er bod raid cydnabod nad yw hyn yn ymarferol nac yn ddewisol bob amser).
- Bod darpariaeth yn dyblygu gwasanaethau presennol.

# 9 CASGLIADAU AC ARGYMELL CYNLLUNIAU RHAGBROFI

Mae manyleb y prosiect yn gofyn am ddynodi “ddwy neu dair enghraifft o arferion gorau” i’w gweithredu yng Nghymru, ynghyd ag argymhellion ar ba grwpiau ddylid eu targedu a pham.

## 9.1 Dysgu yn y Gymuned

Gall y term ‘dysgu yn y gymuned’ olygu gwahanol bethau i wahanol pobl neu gyrff. Roedd yn anodd, er enghraifft, taflu goleuni ar ddiffiniad unigol ac, yn ystod y trafodaethau gweithdy bu cryn llithro o drafod dysgu yn y gymuned i ddysgu unigol. Ydi denu cymunedau i ddysgu yn golygu bod y gymuned yn cael ei denu, neu unigolion ynddi, neu’r ddau? Unigolion, wedi’r cyfan, sy’n ffurfio cymunedau. Serch hynny mae angen gwahaniaethu rhwng darpariaeth sy’n canolbwyntio ar unigolion a’r hyn sy’n pwysleisio cymunedau. Mae cymhlethdod ychwanegol o ran patrymau denu’r gymuned fel dysgu sy’n cynnwys y gymuned, a dysgu sy’n cael ei alluogi a dan arweiniad mudiad sydd ym meddiant y gymuned. Mae’r ymchwil hon yn awgrymu fod angen i ni fabwysiadu’r farn bod denu cymunedau yn berthnasol i’r unigolyn o fewn y gymuned a’r gymuned fel casgliad o unigolion.

Gan fentro gorsymleiddio, a chan gofio y bydd rhywfaint o orgyffwrdd, mae modd dweud fod dau fath sylfaenol o weithgaredd denu i ddysgu yn y gymuned yn amlwg o’r astudiaethau achos. Gall y ddarpariaeth fod dan arweiniad asiantaeth (neu bartneriaeth o asiantaethau) sydd yn bennaf oddi allan i’r gymuned ond sy’n ymgynghori â’r gymuned ac yn cysylltu â hi mewn sawl ffordd. Mae darpariaeth hefyd sy’n cael ei galluogi gan fudiadau cymunedol sydd wedi codi o’r tu mewn i’r gymuned ei hun, tra bo’r dysgu’n cael ei ddarparu’n uniongyrchol neu trwy drefniadau gydag asiantaethau allanol. Pa fath bynnag sy’n cael ei fabwysiadu, mae nifer o themâu cyffredinol yn codi o’r astudiaethau achos yn y llenyddiaeth a’r ymchwil ddesg, gan gynnwys denu unigolion neu grwpiau trwy un neu fwy o’r canlynol:

- Dysgu sy’n cysylltu â diddordebau, gweithgareddau a/neu anghenion presennol, gan gynnwys:
  - Gweithgaredd datblygu neu adfywio cymunedol
  - Gweithgaredd ymgyrchu neu wrthdystio

- Cyfleoedd datblygu economaidd / cyflogaeth
    - Prosiectau diwylliannol neu gelfyddydol
    - Prosiectau / gweithredu amgylcheddol
    - Gweithgareddau chwaraeon
    - Anghenion a buddiannau'r teulu
- Dysgu anffurfiol, gan amlaf yng nghyfnodau dechreuol denu, sy'n cael ei fynegi fel dysgu cudd neu ddysgu digwyddol
- Darparu dysgu seiliedig ar gyrsiau wedi ei dargedu ar grwpiau penodol neu anghenion dynodedig – mewn rhai achosion mae hyn ar gael yn dilyn proses ddechreuol o ennyn diddordeb darpar ddysgwyr, all gynnwys gweithgaredd dysgu anffurfiol.

Yn ôl adroddiad dros dro DEMOS ar Gyfrifon Dysgu yn y Gymuned (2002) mae Dysgu yn y Gymuned yn hanfodol wahanol i ddysgu unigol fel a ganlyn:

> "Yn gyntaf, ac yn fwyaf arwyddocaol, mae Dysgu yn y Gymuned yn gysylltiedig â 'dysgu affeithiol'. Agwedd gyfannol at ddysgu ac addysgu yw hon sy'n pwysleisio ochrau emosiynol a chymdeithasol yr hyn sydd, i lawer, yn brofiad dwys ac nid bob amser yn un hawdd. …. Mae dysgu affeithiol yn golygu datblygu ymdeimlad o hyder, hunan-barch ac amrywiaeth o sgiliau cymdeithasol a chyfathrebu. Fel y cadarnhaodd astudiaeth ddiweddar o addysg oedolion gan yr Awdurdod Cymwysterau a Chwricwlwm, y rhain yw anhepgorion dysgu mwy ffurfiol.
>
> Yn ail, dechrau ar orchwyl fel cymuned – grŵp o bobl sy'n treulio amser i gyd-drafod a chytuno ar weithgaredd pwrpasol ac unrhyw ddysgu a sgiliau sy'n llifo o hynny – gan ganiatáu i wahanol bobl gymryd rhannau gwahanol. Yn wahanol i ddysgu ffurfiol seiliedig ar y dosbarth, nid yw pawb yn ceisio dysgu'r un pethau o angenrheidrwydd.
>
> Yn drydydd, mae Dysgu yn y Gymuned 'ar gyfer y gymuned' ac, felly, mae ganddo ddiben clir, ac ehangach na dysgu am elw personol yn unig. Mae ganddo gyfres o ganlyniadau ymarferol sy'n cael eu rhannu a sy'n ddiwahân, h.y. nid oes modd eu cyfyngu er budd unrhyw unigolyn. (DEMOS 2002)

Fodd bynnag, nid yw'r farn hon ond yn cysylltu'n uniongyrchol â chategorïau 'Dysgu *ar gyfer, trwy* a *chyda'r* Gymuned' yn ôl diffiniadau Cyngor Cenedlaethol – ELWa o Ddysgu yn y Gymuned (fel sydd i'w gweld isod). Mae'n bwysig peidio â datgysylltu agwedd arall dysgu *yn* y gymuned all ddod â dysgwyr i gyfranogi yn y gymuned neu sy'n deillio o weithgaredd datblygiadol.

## 9.2 Dysgu Llwyddiannus yn y Gymuned

Wrth ystyried denu cymunedau i ddysgu, mae angen i ni feddwl am bob gwahanol fath o ddysgu all ddigwydd. Ar gyfer hyn rydym wedi dychwelyd i feysydd dysgu yn y gymuned a ddiffiniwyd ar ôl ymgynghori â darparwyr cymunedol ac a gyhoeddwyd yng Nghynllun Strategol y Cyngor Cenedlaethol - ELWa, sef:


- **Dysgu *yn* y gymuned –** dysgu sydd o fewn cyrraedd y gymuned leol, er enghraifft mewn ysgol, llyfrgell, tafarn, neuadd bentref neu gymuned;
- **Dysgu *ar gyfer* y gymuned –** dysgu sy'n cefnogi adeiladu gallu cymunedol trwy weithgareddau a luniwyd i gynorthwyo cyfalaf cymdeithasol yn ogystal â chymhwyseddau unigol;
- **Dysgu *drwy'r* gymuned –** cyfleoedd dysgu anffurfiol sy'n dod trwy gyfranogiad gwirfoddol y dysgwr mewn gweithgaredd cymunedol;
- **Dysgu *gyda'r* gymuned –** dysgu sy'n dod o'r gyfranogi mewn gweithgareddau celfyddydol, diwylliannol, chwaraeon a hamdden eraill.

Byddai'n ymddangos yn rhai o enghreifftiau gorau 'cymunedau dysg', tra gall fod pwyslais ar un neu arall o'r arddulliau dysgu uchod, bod pob un o'r 'arddulliau' dysgu yn y gymuned hyn i'w gweld. Mae hyn yn golygu bod dysgu yn diwallu anghenion dilyniant unigol ac yn hyrwyddo a chefnogi datblygiad a dilyniant y gymuned gyfan.

Mae'n ymddangos bod denu dechreuol cyfranogwyr sydd heb gymhelliad uniongyrchol i ddysgu ac nad yw dysgu yn ddewis amlwg iddynt (h.y. pobl ifanc wedi dadymafael, oedolion heb fawr ddim cymwysterau all fod wedi cael profiadau drwg yn yr ysgol, ac ati) yn cael ei gyflawni'n fwyaf llwyddiannus trwy ddysgu *trwy neu gyda* gweithgaredd cymunedol. Mae'r gweithgaredd (e.e. chwaraeon, ymgyrchu, datblygu busnes neu gynhyrchu cerddoriaeth) yn rhoi'r cymhelliad i gyfranogi, caiff anghenion dysgu eu nodi a'u diwallu i ddechrau heb i'r cyfranogwr fod yn ymwybodol o ddysgu a llwyddiant dechreuol gan ddymuno gweld cynnydd yn y gweithgaredd, a gall symud ymlaen yn

naturiol i ddysgu mwy ffurfiol. Gall grwpiau o'r fath drefnu rhagor o weithgaredd dysgu fel grŵp, neu gall pob un ddewis a symud ymlaen i'w llwybrau dysgu eu hunain.

Gall grwpiau neu unigolion a ddenwyd trwy un agwedd ar weithgaredd gael eu cymell i sefydlu arweiniad fel ymgyrch, mudiad, menter fusnes neu weithgaredd arall sydd, ei hun, yn tanio cylch arall o ddysgu.




Mae tystiolaeth yn awgrymu, lle bo'r denu gwreiddiol i ddysgu yn y gymuned yn dod trwy unigolion yn gwneud cais neu'n cofrestru'n uniongyrchol ar gwrs, eu bod fel arfer yn unigolion gyda chymhelliad i ddysgu eisoes oherwydd profiadau eraill bywyd.

Felly dylid ystyried denu fel proses ddi-dor o fewn unrhyw gymuned. Y delfryd fyddai gallu denu grwpiau neu unigolion newydd, a galluogi iddynt gynyddu o fewn y gymuned neu symud ymlaen o amgylchedd y gymuned yn y ffordd sydd fwyaf priodol iddynt. Er

mwyn cyflawni hyn mae angen i ddewis llawn o fathau o asiantaethau, mudiadau a chanolwyr fod ar gael.

**Mathau o gyrff sy'n ymwneud â galluogi cymunedau dysg:**

(Nid yw'r rhestr isod yn ddiffiniol na'r categorïau a nodwyd yn gyfyngedig am y gall cyrff gyflawni swyddogaethau gwahanol o dan amgylchiadau gwahanol.)

- Ymddiriedolaethau Datblygu, e.e. Menter Cwm Aman, Ffatri Gelfyddyd y Rhondda
- Darparwyr Dysgu:
    - Colegau
    - Mudiadau cymunedol arbenigol, e.e. Theatr Fforwm Cymru
    - SAU
    - AALl
    - Darparwyr / ymgynghorwyr hyfforddiant preifat
    - Ysgolion cymunedol, ac ati
- Darparwyr gwasanaethau eraill:
    - Darparwyr gwasanaeth iechyd
    - Darparwyr tai
    - Gwasanaethau cyflogi
    - Datblygu economaidd, ac ati
- Darparwyr adnoddau (darparu mannau cyfarfod ac offer ond heb ddarparu dysgu mewn gwirionedd)
    - Cynghorau Cymuned
    - Ysgolion (cynradd ac uwchradd)
    - Ymddiriedolaethau cymunedol
    - Busnesau lleol (e.e. tafarnau a chlybiau)
    - Llyfrgelloedd
    - Sefydliadau crefyddol, ac ati
- Cyflogwyr yn y gymuned neu gyda chysylltiad â'r gymuned
- Grwpiau gwirfoddol
    - Cylchoedd chwarae
    - Clybiau chwaraeon
    - Mudiadau ieuenctid
    - Corau / bandiau, ac ati

- Cyrff / rhwydweithiau ambarél
    - Cynghorau Gwasanaethau Gwirfoddol Sirol
        - VIAE
        - NLN
        - Prifysgol Gymunedol y Cymoedd
        - Datblygu Cymunedol Cymru
        - NIACE
        - Sefydliad Datblygu Cymunedol
        - WCVA
        - Busnes yn y Gymuned
        - CCET, ac ati

### 9.3 Patrymau denu llwyddiannus

Yn aml, craidd cymuned ddysgu lwyddiannus yw mudiad ym meddiant y gymuned ac felly wedi ei ganoli ar y gymuned. Bydd y rhain yn aml yn cyd-fynd â phatrwm ymddiriedolaethau datblygu ac maent yn ymwneud â dewis llawn o weithgareddau, y cyfan ohonynt yn gallu hyrwyddo dysgu trwy o leiaf dri os nad bob un o'r pedwar diffiniad a amlinellodd Cyngor Cenedlaethol - ELWa ar gyfer dysgu yn y gymuned. Caiff Ymddiriedolaethau Datblygu eu diffinio fel cyrff sydd: yn ymwneud ag adfywiad economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol ardal neu gymuned benodol; yn annibynnol ac yn anelu at fod yn hunangynhaliol; heb fod am elw preifat; yn seiliedig ar, ac ym meddiant, y gymuned.

Fodd bynnag, gall eu gweithgareddau sy'n cael eu cydnabod yn fwy arferol fel dysgu, h.y. cyrsiau neu raglenni darpariaeth wedi'u hasesu, bod yn ddim ond elfen fechan yn amrywiaeth llawn y gweithgareddau. O gwmpas y sefydliad hwn fyddai rhwydwaith cyfan o adnoddau eraill yn dod o restr yr asiantaethau a chyrff a amlinellwyd uchod, a phob un yn gweithio mewn partneriaeth fywiog.

I gael partneriaeth weithredol ac affeithiol mae angen i holl bartneriaid fod â dealltwriaeth glir o genhadaeth a swyddogaeth pob partner arall yn y bartneriaeth. Bydd hyn yn magu parch ac ymddiriedaeth sy'n hanfodol i sicrhau bod pob cyfranogwr yn chwarae'r rhan sydd ei hangen a bod holl fuddiannau cymunedol dichonol yn cael eu cyflawni felly.

Awgrym clir o'r ymchwil oedd fod angen bod â strwythur democrataidd ar gyfer penderfynu. Hefyd, mewn partneriaethau mwy, lle bydd gweithwyr yn cael eu cyflogi i weithio ar ran y bartneriaeth, dylai fod yn amlwg eu bod yn atebol i'r bartneriaeth gyfan.

Ym mwyafrif yr achosion, mae modd dilyn llwyddiant denu cymunedau i ddysgu mewn rhyw fodd i ymdrechion un neu fwy o unigolion ymroddedig. Maent yn aml, ond nid bob amser, yn rhan o'r gymuned, gyda rhywfaint o sgiliau arwain a gweledigaeth glir o ddatblygiad y gymuned a hwy eu hunain. Mae angen canfod, datblygu a chefnogi 'ysgogwyr' cymunedol o'r fath. Hefyd mae angen cydnabod eu sgiliau yn yr un modd ag y ceisiwn gefnogi a datblygu mentrwyr busnes. Fodd bynnag, unwaith y bydd unigolion o'r fath yn gweithredu, fe allant gael eu dosbarthu fel yn gweithredu mewn partneriaethau, neu o fewn sefydliadau, fel canolwyr. Felly mae swyddogaethau'r unigolion hyn yn cael eu cynnwys yn y patrymau sy'n cael eu trafod isod.

Fe arweiniodd y cyfan o'r ystyriaethau uchod at fynegi'r patrymau canlynol i sicrhau cyfranogiad pob un o'r chwaraewyr angenrheidiol:

**Patrwm dan Arweiniad Ymddiriedolaeth Ddatblygu**

Cyrff Datblygu Cymunedol yn cyfranogi'n weithredol gyda grwpiau diddordeb yn y gymuned ac yn tynnu i mewn yr holl bartneriaid eraill ar gyfer darpariaeth (yn yr achosion gorau yn cyfranogi mewn partneriaethau strategol a rhwydweithiau ehangach, yn rhanbarthol, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol). Mae enghreifftiau o Ymddiriedolaethau Datblygu sy'n ymddangos mewn astudiaethau achos yn yr ymchwil hon, ac eisoes yn gweithio fel hyn, yn cynnwys Menter Cwm Aman. Fodd bynnag mae rhai eraill sy'n hysbys yng Nghymru, fel Ffatri Gelfyddyd y Rhondda, Cwm a Bro, DOVE (Cyfleoedd Mentrau Gwirfoddol Dulais) Gweithdy, Canolfan Hyfforddi Glyn-nedd ac Ymddiriedolaeth Ddatblygu Ystalyfera, (dylid sylwi nad yw pob cyrff o fath ymddiriedolaeth ddatblygu yn aelod o Gymdeithas yr Ymddiriedolaethau Datblygu ond mae rhestr o ymddiriedolaethau datblygu cofrestredig i'w gweld yn http://www.dta.org.uk/)

**Patrwm Rhannu Adnoddau**

Corff gydag adnoddau a chysylltiadau, darparwr addysg yn aml, ond efallai yn gorff rhwydweithio neu gorff arall, sy'n arwain tynnu rhwydwaith o ddarparwyr a

mudiadau cymunedol ynghyd mewn cymunedau ar draws rhanbarth daearyddol. Bydd holl bartneriaid yn gweithio'n gyfartal ac yn parchu cryfderau, swyddogaethau a chyfyngiadau ei gilydd tra byddant yn defnyddio ffynhonnell arian ar y cyd ac yn rhannu gwybodaeth arbenigol, staff ac adnoddau eraill. Iddo lwyddo i ddenu cymunedau i ddysgu, mae'r patrwm hwn yn gofyn am gyfranogiad mudiadau cymunedol lleol. Bydd gweithredu'r rhwydwaith yn ehangach yn cefnogi ac yn meithrin y mudiadau cymunedol hyn, all fod eisoes yn ymddiriedolaethau datblygu neu ddod felly. Gall y patrwm alluogi gweithredu amrywiaeth o ganolwyr yn effeithlon, gan gynnwys y rhai gyda chymuned o ddiddordeb yn hytrach na chanolbwynt daearyddol. Enghreifftiau o Batrymau Rhannu Adnoddau sydd yn yr astudiaethau achos yw Partneriaethau Rhwydwaith Dysgu Newydd Castell Nedd Port Talbot a Phrifysgol Gymunedol y Cymoedd.

**Patrwm Trwy Ganolwr Arbenigol**

Bydd canolwr trefnyddol yn gyfrwng i ddechrau denu dysgwyr mewn cymuned. Gan amlaf caiff hyn ei wneud fesul prosiect i ddechrau, a gall fod â diddordeb penodol yn hytrach na chanolbwynt daearyddol. Enghreifftiau yn yr ymchwil fyddai Presgripsiynau Dysgu NIACE neu Brosiect yr Ystol. Yn y patrwm hwn bydd canolwyr medrus yn gweithio gydag unigolion a grwpiau a dargedwyd yn eu cymuned leol i gymell dysgwyr, yn aml er budd amlwg yr unigolyn yn bennaf, ond o fewn naws gymunedol ac er mantais y gymuned yn y pen draw.

## 9.4 Gweithredu patrymau llwyddiannus a chynaliadwy o ddenu cymunedau i ddysgu yng Nghymru

Gwnawn gynigion at weithredu'r tri phatrwm a nodwyd trwy gynlluniau rhagbrofol yn fuan a datblygiad tymor hwy. Am y tro, mae cyfyngiadau oherwydd nifer cymharol fach o ymddiriedolaethau datblygu a chyrff cyfryngol neu unigolion penodol yn gweithredu yng Nghymru, a'r adeiladu gallu, anghenion hyfforddiant a chefnogaeth amlwg i ddenu'r gymuned ar draws y sector addysg a hyfforddiant cyfan. Felly, rydym yn cynnig argymhellion i ddenu'r gymuned yn well a goresgyn diffyg gallu a phrinder sgiliau yn y tymor hwy.

**Gweithredu'r patrymau arfaethedig.**

Rydym yn argymell lledaenu'r arferion gorau a nodwyd yn eang i'r sector darparu a'r asiantaethau perthnasol, yn arbennig i Estyn i ysbrydoli gweithredu'r Fframwaith Archwilio Cyffredin gyda darparwyr dysgu yn y gymuned. Dylid ystyried datblygu'r arferion gorau yn arf archwilio i gefnogi hunanasesiad darparwyr cymunedol. Roedd awgrym clir oddi wrth ymarferwyr bod angen rhannu costiadau'r amrywiol batrymau o arferion da fel ag i roi gwell syniad i ymarferwyr a chyllidwyr o'r adnoddau sydd eu hangen i wneud y gwaith.

**Patrwm dan Arweiniad Ymddiriedolaeth Ddatblygu**

Er mai dim ond nifer cymharol fach o ymddiriedolaethau datblygu cymunedol gweithgar a nodwyd yng Nghymru, byddem yn awgrymu bod eu cyfranogiad mewn dysgu o bob math yn arwyddocaol. Cynigiwn fod ELWa yn cyd-drafod â hwy i ddod o hyd i'r ffordd orau i weithio gyda hwy (gan gynnwys ceisiadau rhagbrofol am gyfrifon dysgu yn y gymuned) i ariannu denu cymunedau i ddysgu.

Tra bo nifer o gyrff o fath ymddiriedolaeth ddatblygu yn gallu hyrwyddo denu cynaliadwy i ddysgu yn y gymuned yn y Cymoedd a rhan o'r De-orllewin, byddai'n ymddangos bod prinder cyrff o'r fath mewn ardaloedd eraill yng Nghymru. Byddem yn argymell gweithio trwy Gynghorau Gwirfoddol Cymunedol yn y cylchoedd hyn i nodi unrhyw ddechreuad o weithgaredd o'r fath ac ariannu canolwyr cymunedol eraill i weithio gyda'r cymunedau dynodedig hyn i gefnogi cyrff cymunedol cynaliadwy o fath ymddiriedolaeth ddatblygu fyddai'n ymddangos.

O dderbyn bod darparu addysg o fewn y mudiadau cymunedol hyn yn rhan o strategaeth datblygu cymunedol cyfannol, cynigiwn ddechrau trafodaethau gydag asiantaethau perthnasol a chyrff eraill gan gynnwys; Awdurdod Datblygu Cymru, Cyngor Cymru dros Weithredu Gwirfoddol (WCVA), Datblygu Cymunedol Cymru (CDC), Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (WLGA), Cyngor Partneriaeth y Sector Gwirfoddol a Thîm Cymunedau'n Gyntaf yn y Cynulliad Cenedlaethol i roi sylw i'r materion ehangach o gwmpas cynaladwyedd, cyllido creiddiol ac adeiladu gallu.

**Patrwm Rhannu Adnoddau**

Rydym yn argymell hyrwyddo enghreifftiau arferion gorau yn y patrwm hwn i is-bwyllgorau CCET gyda chanolbwynt ar ddysgu yn y gymuned, i hybu cydnabod hyn fel dull o weithio ar y cyd. Hefyd ailadrodd y cynnig Prosiect Ewropeaidd sy'n cefnogi'r Rhwydwaith Dysgu Newydd mewn cylchoedd eraill lle mae rhywfaint o weithgaredd lleol, cymunedol yn bodoli eisoes.

Dengys yr ymchwil y byddai hyn yn gyfyngedig ar y dechrau i Gymoedd y De, gan gynnwys y cymoedd Gorllewinol uwchben Llanelli a Chaerfyrddin. Tra'r adeiladwyd enghreifftiau presennol y patrwm hwn o gwmpas mudiadau cymunedol presennol, gellid cael datblygiad rhagbrofol mewn rhan o Gymru lle mae cyrff o'r fath yn brin. Rydym yn ymwybodol o rwydwaith eginol o ddarparwyr gwirfoddol, dan arweiniad Coleg Glannau Dyfrdwy, allai ddatblygu patrwm darpariaeth rhannu adnoddau.

Gallai'r patrwm hwn fod yn ddefnyddiol mewn cymunedau gwledig hefyd, lle gallai canolbwyntio ar gydgysylltu darpariaeth a gwneud y gorau o'r adnoddau sydd ar gael trwy adeiladu partneriaethau darparu gynorthwyo rhoi sylw i gyfyngiadau ymarferol mwynderau gwledig.

**Patrwm Trwy Ganolwr Arbenigol**

Dylid defnyddio mwy ar sgiliau a thechnegau cyrff neu unigolion cyfryngol fel Theatr Fforwm Cymru neu'r ymgynghorwyr sy'n gallu cyflwyno Hyfforddi i Drawsffurfio yng Nghymru.

Dylid cynnal prosiectau llwyddiannus fel Presgripsiynau Dysgu, Prosiect yr Ystol, ac Ar Dir Cyffredin a Phrosiect Menter Merched Coleg y Rhyl mewn ffordd gyfyngedig mewn cylchoedd eraill, mor bell ag y bydd argaeledd personél medrus yn caniatáu.

Byddem yn argymell canolbwyntio gweithredu'r patrwm hwn i ddechrau ar ardaloedd lle na welwyd fawr ddim mentrau cymunedol fel y Gogledd, y Canolbarth a rhannau o'r Gorllewin. Yna gallai'r gweithgaredd hwn fynd tuag at ddenu'r gymuned a pherchenogaeth gymunedol o'r broses ddysgu. Y farn yw y gallai canolbwynt y patrwm hwn ar gymunedau diddordeb ei wneud yn arbennig o berthnasol i gymunedau gwledig.

Tra gwelwn ddarparu cefnogaeth i ganolwyr presennol o bob math fel blaenoriaeth gyntaf, mae'n amlwg o'r ymchwil fod prinder gweithwyr proffesiynol medrus ar gael i gefnogi denu'r gymuned a chynorthwyo gyda datblygu canolwyr unigol a threfnyddol.
Felly, mae'n bwysig edrych am atebion tymor hwy i ganfod a chefnogi datblygu unrhyw ddarpar ganolwyr unigol neu drefnyddol.

**Datblygu denu cymunedol cynaliadwy dros gyfnod hwy**

Yn y pen draw mae angen i'r canolbwynt fod ar wella sgiliau a chynyddu nifer llawn y canolwyr yng Nghymru. Dylid cefnogi cydadwaith rhwng cyrff cyfryngol tuag at ffurfio gwir bartneriaethau.
Mae angen canolbwyntio'n gryf ar hyrwyddo creu canolwyr cymunedol, rhai gyda diddordebau penodol – all beidio canolbwyntio ar gymunedau daearyddol – a chyrff o fath ymddiriedolaeth ddatblygu. Rhaid gweld datblygu ymddiriedolaethau datblygu cymunedol fel nod hirdymor, gan fod angen creu cyrff o'r fath o'r tu mewn i'r gymuned, a rhywfaint o adeiladu gallu, h.y. mae angen cynnal dysgu ***ar gyfer*** y gymuned i hadu twf cyrff o'r fath. Mae peryglon difrifol yn hyn hefyd os nad oes cefnogaeth am gyfnod digon hir, trwy godi uchelgeisiau cymuned ac yna'u dryllio gan beri colli ffydd.
Mae nifer o ddulliau adeiladu gallu tymor hwy o'r fath y mae modd eu defnyddio eu hunain neu gyda'i gilydd, a dangoswyd eu bod yn effeithiol:

- **Prentisiaethau Cymunedol**

  Mae enghraifft o hyn i'w weld ym Mhrosiect yr Ystol lle bydd pobl ifanc ardal arbennig yn cael eu cyflogi fel hyfforddeion i weithio a derbyn hyfforddiant mewn gwaith cymunedol / ieuenctid. Yn ystod y broses hon byddant yn datblygu eu sgiliau eu hunain ac yn gweithio gyda phobl ifanc eraill i'w datblygu. Fodd bynnag, byddem yn argymell peidio â chyfyngu hyn i bobl ifanc a bod modd datblygu cynlluniau prentisiaeth ar gyfer gweithredwyr cymunedol o bob oed. Mae'n bosibl y gellid gwneud cysylltiadau gyda'r Fargen Newydd i gynnal datblygiadau o'r fath.

- **Hyfforddiant ar arwain**

Bydd gweithwyr cymunedol yn nodi nifer o arweinwyr / gweithredwyr cymunedol fel darpar 'Ysgogwyr Cymunedol' a gweithio gyda hwy i ganfod eu hanghenion ac anghenion y gymuned. Mae hyn yn cynnwys cyd-drafod rhaglen o hyfforddiant a datblygiad i gefnogi eu swyddogaethau yn y gymuned (e.e. Hyfforddi i Drawsffurfio).

- **Dull Datblygu Cymunedol**

Bydd gweithwyr cymunedol yn cysylltu â gweithredwyr cymunedol, clybiau, grwpiau gwirfoddol a chyrff eraill sy'n bresennol yn y gymuned i fapio'r gymuned a chynnal gwerthuso cyfranogol o anghenion ac uchelgeisiau. Yna byddai'r rhain yn sail i ddatblygiad gyda chefnogaeth a gweithgaredd dysgu wedi ei gyd-drafod. Y canlyniadau a fwriadwyd fyddai canfod a chefnogi arweinwyr cymunedol a phrosiectau datblygiadol tuag at sefydlu gweithgareddau cymunedol economaidd, cymdeithasol neu ddiwylliannol. (Patrwm datblygu cymunedol clasurol a thebyg i ddechreuad llawer o ymddiriedolaethau datblygu presennol a nodwyd yn yr adroddiad hwn.)

Gall y dulliau hyn o weithio i sefydlu strwythurau cymunedol, er yn hirdymor, gynorthwyo i sicrhau *datblygiad cymunedol a phatrymau dysgu cynaliadwy.* Fodd bynnag, dylid sylwi, os yw unrhyw un o'r dulliau hyn i fod yn llwyddiannus, bod angen llawer iawn o gefnogaeth a gwybodaeth arbenigol gan weithwyr proffesiynol i ddatblygu a hyfforddi unigolion a mudiadau. Felly, nid oes modd eu 'taenu' ar hyd a lled Cymru'n gyffredinol gan nad oes digon o weithwyr proffesiynol / mudiadau mewn bodolaeth i gefnogi cymaint o waith. Felly, ein hargymhelliad yw y dylid hyrwyddo'r dulliau hyn ble bynnag y bo modd, ond *rhaid* bod wedi sicrhau digon o gefnogaeth fedrus.

Mae angen dybryd i ddarparu amrywiaeth o lwybrau hyfforddi gweithwyr cymunedol proffesiynol. Dylid datblygu rhaglenni astudio llawn-amser ac amrywiaeth o ddarpariaeth hyblyg, yn gysylltiedig â chyfleoedd dysgu ar-lein, o bell a seiliedig ar waith. O'u dechrau, gallai rhaglenni gynhyrchu gweithwyr cymunedol cymwysedig o fewn dwy flynedd i gynorthwyo gyda lliniaru'r prinder sgiliau sy'n amlwg ar hyn o bryd. Byddai datblygu darpariaeth o'r fath yn chwim yn golygu cysylltu gydag asiantaethau eraill,

Uned Cymunedau'n Gyntaf, Datblygu Cymunedol Cymru a'r Sector Gwirfoddol a chyrff hyfforddi perthnasol eraill.

**9.5 Dewis Cymunedau Targed**

Awgrymwyd y mannau mwyaf priodol i ragbrofi'r patrymau a amlinellwyd yn yr adran sy'n trafod pob patrwm.

Nid oes unrhyw amheuaeth na yw'n bwysig canolbwyntio gweithgaredd ar ardaloedd lle mae'r amddifadedd mwyaf.  Fodd bynnag, mae hefyd yn amlwg bod y cyfan o'r patrymau denu llwyddiannus yn gofyn am fodolaeth canolwyr medrus. Byddem yn argymell bod Cyngor Cenedlaethol - ELWa yn canolbwyntio adnoddau am y tro ar ardaloedd lle mae canolwyr o'r fath yn bodoli.  Mae llawer yng Nghymoedd y De gyda nifer bach wedi mewn ardaloedd eraill yng Nghymru a rhai canolwyr arbenigol sy'n gallu gweithredu ar hyd a lled Cymru. Dylid ysgogi strategaeth tymor hwy sydd angen cysylltu ag asiantaethau a chyrff sy'n ymwneud ag adfywio a datblygu cymunedol a sy'n gallu cysylltu â datblygiadau Cymunedau'n Gyntaf. Dylai hyn geisio defnyddio technegau datblygu cymunedol i hyrwyddo dyfodiad sefydliadau canoli arbenigol ym meddiant y gymuned.

Ar hyn o bryd mae pwyslais trwm ar ardaloedd Cymunedau'n Gyntaf a chlustnodwyd cyllid er hyrwyddo datblygu ac adfywio cymunedol yn y cylchoedd hyn eisoes.  Tra bo argymhellion ac amlinelliadau o arferion llwyddiannus denu cymunedau i ddysgu yn berthnasol i – ac efallai'n cael eu defnyddio gan – y cynllun Cymunedau'n Gyntaf, byddem yn awgrymu peidio â chyfyngu cynlluniau rhagbrofi i ardaloedd Cymunedau'n Gyntaf. Mae'r ymchwil yn nodi nifer o faterion o gwmpas Cymunedau'n Gyntaf allai gyfyngu ar ddatblygu patrymau denu cymunedau i ddysgu, yn cynnwys; y wardiau lleol iawn sy'n gymwys ar gyfer Cymunedau'n Gyntaf a datblygu araf Partneriaethau Cymunedau'n Gyntaf.

Byddem hefyd yn argymell y gellid defnyddio Cyfrifon Dysgu yn y Gymuned i dalu am gynlluniau rhagbrofi mewn ardaloedd heblaw Cymunedau'n Gyntaf. Dylid dewis y rhain i ddechrau ar sail bodolaeth canolwr cymunedol priodol neu gorff o fath ymddiriedolaeth ddatblygu.  Y sail resymegol i hyn, yn syml, yw y dangoswyd mai corff cymunedol gyda'r wybodaeth arbenigol berthnasol ac adnoddau sydd wedi sefydlu sydd fwyaf effeithiol o

ran promoting engagement. hyrwyddo denu. Dengys diagram y cylch denu cymunedol (tudalen 81) y bydd denu dechreuol ar sail cymuned sefydlog yn deillio mentrau pellach sy'n hyrwyddo denu i ddysgu. Gall y canlyniad weld effaith pelen eira yn lledaenu o'r gymuned wreiddiol i ddenu grwpiau a chyfranogwyr eraill. Dros gyfnod bydd yn hefyd yn cyrraedd yn ddyfnach i'r gymuned, gan hyrwyddo denu fwyfwy unigolion wedi dadymafael ymhell.

Lle mae'n ymddangos bod diffyg grwpiau cymunedol sefydlog (er enghraifft yn y Gogledd a'r Canolbarth) byddem yn argymell bod gwaith yn cael ei wneud mewn cysylltiad ag asiantaethau eraill gan ddefnyddio Cynghorau Gwasanaethau Gwirfoddol Sirol (CVC), sef y cyrff mwyaf tebygol o fod mewn cysylltiad â grwpiau eginol allai ffurfio dechreuad ymddiriedolaeth ddatblygu neu grŵp canolwyr arbenigol. Bydd defnyddio dull datblygu cymunedol, sy'n ceisio gweithio gyda'r arweinwyr / ysgogwyr cymunedol i sefydlu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o faterion ac anghenion er mwyn rhoi grym i'r gymuned – a sefydlu mentrau gyda chyfranogiad llawn cyfranogwyr – angen rhywfaint o wybodaeth arbenigol. Gellid talu am ganolwyr llwyddiannus fel Coleg Cymunedol y Rhyl neu Theatr Fforwm Cymru i weithio gyda grwpiau eginol o'r fath ochr yn ochr â chefnogaeth eu CVC lleol a chyrff ambarél fel Datblygu Cymunedol Cymru.

# ATODIAD 1: ASTUDIAETHAU ACHOS YN DEILLIO O YMCHWIL DDESG

## 1.1 CYNGOR HENOED MORGANNWG: PROSIECT TGCh

**Braslun o'r Darparwr**

Elusen yw'r Cyngor Henoed sy'n cyflogi staff o dri ar y prosiect TG hwn (1 llawn-amser, 2 rhan-amser) gyda rhyw 20 o wirfoddolwyr. Caiff y prosiect TG ei gynnal ar y cyd â Phrifysgol Morgannwg, trwy gytundeb gwasanaeth gyda Chanolfan Dysgu Gydol Oes. Ers dechrau'r prosiect ym mis Hydref 2000 aeth rhagor na 650 o fyfyrwyr drwy'r prosiect.

**Partneriaethau**

Canolfan Dysgu Gydol Oes, Prifysgol Morgannwg, Gwasanaeth Llyfrgelloedd Rhondda Cynon Taf a Phen-y-bont ar Ogwr, Tîm Anabledd y Gwasanaeth Cyflogi, Y Fargen Newydd 50+, Gwasanaethau Cymunedau'n Gyntaf a Chyfarwyddo Oedolion Treherbert.

**Grwp Targed**

Pobl 50 oed neu hŷn (Mae'r Cyngor Henoed yn ystyried gostwng yr oed isaf)

**Proffil Dysgwyr**

Mae mwy o ddynion na merched yn cymryd rhan er bod mwy o ferched na dynion yn y cyfnodau cynnar. Caiff asesiad o fyfyrwyr – sy'n cynnwys materion fel hanesion dysgu a materion iechyd – ei gynnal ar ddechrau cyrsiau, a daw myfyrwyr o gefndiroedd amrywiol iawn. Mae'r rhan fwyaf wedi ymddeol, ond mae rhai'n ddi-waith neu ar fudd-dal analluogrwydd a bydd y ganolfan waith yn cyfeirio. Yr unig wybodaeth ar gadw ynghylch y dysgwyr yw eu rhyw, os ydynt o dan neu dros 65 ac unrhyw anableddau.

**Math o Ddarpariaeth**

Tiwtorialau cyfeiriedig am 10 wythnos mewn mannau cyfarfod lleol yn cynnig cyflwyniad i Brosesu Geiriau / Defnyddio'r Rhyngrwyd. Mae grwpiau tiwtorial yn fach, rhwng 3 a 7. Tiwtoriaid cymwysedig sy'n rhedeg y cyrsiau ac mae deunydd cwrs yn cael ei ddatblygu wedi ei dargedu ar bobl dros 50 oed. Mae'r Cyngor Henoed hefyd yn darparu hyfforddiant sefydlu i wirfoddolwyr ar hyfforddi tiwtoriaid. Caiff hyfforddiant ei gynnig hefyd i fyfyrwyr â nam ar y golwg ac, o ganlyniad, ychwanegwyd meddalwedd *Dolphin*Tm i wasanaethau llyfrgelloedd fel bod holl grwpiau oedran ac unigolion â nam ar y golwg yn gallu defnyddio cyfrifiaduron yn eu llyfrgelloedd lleol. Mae'r prosiect TGCh yn ymatebol

iawn i'w ddysgwyr a'r gymuned gyfan. Gall myfyrwyr, staff a gwirfoddolwyr oll wneud awgrymiadau yn ystod y cyrsiau gyda modd ymgorffori'r rhain yn y cwrs yn gyflym. Mae darpariaeth hefyd ar gyfer ceisiadau o'r gymuned am hyfforddiant arbennig pan fo modd. Caiff y cyrsiau i gyd eu cynnal drwy'r Saesneg.

Yn ogystal, mae'r Cyngor Henoed yn darparu profiad gwaith i raddedigion ym Mhrifysgol Morgannwg (trwy Cymru'n Ffynnu). Yn fwyaf diweddar cafodd myfyriwr â nam ar ei olwg, oedd â diffyg hyder yn ei alluoedd ar y dechrau, gyflogaeth lawn-amser ar ôl ei leoli trwy ymdrechion y Cyngor Henoed mewn partneriaeth gyda RNIB (Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol y Deillion) a Gwasanaethau Anabledd.
Cynorthwyodd un o'r graddedigion blaenorol hefyd gyda dylunio'r wefan.

**Math o ddysgu yn y gymuned**

Caiff pob math o ddysgu yn y gymuned ei ddarparu. Er enghraifft, caiff dysgu *yn* y gymuned ei gyflawni trwy gyflwyno sgiliau TGCh mewn llyfrgelloedd, canolfannau cymunedol, canolfannau addysg oedolion (ond nid yn yr ystafelloedd cyfrifiaduron ffurfiol) ac yng nghanolfan ddysgu'r Cyngor Henoed. Bydd addysgu hefyd yn digwydd yng nghartrefi pobl sydd ag anawsterau symud difrifol. Daw dysgu *ar gyfer* y gymuned allan o waith y Cyngor Henoed gyda Sefydliad y Merched lleol i hyfforddi eu haelodau i anfon a derbyn e-bost (gydag ymgysylltiadau) fel bod cylchredeg gwybodaeth yn llawer mwy effeithiol. Erbyn hyn bydd dysgwyr gyda pherthnasau a chyfeillion dramor yn cadw cysylltiad mwy rheolaidd gyda'u gilydd trwy ddefnyddio e-bost. Mae dysgu *drwy'r* gymuned yn agwedd ar y prosiect TGCh, er enghraifft bydd myfyrwyr sydd wedi dysgu gyda'r Cyngor Henoed yna'n defnyddio eu sgiliau i gynorthwyo eraill ddysgu sgiliau TGCh. Bydd y Cyngor Henoed yn hyfforddi tiwtoriaid gwirfoddol i ddysgu pobl mewn mannau cyfarfod cymunedol. Bydd un cyn-fyfyriwr yn ymweld ag ysgol gynradd leol i gynorthwyo plant anfon e-bost at gyfeillion gohebol mewn ysgolion yn Awstralia. Mae dysgu *gyda'r* gymuned yn amlwg yn y ffordd mae dysgwyr wedi defnyddio eu sgiliau newydd i ffurfio eu grwpiau dysgu anffurfiol eu hunain mewn llyfrgelloedd; mae ymchwilio hanes y teulu yn boblogaidd iawn gan barhau dysgu mewn ffordd anffurfiol.

**Achredu**

Caiff tystysgrif bresenoldeb ei dyfarnu i fyfyrwyr, ond nid oes unrhyw achredu'n cael ei gynnig ar y cwrs, a chaiff myfyrwyr eu hannog i weithio ar eu cyflymder eu hunain.

Mae'r Cyngor Henoed dan rywfaint o bwysau i ddechrau achredu, er bod ymgynghori llafar â chyfranogwyr presennol yn awgrymu gwrthwynebiad cryf i achredu. Fodd bynnag, y teimlad yw bod dyfarnu'r dystysgrif bresenoldeb yn hybu hyder ac mae'r Cyngor Henoed ar hyn o bryd yn ymchwilio dulliau o achredu mewn ffordd anfygythiol.

**Mannau Cyfarfod**

Mae'n hanfodol bod y lleoliad yn anfygythiol, cysurus ac wrth law, a bydd addysgu yn digwydd mewn llyfrgelloedd. Mae gan Gyngor Henoed Morgannwg ei ganolfan hyfforddi ei hun hefyd yn Nhonypandy.

**Dilyniant**

- Cafodd 5 gwirfoddolwr waith trwy gyngor a chyfarwyddyd a gynigiodd y prosiect.
- Aeth 80 o fyfyrwyr ymlaen i gyrsiau achrededig
- Defnyddiwyd sgiliau mewn amrywiaeth o gymdeithasau a mudiadau gwirfoddol
- Cynigiwyd hyfforddiant tiwtoriaid / Cyfle Cyfartal i 50 o wirfoddolwyr. Mae hyfforddiant tiwtoriaid i FETC 1. (Caiff pob ymdrech ei gwneud i ddenu tiwtoriaid o'r tu mewn; mae hwn yn bwysig iawn gan fod dysgwyr yn dweud eu bod eisiau dysgu o fewn eu grŵp cyfoedion eu hunain a bod myfyrwyr iau yn tarfu arnynt.)

**Mesur Llwyddiant: Canlyniadau a Llwyddiannau**

- Ailhyfforddi ar gyfer sgiliau newydd a chreu swyddi i bobl dros 50 oed. Daw Cynghorwyr Cyfarwyddo Oedolion o'r Gwasanaeth Gyrfaoedd cyn i'r cyrsiau ddod i ben i roi cyngor ar ddilyniant.
- Cynhwysiad cymdeithasol a chyfranogiad pobl dros 50 oed – mae'r y prosiect yn annog pobl hŷn i gyfranogi yn y gymuned trwy gynorthwyo cleientiaid gadw mewn cysylltiad â theulu a chyfeillion trwy e-bost, eu cynorthwyo i brynu cyfrifiadur, i ddefnyddio'r rhyngrwyd ac ati.
- mae hyfforddiant TGCh hefyd yn hwyluso dysgu teuluol pwysig trwy alluogi teidiau a neiniau gynorthwyo wyrion ac wyresau ddefnyddio cyfrifiaduron.
- Adeiladu hunan-barch a chynyddu hyder – mae hyn yn rhan fawr o'r cwrs a bu llawer o'r dysgwyr allan o addysg ers llawer blwyddyn, ers degawdau hyd yn oed.
- Daw pobl yn fwy siaradus, gan ryngweithio mwy gydag eraill, datblygu sgiliau cymdeithasol, gwneud cyfeillion a gwrthsefyll yr unigedd sy'n gallu bod yn nodwedd sy'n gallu nychu cymaint yn hwyr mewn bywyd.

- Mae'n annog mentrau unigol, e.e. arlunydd yn gwerthu ei waith drwy'r Rhyngrwyd.

**Gwerthuso Darpariaeth**

Am nad oes unrhyw achredu ffurfiol, mae'r rhan fwyaf o'r canlyniadau cadarnhaol yn 'feddal' (gwelwch uchod) ac, fel y cyfryw yn cael eu mesur gan y tiwtoriaid eu hunain. Bydd holl fyfyrwyr yn llenwi 'holiadur ymadael'. Mae hyn yn cynorthwyo cadw golwg ar safonau addysgu, ansawdd deunyddiau dysgu, addasrwydd mannau cyfarfod ac offer ac addasu deunydd a chynnwys y cwrs yn gyflym.

**Denu dysgwyr**

Ar y dechrau denwyd dysgwyr trwy ddatganiadau i'r wasg a phosteri ond, ers dechrau'r ddosbarthiadau ddwy flynedd yn ôl, bu cymeradwyo ar lafar yn fwy na digono ac, erbyn hyn, mae rhestrau aros am y cyrsiau. Mae'r grŵp hwn o ddysgwyr yn frwdfrydig iawn.

**Rhwystrau i ddysgu**

Caiff maint dosbarthiadau a chyllid eu hystyried fel y rhwystrau mwyaf sylweddol i ddysgu. Nid yw cludiant yn fater o bwys trwy gynnal dosbarthiadau mewn mannau cyfarfod lleol a bydd tiwtoriaid yn ymweld â'r ansymudol yn eu cartrefi eu hunain.

**Ariannu**

Cytundeb Lefel Gwasanaethu gyda Phrifysgol Morgannwg, ESF

**Sgiliau Sylfaenol**

Mae modd addasu'r cwrs i oresgyn problemau llythrennedd

**Anghenion Arbennig**

Mae gan oddeutu 30% o fyfyrwyr afiechydon a/neu anableddau gyda darpariaeth ar eu cyfer, (e.e. cyflwynwyd offer arbennig i'r rhannol ddall).

**Cymunedau'n Gyntaf**

Mae ardaloedd Cymunedau'n Gyntaf yn rhanbarth Cyngor Henoed Morgannwg, ac mae'r corff yn cyflogi Swyddog Datblygu i gysylltu â'r cymunedau hyn er mwyn ystyried cynrychioli anghenion pobl hŷn.

## 1.2 RHWYDWAITH SECTOR GWIRFODDOL DU

**Braslun o'r Darparwr / Hyrwyddwr**

Elusen yw Rhwydwaith Sector Gwirfoddol Du Cymru (BVSNW). Mae'n uchafbwynt dros ddeng mlynedd o waith grŵp bach gwreiddiol o weithwyr cymunedol yn ymroddi i nod cyfunol sefydlu llais cydnabyddedig o fewn y sector gwirfoddol i gynrychioli sylwadau Pobl Dduon ac Ethnig Lleiafrifol (BEM) ar faterion sydd o bwys iddynt. Yn 1993 sefydlwyd y BVSNW i weithio tuag at ddatblygu Strategaeth Sector Gwirfoddol Du. Erbyn hyn mae'n cyflogi saith o staff.

**Partneriaethau**

Bydd BVSNW yn gweithio gydag amrywiaeth o wahanol bartneriaid sy'n cyflwyno dysgu yng Nghymru yn ogystal â hyrwyddo darpariaeth cyrff eraill, gan gynnwys

- dros 15 o bartneriaid ar SWITCH (gan gynnwys MEWN Cymru)
- Corff Hyfforddi Cenedlaethol Cyfiawnder Cymunedol ar y Prosiect *Reach* a sefydlwyd i – gynyddu ffydd a hyder rhwng y cymunedau ethnig du a lleiafrifol gwasanaethau'r Swyddfa Gartref yn y De, ac i annog, cynorthwyo a chefnogi pobl ethnig leiafrifol gyda'r drefn ymgeisio a chyflogaeth yng Ngwasanaethau'r Swyddfa Gartref. Caiff y rhain eu dynodi fel Heddluoedd, Ardaloedd Prawf a Cyrff Gwirfoddol Cyfiawnder Cymunedol. Mae'r Prosiect yn cwmpasu'r De o Lanelli i Gasnewydd.
- Rhwydwaith Ieuenctid Du Caerdydd (CBYN)

**Grŵp Targed**

Lleiafrifoedd du ac ethnig ar hyd a lled Cymru.

**Darpariaeth**

Bwriad BVSNW yw hwyluso gwaith y sector gwirfoddol BEM, rhannu gwybodaeth ac ati. Cynghori ar faterion cyllido yw un o brif swyddogaethau BVSNW ac mae ganddo swyddogaeth hefyd fel darparwr dysgu yn y gymuned. Mae'n bartner yn SWITCH sy'n cyflwyno dysgu, cefnogaeth a chyngor drwy'r rhyngrwyd a thrwy fannau cyfarfod cymunedol lleol. Bydd SWITCH yn darparu cyrsiau byr ar TG a sgiliau sylfaenol, yn ogystal â gwella rhagolygon gwaith a rhoi cyngor ar hyfforddiant. Bydd hefyd yn cynghori ar fudd-daliadau, materion cyfreithiol, tai, mewnfudo, delio â chyrff fel y Cyngor, Mae

pwyslais ar alluogi cymunedau i gynorthwyo eu hunain, felly bydd gwirfoddolwyr yn cael eu hyfforddi gan SWITCH.

**Nodau**

Codi ymwybyddiaeth o anghenion y Sector Gwirfoddol a Chymunedau Duon

Adeiladu gallu'r Sector Gwirfoddol Du.

Gwella gobeithion cyflogaeth BEM

Hyrwyddo cyrchu gwasanaethau BEM

**Darpariaeth ESOL**

Mae mynediad da i hwn yn gyffredinol

**Rhwystrau**

Economeg ardal yw'r nodwedd fwyaf arwyddocaol wrth benderfynu pa rwystrau fydd yn wynebu dysgwyr. Fodd bynnag, bydd cyflwr pobl pan fyddant yn cyrraedd y wlad yma, e.e. pa sgiliau ac adnoddau sydd ganddynt eisoes, yn penderfynu faint o gefnogaeth sydd arnynt ei hangen / rhwystrau sy'n eu hwynebu.

**Ariannu**

Cefnogaeth y Swyddfa Gartref,

Y Cynulliad Cenedlaethol

**Sgiliau Sylfaenol**

Caiff y rhain eu darparu trwy SWITCH (gwelwch uchod).

**Cymunedau'n Gyntaf**

Dim effaith gadarnhaol weladwy yn ardal Caerdydd / Casnewydd.

## 1.3 RHWYDWAITH MERCHED LLEIAFRIFOEDD ETHNIG (MEWN) CYMRU

**Braslun o'r Darparwr**

Elusen gofrestredig yw Rhwydwaith Merched Lleiafrifoedd Ethnig (MEWN) Cymru sydd â changhennau yn Abertawe, Caerdydd a'r Fro, Casnewydd a'r Gogledd.

**Nodau ac Amcanion / Darpariaeth**

Nod MEWN Cymru yw chwalu rhwystrau i gyfle a galluogi merched i gyfranogi'n llawn mewn bywyd cyhoeddus a chymunedol, gan gynnwys busnes a menter. Mae MEWN Cymru yn bwriadu cyflawni ei nodau mewn ffyrdd gwahanol: trwy waith mewn hyfforddiant a gofal plant, trwy rannu gwybodaeth a rhwydweithio, trwy gynorthwyo merched gymryd rhan mewn bywyd cyhoeddus a chymunedol gan gynnwys busnes a menter, a thrwy hysbysu a dylanwadu ar lunwyr polisïau, a thrwy ddarparu nifer o wasanaethau di-dâl:

- Cefnogaeth i ferched sydd am herio rhwystrau i fywyd cyhoeddus a chymunedol trwy fentrau / prosiectau gyda chefnogaeth cangen.
- Cyfleoedd i rwydweithio, ysbrydoli a dylanwadu ar lunwyr polisïau mewn asiantaethau statudol, sector cyhoeddus a phreifat ar faterion y teimlant y cawsant eu cau allan ohonynt.
- Cefnogaeth Cyfeirio i ferched a merched ifanc du a lleiafrifol ethnig.
- Gwaith estyn braich yn anelu at roi grym i'r grwpiau sydd fwyaf dan anfantais.
- Darparu gwybodaeth trwy wefan a llythyr newyddion misol.
- Amgylchedd dysgu 'diogel' ar gyfer merched yn unig.
- Cyfleoedd profiad gwaith.
- Cefnogi merched ifanc trwy glwb gwaith cartref.
- Gweithgareddau hamdden a datblygiad personol.
- Gwasanaeth galw heibio Dydd Llun - Ddydd Gwener 11-3.

Mae rhwydwaith y Gogledd hefyd yn rhoi sylw i rai materion penodol i'r rhanbarth

- Unigedd merched duon sy'n byw yn y Gogledd.
- Ymchwil i faterion iechyd yn y Gogledd.
- Cyrraedd merched duon all fod yn rhan o sîn Prifysgol Cymru, Bangor.

- Merched yn dychwelyd i weithio a sydd, ar waethaf cymwysterau addysgol rhagorol, yn gorfod cymryd gwaith ar gyflog isel.

Mae MEWN Cymru hefyd wedi cyhoeddi a dosbarthu adroddiadau a thaflenni newyddion misol. Fel hyn codwyd mwy o ymwybyddiaeth ynghylch anghenion merched ethnig lleiafrifol yng Nghymru.

Bydd MEWN Cymru hefyd yn darparu hyfforddiant i waith fel sgiliau cyfrifiadurol sylfaenol a sgiliau swyddfa, a dosbarthiadau Saesneg a mamiaith. Gall fod rhywfaint o gymorth gyda gofal plant ar gael i ferched sy’n dilyn y cyrsiau. Bydd y dosbarthiadau hyn yn caniatáu i ferched fyddai fel arall yn wynebu rhwystrau diwylliannol gael mynediad i ddarpariaeth addysg brif ffrwd.

**Achredu**

Caiff dysgu anffurfiol ac achrededig ei ddarparu.

**Rhwystrau i ddysgu a chyrchu gwasanaethau ehangach**

**Gwybodaeth gefndirol:**

- Mae merched du a lleiafrifol ethnig ddwywaith mwy tebygol na merched gwyn o fod yn ddi-waith (yn l991, 13.1% o’i gymharu â 6.6% ar gyfer merched gwyn) ac i gael profiad o dlodi ac allgáu cymdeithasol.
- Mae cyfranogiad merched du a lleiafrifol ethnig yn y gweithlu yn is yng Nghymru na chyfradd gyfranogi merched lleiafrifol ethnig ar gyfartaledd ym Mhrydain gyfan – 45.8% dros Gymru, o’i gymharu â 57.56% dros Brydain.
- Mae cyfradd gweithgaredd economaidd merched o grwpiau ethnig lleiafrifol yn llawer is na merched gwyn – 65.7% o’i gymharu â 48.2%.
- Lle bydd merched lleiafrifol ethnig yn economaidd anweithredol, maent yn aml ar wahân, yn unig, yn methu cyfranogi yn yr arweiniadau hyfforddiant / addysg nac yn y gymuned oherwydd gofal plant a/neu anawsterau ieithyddol, diffyg hyder neu ddisgwyliadau diwylliannol.

**Mae rhwystrau'n cynnwys**

- Rhwystrau hysbysrwydd a gwybodaeth – nid yw pobl hŷn yn gwybod beth sydd ar gael iddynt ac mae darparwyr yn credu 'gan nad oes pobl dduon hŷn yn ymddangos yn ein gwasanaethau, nid ydynt eu hangen'.
- Rhwystrau cyfathrebu – nid yw pob grŵp yn profi hyn ond, i leiafrifoedd nad yw eu hiaith gyntaf yn Saesneg, mae methu cyfathrebu yn dwysau'r rhwystrau gwybodaeth a hygyrchedd.
- Rhwystrau mynediad
- Rhwystr priodoldeb a rhif
- Rhwystrau diwylliannol
- Hiliaeth sefydliadol a stereoteipio negyddol
- Gall Ceiswyr Lloches a Ffoaduriaid fod â materion penodol i ymdopi â hwy, fel hanes o gam-drin

**Ariannu**

Cyllido creiddiol o'r Gronfa Gymunedol am dair blynedd (Hydref 2000 – Medi 2003).
Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi rhoi 'Grant Hyrwyddo Cydraddoldeb' i MEWN Cymru sy'n anelu at ddarparu hyfforddiant a chefnogaeth TG i ferched a merched ifanc lleiafrifol ethnig trwy MEWN Cymru.

## 1.4 RHWYDWAITH DYSGU NEWYDD CASTELL NEDD PORT TALBOT (NPT)

**Braslun o'r Darparwr**

Partneriaeth yw Rhwydwaith Dysgu Newydd (NLN) NPT rhwng y sectorau statudol, cyhoeddus, gwirfoddol a chymunedol.

**Partneriaethau**

16 Partneriaeth Ariannu, gyda 13 Partner Cysylltiol ychwanegol, 5 Ysgol Gyfun a 7 Ysgol Gynradd. Mae partneriaid yn cynnwys

- Partneriaethau Cymuned yn Gyntaf
- Gwasanaethau Gwybodaeth a Chyngor, e.e. Cymorth i Ferched a CAB
- Darparwyr a Chyllidwyr Dysgu
- Ymarferwyr Dysgu
- Cyrff Cefnogi, e.e. Cymdeithasau Tai, Undebau Llafur
- Cyrff Statudol, e.e. ELWa, Canolfan Gwaith a Mwy, Gwasanaeth Llyfrgelloedd.

Mae partneriaethau'n hanfodol i'r prosiect, gydag adeiladu a chynnal y Bartneriaeth yn broses ddysgu barhaol. Mae NLN yn cydnabod ei bod yn bwysig peidio amcangyfrif yn rhy isel yr amser a'r adnoddau sydd eu hangen i wneud gwaith ar y cyd ac i sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei rhannu. Bydd NLN yn ymdrechu i sicrhau bod llais cyfartal gan holl bartneriaid o fewn rhwydwaith lle gall maint a chyfraniad gwahanol bartneriaid amrywio'n sylweddol.

**Grŵp Targed / Proffil Dysgwyr**

Trigolion ôl-16 Bwrdeistref Sirol Castell Nedd Port Talbot. Pennwyd targedau i gynnwys gwahanol grwpiau, wedi eu dosbarthu yn ôl statws cyflogaeth, rhyw, oed, anabledd, ethnigrwydd a grwpiau wedi eu heithrio'n gymdeithasol, gan gynnwys y digartref, rhieni unigol a cheiswyr lloches. I gael gwir ffigurau hyd yma gwelwch yr ystadegau isod.

**Nodau'r Prosiect / Math o Ddarpariaeth**

Mae NLN yn brosiect 10 mlynedd sy'n adeiladu ar ddarpariaeth bresennol ac mae'n defnyddio seiliau sefydlog fel sbardunau. Mae Cyfnod Un y prosiect yn canolbwyntio ar addysg gymunedol ôl-16. Mae'n anelu at gymhwyso 6000 o bobl gyda mwy o hunanhyder, gwell rhifedd, llythrennedd, sgiliau gwybodaeth a chyfathrebu, yn ogystal â gwella eu sgiliau cyflogaeth perthnasol. Rhannwyd Bwrdeistref Sirol NPT yn 14 Ardal

Cynllunio Bro (LPA) ac ymhob LPA mae NLN yn datblygu Canolfan Gweithredu Lleol (LAC). Bydd y LAC yn rhoi canolbwyntiau i gyflwyno cyfleoedd dysgu gydol oes ynghyd â chefnogaeth i fyfyrwyr aeddfed. Yn ddelfrydol, pobl leol sy'n datblygu a rheoli LAC gyda NLN yn darparu cysylltiadau a chefnogaeth.

Bydd pob LAC:

- gyda chyfleusterau TGCh diweddaraf
- yn cynnig lle i wasanaethau asiantaethau cefnogi
- yn cynnig mynediad i ofal plant / dibynyddion
- bod â staff cymwysedig i Cyfnod 1 Cyfarwyddo Oedolion o leiaf
- yn cynnal, neu â mynediad i, amrywiaeth o adnoddau dysgu
- yn gweithredu oriau hyblyg gan gynnwys nosweithiau, penwythnosau a gwyliau ysgol
- gydag adnoddau a chyfarpar i gyflwyno rhaglen allanol yn y LPA
- gydag adnoddau a chyfarpar fel canolfan reoli dysgu lleol
- yndarparu llefydd ar gyfer cymdeithasu a lluniaeth
- bod o fewn cyrraedd pawb heb ystyried gallu

Bydd LAC yn datblygu darpariaeth addysg oedolion ac yn ei rheoli'n lleol yn eu hardal yn ôl anghenion lleol. Lle bo angen byddant yn datblygu a rheoli darpariaeth allanol mewn is-ganolfannau i sicrhau mynediad lleol. Mae LAC yn gweithio tuag at ddarparu 'siop un alwad' ar gyfer:

- Cyfarwyddo a Chyfeirio
- Hyfforddi a Dysgu
- Cyngor i Fusnes
- Gofal Plant a Dibynyddion
- Addysg Iechyd
- Prosiectau Cymunedol

ac yn ganolfan reoli ar gyfer:

- Datblygu cyfleoedd dysgu lleol
- Gwella gallu hyfforddwyr

- Cefnogi menter gymunedol a datblygu cymunedol gan sicrhau mynediad lleol i adnoddau dysgu

Yn y tymor hwy (ond oddi allan i delerau cymorth ariannol Amcan 1) y disgwyl yw y bydd LAC yn datblygu darpariaeth arall, priodol i'w cymunedau, allai gynnwys:

- Gofal tu allan i oriau ysgol a chyfleusterau dysgu ar ôl ysgol
- Cysylltiadau i'r arweiniad Hŷn a mwy Beiddgar
- Prosiectau Addysg Iechyd
- Arweiniadau menter gymunedol

Mae rhai rhaglenni dysgu teuluol yn bodoli. Bydd y rhain yn cael eu datblygu ymhellach yng nghyfnod 2.

**Ffurfiau Dysgu yn y Gymuned / Achredu**

O fewn prosiect mor fawr, caiff pob math o ddysgu ei gyflawni a bydd llwybrau achredu yn amrywio. Mae pwyslais amlwg ar ganlyniadau meddal. Er enghraifft y cynllun codi hyder 'O'r Diawl i'r Difa' sy'n cynnwys gweddnewidiad – i ferched ochr yn ochr â dysgu, gwell sgiliau cyflwyno a chyfarwyddyd. Mae hyn yn rhoi hwb i hunanhyder tra'n gwella sgiliau cyfathrebu, datblygiad personol ac, yn hanfodol, cymhelliad. Mae prosiect 'Heb Ffaden i Foi Ffit' yn cael ei ragbrofi sy'n anelu at ganlyniadau tebyg gyda dynion.

**Mannau cyfarfod**

Mae mannau cyfarfod cymunedol eisoes yn bodoli a grwpiau lleol sy'n nodi lle dylai'r ddarpariaeth fod. Mewn rhai ardaloedd mae'n ymdrech cael mannau cyfarfod priodol.

**Dilyniant**

Tra bo 91% o'r buddiolwyr ar gyfer blwyddyn academaidd 2001/02 yn newydd i'r Prosiect, mae 401 wedi dychwelyd o'r flwyddyn academaidd flaenorol. Mae lawer o'r dychwelwyr wedi cael canlyniadau ers derbyn cefnogaeth gyntaf. Yn ôl sampl o 100 o fuddiolwyr o flwyddyn academaidd 2000/01 – 2001/02 y canlyniadau caled a gyflawnwyd oedd:

- Mae 72 wedi ennill safon uwch o gymhwyster
- Cafodd 10 oedd yn ddi-waith gyflogaeth

- Cafodd 5 oedd gynt yn gweithio rhan-amser swyddi llawn-amser
- Erbyn hyn mae 2 yn hunangyflogedig

Yn ddiamau, o wybodaeth a dderbyniwyd oddi wrth fuddiolwyr eu hunain a LAC, na fyddai llawer wedi gallu cyfranogi i ddechrau, na pharhau i ddysgu oni bai am y cymorth ychwanegol a gawsant gan y Prosiect.

Mae 11% o'r dychwelwyr wedi symud ymlaen o gyrsiau hamdden, cyrsiau na fyddai erbyn hyn yn cyrraedd meini prawf cwricwlwm NLN, h.y. heb gynnwys Sgiliau Allweddol, ac maent erbyn hyn yn dilyn cyrsiau fel Cyfrifiaduro, Technoleg Ysgrifenyddol a Swyddfa ac Ieithoedd.

Ar y prosiect 'O'r Diawl i'r Difa' cyntaf, menter ar y cyd rhwng Tîm Gweithredu ar Swyddi, NPT LLS a'r NLN (a grybwyllwyd uchod):

- Gadawodd 2 gleient y cwrs gyda chyfweliadau wedi eu trefnu yr wythnos wedyn
- Cofrestrodd 2 ar Gyrsiau Hyfforddiant NLN
- Ymunodd 3 â Chyrsiau Coleg
- Mae gan 3 drefniadau i gael swyddi Gwirfoddol
- Aeth 1 cleient i gyflogaeth

**Canlyniadau a Llwyddiannau**

- Cyfleoedd dysgu ôl-16 lleol, wrth law, fforddiadwy neu ddi-dâl
- Cwricwlwm ehangach ar gyfer oedolion
- Mewnosod sgiliau allweddol yn holl gyrsiau NLN a chyfarwyddyd ysgrifenedig i diwtoriaid oedolion ar sut i wneud hyn.
- Denwyd 123 tiwtor i achlysur hyfforddi tiwtoriaid oedolion gan fod NLN wedi talu iddynt fynychu
- Bydd clwb tu allan i'r ysgol gyda chefnogaeth NLN a NOF yn rhedeg ochr yn ochr â dosbarthiadau oedolyn. Caiff plant a rhieni eu casglu o ysgolion cynradd lleol a'u bysio i ganolfan ddysgu
- Dros 4000 o fuddiolwyr newydd erbyn Gorffennaf 2002, yn bennaf rhwng 25 a 50 oed, o wardiau oedd gynt heb ddigon o gynrychiolaeth

- Cyweithiau gyda chymdeithasau tai a thenantiaid
- Mae Grid Dysgu NPT yn caniatáu rhwydweithio holl LAC ac is-ganolfannau
- Cynllun Band Llydan yn arwain at gynnig Amcan pellach 1 i ddatblygu seilwaith ar gyfer e-ddysgu a chefnogaeth dechnegol
- Mae hyfforddiant cyfarwyddyd dechreuol ar gyfer gweithwyr canolfannau cymunedol a gwirfoddolwyr yn cynyddu'r gallu i gynnig arweiniad a chyfeirio
- Roedd 10 allan o 14 LAC yn gweithredu erbyn Gorffennaf 2002
- 14 o weithwyr / rheolwyr datblygu LAC yn eu swyddi
- Cysylltiadau cryf rhwng Tîm Gweithredu ar Swyddi, Gwasanaethau Hamdden NPT a NLN gyda 2 gwrs tra llwyddiannus yn denu cleientiaid Tîm Gweithredu (e.e. Heb Ffaden i Foi Ffit)
- Datblygwyd protocol i hybu ddefnyddio mwy ar ysgolion ar gyfer addysg oedolion

**Denu dysgwyr**

Ar lafar, hysbysebu, pamffledyn, diwrnodau agored, blaswyr, sesiynau 'Peintiau a Phrosbectws', mewn amgylchedd cymunedol. Mentrau cyhoeddusrwydd fel artistiaid perfformio a thiwtoriaid yn ceisio codi ymwybyddiaeth ar fysiau First Cymru.

**Rhwystrau i ddysgu**

- Tanbrisio dysgu (mae diwylliant o beidio deall sut y gall dysgu gynorthwyo pobl).
- Diwylliant o ddibyniaeth (niferoedd lawer yn hawlio budd-dal anabledd).
- Maint dosbarthiadau – mae angen gallu cynnal dosbarthiadau bach a chynyddu niferoedd yn ddiweddarach.
- Ymrwymiadau teuluol, h.y. cyfrifoldebau gofal plant / dibynyddion.
- Cyfyngiadau ariannol.
- Anableddau – corfforol a meddyliol.
- Prin o sgiliau sylfaenol neu allweddol.
- Aelod o grŵp eithriedig, h.y. camddefnyddiwr cyffuriau / alcohol, cyn-droseddwr.

**Ariannu**

Wedi ei ariannu gan y partneriaid gyda chymorth ariannol cyfatebol o Gronfa Gymdeithasol Ewrop, Amcan 1 a'r Gronfa Cyfleoedd Newydd (CALL).

**Ystadegau ar Gyfranogiad (a ddarparwyd gan NLN)**

**Cyflogaeth**

| DI-WAITH | | | |
|---|---|---|---|
| Oed | Targed | Gwir hyd yma | % o’r targed |
| 16-24 | 1200 | 323 | 27% |
| 25-49 | 2000 | 1159 | 58% |
| 50-60 | 800 | 665 | 83% |

| YN GWEITHIO | | | |
|---|---|---|---|
| Oed | Targed | Gwir hyd yma | % o’r targed |
| 16-24 | 880 | 277 | 31% |
| 25-49 | 880 | 1496 | +70% |
| 50-60 | 240 | 365 | +52% |

**Oed**

| Oed | Targed | Gwir hyd yma | % o’r targed |
|---|---|---|---|
| 16-24 | 2080 | 602 | 29% |
| 25-49 | 2880 | 2926 | +2% |
| 50-60 | 1040 | 1432 | +38% |

**Anabledd**

| Rhyw | Targed | Gwir hyd yma | % o’r targed |
|---|---|---|---|
| Gwryw | 250 | 362 | +45% |
| Benyw | 500 | 445 | 89% |

**Ethnigrwydd**

| Grŵp Ethnig | Rhyw | Targed | Gwir hyd yma | % o’r targed |
|---|---|---|---|---|
| Gwyn | Gwryw | 1400 | 1517 | +8% |
| Gwyn | Benyw | 4200 | 3087 | 73% |
| Asiaidd | Gwryw | 40 | 26 | 65% |
| Asiaidd | Benyw | 100 | 36 | 36% |
| Du | Gwryw | 50 | 7 | 14% |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Du | Benyw | 150 | 4 | 3% |
| Tsieineaidd | Gwryw | 10 | 0 | |
| Tsieineaidd | Benyw | 50 | 3 | 6% |

**Grwpiau Eithriedig**

| Grŵp | Targed | Gwir hyd yma | % o'r targed |
|---|---|---|---|
| Cyn-droseddwr | 400 | 11 | 3% |
| Digartref | 600 | 31 | 5% |
| Ceisiwr lloches | 100 | 1 | 1% |
| Camddefnyddiwr Cyffuriau / Alcohol | 150 | 21 | 14% |
| Rhiant Unigol | 2000 | 390 | 20% |

## 1.5 COLEG CYMUNEDOL Y RHYL

**Braslun o'r Darparwr**

Coleg Addysg Bellach. Mae Coleg Cymunedol y Rhyl (RCC) yn rhan o Goleg Llandrillo gan wasanaethu ardal sy'n arfordirol a gwledig.

**Partneriaethau**

Amrywiaeth o bartneriaethau ar wahanol brosiectau gan gynnwys amrywiol bartneriaethau Ewropeaidd, e.e. partneriaeth gyda phrosiect CARS lleol (symudodd RCC ddysgu achrededig i'w hadeiladau, fel cyflwyniad i'r cerbyd modur OCN, gan gyrraedd y rhai all fod wedi eu heithrio o'r ysgol). Bydd RCC yn gweithio hefyd mewn partneriaeth gyda'r Prosiect Cyntedd lleol, MIND a NCH a llawer o grwpiau / cyrff eraill. Mae gan RCC gysylltiadau agos gyda'r gymuned mae'n ei gwasanaethu, er enghraifft mae'n rhan o Grŵp Strategaeth Gymunedol Gorllewin y Rhyl, gyda phleidlais arno, sy'n ardal Cymunedau'n Gyntaf. Mae Coleg Llandrillo wedi darparu addysg yn ei gymunedau am tua 14 blynedd, yn gweithio ambell waith allan o dros bedwar ugain o fannau cyfarfod cymunedol. Yn y pedair blynedd y bu RCC ar agor mae wedi adeiladu ar hyder a pharch y gymuned ac mae'n gweithio gan ymgynghori'n agos gyda dysgwyr a darpar ddysgwyr.

**Grŵp Targed**

Er bod RCC yn Goleg AB gyda phortffolio cwricwlwm eang mae'n ymroddi i Ddysgwyr Aeddfed yn enwedig y rhai a eithriwyd yn gymdeithasol – mae'r dalgylch yn cynnwys y cyntaf a'r 34ain ward fwyaf difreintiedig yng Nghymru, lle mae problemau difrifol gyda chyffuriau, beichiogrwydd arddegol, nifer mawr o fabanod yn cael eu geni tan bwysau trwy ddiffyg maeth, niferoedd mawr wedi eu gwahardd o'r ysgol a CMC isel.

**Cyfranogiad y Gymuned / Ymgynghori**

Bydd nosweithiau ymgynghori yn cael eu cynnal sy'n gwahodd grwpiau â diddordeb gan gynnwys y sector gwirfoddol, busnes ac ati i weld anghenion hyfforddi. Bydd gwybodaeth leol staff yn cael ei defnyddio i drefnu darpariaeth. Bydd yn cynnal ymchwil ethnograffig a gwaith mapid. Gyda staff yn aelodau amrywiaeth eang o grwpiau gwirfoddol / cymunedol mae'n adeiladu ymddiriedaeth ac mae'n darparu cyfleoedd ffurfiol ac anffurfiol am drafodaethau ar ddatblygu cwricwlwm. Mae Pwyllgor

Ymgynghorol y Coleg, yn cynnwys cynrychiolwyr grwpiau cymunedol / busnesau lleol / Datblygu Economaidd Cyngor Sir Ddinbych / yr AALI a Chynghorwyr Tref a Sir yn gwneud cyfraniad mwy ffurfiol a strwythuredig.

**Proffil Dysgwyr**

Mae cryn dipyn yn fwy o ddysgwyr benyw na gwryw, heblaw grŵp o bobl 16-18 oed sydd wedi cael eu gwahardd o'r ysgol neu sydd â phroblemau eraill, lle mae mwy o ddynion. Caiff gwybodaeth ei chasglu ar ffurflenni cofrestru, gan ddadansoddi gwasgariad daearyddol yn ôl cod post.

**Nodau**

- Denu pobl i ddysgu gydol oes.
- Ehangu cyfranogiad trwy sefydlu Rhwydwaith Dysgu.
- Darparu cwricwlwm cydlynol sy'n cynnig llwybr i ddysgwyr o'r camau cyntaf yn ôl i addysg, i gymhwyster AU mewn Datblygu Cymunedol.
- Darparu cyfleoedd dilyniant, i'r ochr yn ogystal ag ar i fyny a chyfleoedd achredu ar amrywiaeth o lefelau.
- Darparu dysgu di-dâl ble bynnag y bo modd.
- Rhoi grym i gymunedau – mae pobl ar fudd-daliadau yn gweithio dros gymunedau, mae angen iddynt gael sgiliau a gwybodaeth i newid pethau.
- Newid cymunedau, newid bywydau.
- Manteisio ar gyfoeth gwybodaeth leol a gwybodaeth strategol sydd ar gael er lles y gymuned ehangach.

**Math o Ddarpariaeth**

Mae amrywiaeth eang o ddarpariaeth. Un prosiect yw Menter Merched Coleg y Rhyl a ddatblygwyd o ymchwil ethnograffig yn y Rhyl, sydd â nifer mawr o ferched economaidd anweithredol, a hefyd mewn ymateb i farchnad gloer a welwyd, sef cynnig gwasanaeth i bobl sydd mewn braw o gael gweith*wyr* yn eu cartrefi. Mae Menter y Merched yn rhoi hyfforddiant i ferched mewn plymwaith, paentio ac addurno, mecaneg ceir, garddio ac electroneg. Mae'n darparu gofal plant di-dâl a chludiant di-dâl. Rhaid i'r merched gynnal cyfradd bresenoldeb o 80% dros gyfnod o 2 flynedd. Caiff gwersi gyrru eu rhoi hefyd, yn ogystal â hyfforddiant mewn menter a busnes. Y nod yw annog merched i ddechrau eu busnesau eu hunain, busnesau y bydd modd eu trefnu o gwmpas cyfrifoldebau cartref.

Mae TCU mewn Astudiaethau Datblygu Cymunedol yn cynnig cyfle i fyfyrwyr gaffael cymhwyster AU cydnabyddedig ac mae'n darparu fframwaith academaidd ar gyfer y gwaith gwirfoddol / cymunedol mae llawer yn ei wneud eisoes. I lawer dyma'r llwybr o waith heb ei dalu i waith cyflogedig gan roi cyfle i ddianc o'r trap budd-dal / tlodi y daliwyd llawer o weithredwyr cymunedol ynddo.

Mae rhai sgil-gynhyrchion hollol wirfoddol o ddarpariaeth RCC, hefyd, fel grŵp cefnogi gwrywod sy'n rhedeg yn wirfoddol heb nawdd, gan un o staff RCC. Yma nid oes sôn am addysg, neu fyddai pobl ddim yn mynd, ond mae gweithgareddau fel ailadeiladu hen gyfrifiaduron ac ati.

Mae rhywfaint o gyfranogiad gweithwyr proffesiynol eraill wrth roi cefnogaeth i fyfyrwyr, er enghraifft, mae Shelter Cymru yn cynnal cymhorthfa bob pythefnos sy'n agored i bawb, mae Undeb Credyd Arfordir Clwyd yn rhoi gwybodaeth a chlinig bob pythefnos ac mae cyngor annibynnol ar fudd-daliadau ar gael.

Caiff holl asesu ei gynnig yn ddwyieithog, ond mae siaradwyr Saesneg yn fwy lluosog ar hyd yr arfordir.

**Ffurfiau Dysgu yn y Gymuned ac Achredu**

Er mwyn denu'r dysgwr gwantan neu anhyderus caiff sesiynau 'Blasu' eu cynnig mewn cymunedau. Dyma'n aml gyswllt cyntaf pobl gydag addysg ers llawer blwyddyn. Mae'r rhain yn tueddu i fod heb eu hachredu ac mae'r pwyslais ar broses yn hytrach na chynnyrch, ar 'ddysgu cudd'.

Gall y blaswyr hyn fod yn unrhyw beth o "Sgiliau Pwyllgora" i Godi Hyder, gan weithredu fel y bach yn aml. Mae dilyniant o'r rhain yn arwyddocaol uchel a gall arwain ar amrywiaeth o gyrsiau, yn aml wedi eu hachredu gan y Rhwydwaith Colegau Agored (bydd rhai yn symud ymlaen i gyrsiau TG wedi eu hachredu gan OCR neu C&G, eraill i Fynediad i Addysg Uwch yna ymlaen i TCU neu Brifysgol).

**Mannau cyfarfod**

Bydd cyflwyno yn digwydd lle mae'r myfyrwyr, pryd bynnag y bo modd. Gall hyn gynnwys canolfannau adnoddau cymunedol, neuaddau pentref ystafell gefn tafarn.

**Dilyniant**

Tua diwedd unrhyw gwrs, mae trafodaeth bob amser a chyngor a chyfarwyddyd yn cael eu cynnig ynghylch beth wnaiff yr unigolyn nesaf. Bydd dilyniant yn cael ei olrhain lle bo modd. Fodd bynnag, rhaid derbyn nad yw dysgwyr aeddfed bob amser yn symud ymlaen ar unwaith fel bod cadw golwg ar ganlyniadau yn y maes hwn yn gallu bod yn anodd. Serch hynny, bydd llawer o fyfyrwyr yn cadw cysylltiad a bydd rhai yn ymuno â chyrsiau pan ddaw rhai perthnasol.

**Mesur Llwyddiant / Gwerthuso Darpariaeth**

O ran cyrsiau o 5 awr neu fwy, caiff sgiliau sylfaenol eu hasesu. Ar brosiect Menter y Merched, bydd cyfranogwyr yn ail-wneud yr asesiad sgiliau sylfaenol i fesur cynnydd. Maent hefyd yn mesur eu canlyniadau eu hunain trwy osod eu targedau eu hunain ar gyfer mwy o hyder ac ati, a dosbarthu eu hunain bob tymor.

Yn ddiweddar dyfarnwyd y canlynol i'r coleg

- Gwobr y Begwn am Ehangu Cyfranogiad (2001)
- Rhoddodd Archwiliad Estyn yn 2002 Radd 1 ar draws darpariaeth
- Irene Norman, pennaeth Coleg Cymunedol y Rhyl, oedd Cymraes y Flwyddyn mewn Addysg. (Tachwedd 2001)

**Canlyniadau a Llwyddiannau**

Caiff nifer mawr o 'ganlyniadau meddal' fel mwy o hyder, sgiliau cyfathrebu, ac ati eu cyflawni o ganlyniad i ddarpariaeth RCC. Mae enghreifftiau arbennig yn cynnwys: aeth un o ddysgwyr Menter y Merched ymlaen i ddod yn hyrwyddwr TG ar gyfer y cwrs hwn. Tra bo un o gyn-fyfyrwyr Rhwydwaith Dysgu, a ddechreuodd gyda chwrs tecstilau ac wedi symud ymlaen drwy gyrsiau eraill, wedi dod yn Gydgysylltydd Cymunedau'n Gyntaf.

Mae canlyniadau eraill yn cynnwys:

- Gwell Sgiliau Sylfaenol
- Cyflogaeth
- Hunangyflogaeth
- Dilyniant i gyrsiau eraill

**Denu dysgwyr**

Yn bennaf ar lafar. Prosbectysau, nosweithiau agored, blaswyr, diwrnodau agored. Hefyd, bydd grwpiau'n cael eu targedu, fel Cartrefi Plant Cenedlaethol, a denu cyfranogwyr Menter y Merched o Cymorth i Ferched.

**Rhwystrau i ddysgu**

- Diffyg arian
- Diffyg cludiant
- Seilwaith gwael
- Diffyg hyder
- Profiadau addysgol blaenorol drwg
- Diffyg cefnogaeth yn mynd mor bell â gwrthwynebiad llwyr teuluoedd / partneriaid.
- Cyfrifoldebau cartref.

**Ariannu**

ESF

ELWa

**Sgiliau Sylfaenol**

Bydd asesiadau Sgiliau Sylfaenol yn cael eu cynnal ar holl fyfyrwyr ar gyrsiau dros bum awr. Bydd myfyrwyr a thiwtoriaid yn rhannu canlyniadau a bydd cynlluniau gweithredu yn cael eu sefydlu i roi cefnogaeth briodol lle bo angen. Gall hyn fod un-i-un, grwpiau bach neu wedi ei fewnosod mewn grwpiau cyfan. Gall myfyrwyr alw heibio hefyd a bydd gwybodaeth yn cael ei chrynhoi.

## 1.6 PRESGRIPSIYNAU DYSGU: GORLLEWIN Y RHYL

**Braslun o'r Darparwr**

Prosiect rhagbrofol yw hwn yn cael ei gynnal gan NIACE Dysgu Cymru, ac yn dyblygu prosiectau llwyddiannus mewn mannau eraill ym Mhrydain (mae cynllun rhagbrofol arall yng Nghaerffili hefyd). Mae Gorllewin y Rhyl yn ardal Cymuned yn Gyntaf a'r ward fwyaf difreintiedig yng Nghymru a bydd Presgripsiynau Dysgu yn edrych ar effaith dysgu ar iechyd a ffyniant.

**Grŵp targed**

Mae'r prosiect yn anelu at ddenu oedolion sydd wedi cael eu gwahardd neu wedi bod yn absennol o ddysgu ers peth amser, yn enwedig y rhai ar fudd-daliadau salwch a lles hirdymor, tra'n profi methodoleg ymgysylltu ag oedolion mewn lleoliadau iechyd y gymuned. Felly, mae'r prosiect hwn yn anelu at 'cymuned' diddordeb penodol sy'n digwydd cyd-daro â rhanbarth daearyddol ac nid yw wedi ei gyfyngu'n unig i'r unigolion hynny sy'n byw o fewn ward Cymunedau'n Gyntaf Gorllewin y Rhyl.

**Partneriaeth a Darpariaeth**

Mae llwyddiant y prosiect yn dibynnu ar asiantaeth datblygu cymunedol, a defnyddio rhwydweithiau sy'n bodoli eisoes – mae tîm datblygu cymunedol yn y cylch ers tro. Caiff unigolion eu cyfeirio gan weithwyr iechyd proffesiynol a Chynghorwr Dysgu, sydd mewn canolfan iechyd y gymuned am dri diwrnod yr wythnos, broceriaid iddynt, yn canfod neu'n creu 'cyrsiau' sy'n ateb gofynion dysgu penodol. Er enghraifft, nodwyd TGCh fel maes o ddiddordeb a sefydlodd CAG ddosbarth penodol ar gyfer y dysgwyr hyn. Mae cyrsiau hefyd fel Cyflwyniad i Gelfyddyd a Diwrnodau Cyfannol sy'n ystyried materion iechyd o amrywiaeth o safbwyntiau. Mae dysgu yn bennaf yn anffurfiol heb fod yn ffurfiol ac nid oes achredu gorfodol. Mae cyllid POP yn golygu bod modd rhedeg y cyrsiau gyda'r nifer lleiaf, gan ganiatáu cynyddu cyfranogwyr yn raddol.

**Nodau ac Amcanion**

Mae'n amlwg bod swyddogaeth yr un Cynghorwr Dysgu sy'n gyflogedig ar y prosiect yn hanfodol. Mae'r person cyflogedig yn lleol ac eisoes yn gyfarwydd â llawer o faterion allgáu cymdeithasol yn y cylch. Cafodd hyfforddiant perthnasol, yn enwedig mewn sgiliau cynghori, ac mae'n ymgynghori â chynghorydd proffesiynol yn rheolaidd. Bydd

hefyd yn cael cefnogaeth barhaol hanfodol grŵp llywio'r prosiect, sy'n cynnwys nifer o weithwyr proffesiynol gyda chymwysterau priodol. Ei swyddogaeth allweddol yw fel symbylydd oherwydd, heb symbylu'r unigolion gaiff eu cyfeirio, nid oes unrhyw obaith eu denu i ddysgu. Gall arferion o ddibyniaeth, fel caethiwed i amrywiol gyffuriau (drwy bresgripsiwn neu anghyfreithlon), gymhlethu symbylu neu ddenu pobl. Caiff ei gydnabod hefyd bod angen i'r Cynghorwr Dysgu fod wrth law ac ar gael i bobl yn barhaol – nid yw ymgynghoriadau yn bethau unwaith ac am byth.

**Canlyniadau**

Ar y prosiect hwn, o'r 48 o bobl a ddenwyd hyd yma, y grŵp oedran pennaf yw 31-40, tra bo merched yn ffurfio tua 75% o'r dysgwyr. Caiff dilyniant, neu ddiffyg dilyniant, dysgwyr ei olrhain ac, ar sail prosiectau yn Lloegr a chanlyniadau cadarnhaol yng Ngorllewin y Rhyl, caiff ei dderbyn bod y dull hwn yn llwyddiannus o ran denu cymunedau eithriedig i ddysgu, codi hunanhyder, hunan-barch, cymhwysedd a ffyniant cyffredinol, tra'n annog oedolion i symud o ddibyniaeth i fwy o hunanreolaeth: i reoli eu bywydau yn well.

## 1.7 THEATR FFORWM CYMRU

### Braslun o'r Darparwr

Elusen yw Theatr Fforwm Cymru (ThFfC), a ddechreuwyd bron i ddeng mlynedd yn ôl gan ddwy ferch leol oedd wedi gweld angen gwaith buddiol i bobl ifanc ddi-waith, hyd yn oed os byddai'r gwaith hwn heb ei dalu. Nid oedd unrhyw gyllid ar gael, felly dechreuodd y grŵp heb arian, ond gyda 18 o bobl ifanc, mewn neuadd ieuenctid. Ers hynny, cafodd y grŵp gyllid o amrywiaeth o wahanol ffynonellau ac mae'n gweithredu o Wdig yn Sir Benfro, ond yn darparu gwasanaeth ar hyd a lled Cymru ac weithiau o fewn y DU.

Mudiad bach yw hwn sydd eisiau aros yn gynaliadwy, ac yn well ganddo weithio mewn partneriaeth a chael cymorth trwy gontract pan fo angen, yn hytrach nag ehangu, gan fod rhan o'i apêl a'i lwyddiant yn dod o fod yn uned fach a phersonol yn hytrach nag yn sefydliad diwyneb. Ar hyn o bryd mae gan ThFfC 5 o staff llawn-amser, 1 yn gweithio ar ei liwt ei hun, 4 prentis rhan-amser, 1 cynghorwr rhan-amser a 2 wirfoddolwr Ewropeaidd. Bydd gwirfoddolwyr eraill yn cymryd rhan hefyd. Mae ThFfC yn fudiad dysgu hunanymwybodol ac mae'n cydnabod angen i edrych ar ôl unigolion o fewn y mudiad. Comisiynodd a derbyniodd ThFfC hyfforddiant o'r Breakthrough Centre.

Mae ThFfC yn dra ymatebol i'w staff a'i wirfoddolwyr a bydd ei arferion gwaith yn darparu fforwm i drafod syniadau neu broblemau personél. Bob bore Llun caiff cyfathrebu gyda'r byd oddi allan ei atal a bydd staff a phrentisiaid yn rhannu'n ddau wahanol 'gylch' i drafod unrhyw bynciau llosg. Yna bydd y ddau grŵp yma yn cyfarfod a phorthi'r prif bwyntiau neu ganlyniadau i'r prif gylch. Mae gwirfoddolwr hefyd ar Fwrdd yr Ymddiriedolwyr ac mae cyfarfodydd pwyllgor yn agored i bawb.

### Partneriaethau

Mae amrywiaeth o bartneriaethau'n bodoli, fel y Cyngor Henoed, Chwarae Teg, Cymdeithas Tai Hafan, Rhwydwaith US (grŵp Iechyd Meddwl), yn ogystal â llawer o grwpiau cymunedol. Mae gan ThFfC bartneriaid yn Ewrop hefyd a gofynnwyd iddynt yn ddiweddar hyfforddi gweithwyr ieuenctid yn Macedonia, Bwlgaria a Rwmania.

Mae ThFfC yn awyddus i weithio mewn partneriaethau, yn hytrach na chael eu comisiynu i weithio gan grwpiau, gan sefydlu partneriaethau cyfartal a gwirioneddol yn hytrach na bod dan fawd deiliaid arian.

**Grŵp targed**

Yn wreiddiol canolbwyntiwyd ar bobl ifanc ond, erbyn hyn, mae Theatr Fforwm Cymru yn gweithio gydag unrhyw grŵp sy'n dangos ei hun fel gorthrymedig neu ar y cyrion. Mae hyn yn cwmpasu grwpiau daearyddol yn ogystal â grwpiau pwnc llosg. Ar hyn o bryd nid oes unrhyw ddarpariaeth arbennig ar gyfer dysgu teuluol, er bod cyfleoedd yn y maes hwn yn cael eu cydnabod.

**Proffil Dysgwyr**

Bydd ThFfC yn gweithio gydag amrywiaeth eang o ddysgwyr, o blant wedi'u gwahardd a throseddwyr ifanc i Aelodau o'r Cynulliad. Caiff y lleiaf o fanylion eu cadw am gyfranogwyr, er enghraifft, caiff gwybodaeth am statws cyflogaeth ei chasglu'n unig os bydd ei hangen i gael cymorth ariannol. Roedd data a gasglwyd am y cyfranogwyr ym Mhrosiect Ymarfer ar gyfer Gwirionedd 2001-2002 yn cynnwys manylion ethnigrwydd, rhieni unigol, anabledd, rhyw a grŵp oedran. Roedd dros ddwy ran o dair yn fenywod, roedd 18 allan o 190 yn anabl a 31 yn rhieni unigol. Roedd nifer mawr o wahanol ethnigrwydd (rhestrwyd 33 dosbarth). Roedd oedran yn ymestyn o gyfran fechan (3%) o dan 16, i 60+ (2%), gyda'r mwyafrif llethol o'r grŵp oedran 25-60, gyda 19% o'r grŵp oedran 16-25.

**Nodau'r Mudiad**

Darparu amgylcheddau sy'n ddiogel, yn addysgiadol, yn egnïol ac yn galluogi lle gall pawb ddysgu gyda'i gilydd.

**Math o Ddarpariaeth**

Bydd ThFfC yn defnyddio theatr ar sail straeon a materion gwirioneddol i hyrwyddo llythrennedd emosiynol a dinasyddiaeth weithgar mewn unigolion a chymunedau. Bydd ThFfC yn hyfforddi pobl eraill mewn technegau Theatr Fforwm gan weithio gyda grwpiau cymunedol, gweithwyr proffesiynol, deddfwyr, ysgolion, plant wedi'u gwahardd a llawer o rai eraill. Techneg addysgiadol yw Theatr Fforwm gyda'i werth yn cael ei gydnabod tros y byd. Fwyfwy, bydd eu gwaith yn tynnu sylw at bolisïau a deddfau nad ydynt yn gweithio ac yn ymchwilio newidiadau sydd eu hangen i wneud iddynt weithio. Daw Ymarfer ar gyfer Gwirionedd ThFfC â chymunedau i gysylltiad â swyddogion penderfyniadau, gan greu llefydd iddynt weithio'n greadigol trwy theatr i ddatblygu

atebion.  Mae pwyslais trwm hefyd ar gymhelliad. Mae'n cael ei dderbyn bod gofyn i chi gydio yn y teimladau i gymell.  Mae cydnabyddiaeth hefyd ei bod yn cymryd amser i ddenu pobl ac mai grwpiau cyfoedion sy'n denu orau, trwy fod yn batrwm – gan adlewyrchu eich gobeithion am eich ffordd o fod. Mae'n bwysig bod nad yw 'mygydau proffesiynol' yn codi unrhyw rwystrau. Bwriad ThFfC yw darparu cyfres o arfau, sy'n drosglwyddadwy i sefyllfaoedd eraill.  Nid yw'n honni ei fod yn rhoi atebion, ond yn gweithio gydag eraill tuag at gael atebion.

Bydd manylion yn union pa hyfforddiant / dysgu sy'n cael ei ddarparu gan ThFfC yn cael ei drafod gyda'r grwpiau sy'n gweithio gyda hwy. O fewn cymuned leol Sir Benfro, mae ThFfC yn ymwneud llawer â'r prosiect Cymraeg ac maent yn ceisio cael y gymuned i gymryd rhan mewn defnyddio / penderfynu tynged y ganolfan gymunedol.

Mae ThFfC yn fudiad dwyieithog ac mae'n darparu hyfforddiant drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg fel bo angen.

**Ffurfiau dysgu yn y gymuned**

Mae'r cyfleoedd dysgu yn lleng, gydag enghreifftiau o ddysgu yn y gymuned yn cynnwys hyfforddi 'penodau' a sesiynau hyfforddiant eraill yn cael eu cynnal yn y gymuned. Mae'r pwyslais ar gymryd cyfrifoldeb a pheri newid yn enghraifft o ddysgu ar gyfer y gymuned. Mae'r gwirfoddolwyr hyfforddi yn enghraifft o ddysgu drwy'r gymuned, tra bo'r ffordd y bydd ThFfC yn defnyddio drama a pherfformiad mewn dysgu ac addysg yn enghraifft o ddysgu gyda'r gymuned.

**Mesur Llwyddiant / Gwerthuso Darpariaeth**

Mae'r rhan fwyaf o ddysgu heb fod yn ffurfiol a dim ohono wedi ei ffurfioli o ran strwythur. Mae llawer o ddysgu yn anffurfiol. Bydd llawer o lwyddiannau a chanlyniadau yn 'feddal', a daw hyn â'r anfanteision ariannu arferol. Gall y gwaith papur sy'n ymwneud â chyrraedd meini prawf gwerthuso ar gyfer ariannu fod yn wir rwystr i ddysgu. Mae rhai cwestiynau a ofynnwyd gan beirianwaith cyllido ELWa ar y prosiect Ymarferion ar gyfer Gwirionedd ynghylch statws cyflogaeth neu faterion iechyd o natur dra sensitif. Bydd llawer o ymateb llafar ac mae gwerthuso yn rhan hanfodol o ddarpariaeth ddysgu ThFfC, yn hytrach nag yn waith ymwthiol / allanol. Fodd bynnag, mae ymwybyddiaeth fod

insufficient documentation, however. dogfennaeth annigonol. Mae ThFfC yn awyddus i gael rhywfaint o ymchwil i'r mudiad a'i dechnegau.

**Canlyniadau a Llwyddiannau, sy'n cynnwys**

- Cynyddu hyder
- Atgyfnerthu cymunedau
- Gwella sgiliau cyfathrebu
- Dysgu sut i reoli eich bywyd eich hun a gwneud newidiadau
- Ymwneud â deddfwyr i beri newidiadau
- Mwy o hunanymwybyddiaeth
- Gwell dealltwriaeth o sut i reoli gwrthdaro

**Dilyniant**

Roedd ymchwil ddiweddar ar Theatr Fforwm Cymru yn cynnwys cysylltu â chyn-aelodau craidd a gofyn i sut oeddent yn teimlo y bu eu profiadau o ThFfC o fudd iddynt yn eu bywydau wedyn. Aeth cyn-aelodau ymlaen i wneud amrywiaeth eang o bethau, ac aeth rhai gwirfoddolwyr a phrentisiaid ThFfC ymlaen i weithredu Fforwm Theatr yn rhywle arall, a daeth eraill yn hyrwyddwyr. Cyflogwyd dau arall yn Abertawe ar brosiect yn gweithio gyda cheiswyr lloches. Mae cynlluniau hefyd i arolygu sut mae pobl yn defnyddio hyfforddiant sy'n cael ei gynnig gan ThFfC ar ddefnyddio dulliau Theatr Fforwm.

**Achredu**

Mae Swyddog Hyfforddiant ThFfC yn datblygu achredu ThFfC. Mae'n bwriadu cynnig OCN safon mynediad, 1, 2, a 3. Mae trafodaethau hefyd gyda Phrifysgol Cymru, Abertawe, ynghylch cynnig Diploma yn y Celfyddydau Cymunedol. Er bod y dysgu yn ymarferol gan mwyaf ac achredu yn ddewisol mae'n cael ei gydnabod serch hynny fod pobl eisiau achrediad. Er enghraifft, gall pobl gydag anawsterau dysgu ennill tystysgrif OCN safon mynediad / safon 1 yn rhwydd a gall hyn godi hyder.

**Mannau cyfarfod**

Y partneriaid fydd yn eu dewis, ond mae ThFfC yn ymdrechu i ddod o hyd i amgylcheddau cyfeillgar, sy'n meithrin ac yn gynnes, hyblyg, croesawus; o ddewis gyda

bwyd yn cael ei ddarparu. Yn fwyaf pwysig rhaid i fannau cyfarfod beidio â bod yn wastrodol, ond yn ddiogel ac, uwchlaw popeth, yn breifat (e.e. neb yn cerdded drwodd).

**Denu dysgwyr**

Ar lafar

Caiff Diwrnodau Deialog Blynyddol eu cynnal yn rhanbarthol i egluro beth yw swyddogaeth ThFfC a bydd amrywiol fudiadau, grwpiau cymunedol ac ati yn cael eu gwahodd.

**Rhwystrau i ddysgu**

- Agwedd
- Difrïo, rhagfarn
- Cludiant
- Methodoleg addysgiadol
- Gormod o ganolbwyntio ar amgylcheddau dysgu traddodiadol
- Meddyginiaeth (gall pobl gyda phroblemau iechyd y meddwl fod ar feddyginiaeth sy'n rhwystro dysgu)
- Cymhelliad
- Fforddiadwyedd
- Gwaith papur cysylltiedig â threfnau gwerthuso
- Gwrthwynebiad i ddysgu (e.e. Dan orfod i ddilyn hyfforddiant ond yn elyniaethus iddo)

**Ariannu**

Cafodd gyllid loteri ac Ewropeaidd yn y gorffennol; ond yn seilio gobeithion ar Cronfa Her Dysg at y dyfodol.

Daw llawer o gyllid trwy godi ffioedd am fynychu cynadleddau. Fodd bynnag mae hyn yn treulio amser ac yn atal staff rhag gweithio gyda dysgwyr.

**Sgiliau Sylfaenol**

Ar hyn o bryd yn edrych ar bosibiliadau ymestyn y ddarpariaeth hon; mae'r ddarpariaeth eisoes yn cynnwys gwella sgiliau cyfathrebu a TG i brentisiaid.  Bydd prentisiaid hefyd yn cadw dyddlyfr myfyriol, ond maent yn cael cyflwyno tystiolaeth ar dâp os oes

ganddynt broblemau llythrennedd. Caiff anghenion dysgu penodol eu nodi, ond nid yw adnoddau'n caniatáu rhoi sylw i'r anghenion hyn.

**Anghenion Arbennig / Anawasterau Dysgu**

Bydd ThFfC yn gwneud llawer o waith gyda dysgwyr ag anghenion arbennig, ac yn tynnu sylw at faterion fel adeiladu ymddiriedaeth, mannau cyfarfod addas, darparu bwyd sy'n gwneud i bobl deimlo'n ddiogel a chysurus ac yn darparu lle i gymdeithasu, sy'n gallu goresgyn effeithiau meddyginiaeth. Mae ThFfC yn arbennig o ymwybodol o'r angen i rannu arferion yn y maes hwn, a rhoi barn ar fuddioldeb ariannu hyblyg fel ag i ganiatáu prynu hyfforddiant ychwanegol pan fo angen.

**Cymunedau'n Gyntaf**

Yn Sir Benfro, mae ardaloedd Cymunedau'n Gyntaf yn boddi mewn cyllid, ond nid yw'r gwaith yn gyd-drefnus iawn.

## 1.8 PROSIECT *WRITE ON!*, CANOLFAN DYSGU GYDOL OES, PRIFYSGOL MORGANNWG

**Braslun o'r Darparwr**

Addysg Uwch: Mae Canolfan Dysgu Gydol Oes, sy'n cyflogi dros 30 o bobl, yn rhan o Brifysgol Morgannwg. Tîm o dri sy'n rhedeg y prosiect *Write On!*, (un llawn-amser a dau ran-amser) dan arweiniad Angela Fish.

**Partneriaethau**

Cysylltiedig ag ysgolion: bydd yr ysgolion yn darparu mannau cyfarfod a chyfleusterau, ac yn cynorthwyo gyda denu'r bobl ifanc, tra bydd y prosiect *Write On!* yn darparu cyllid arall, ac yn denu pobl hŷn a staff.

**Grŵp Targed**

Pobl ifanc 13-18 oed a phobl hŷn 45+ oed. Trigolion Rhondda Cynon Taf (RCT) sydd eisoes wedi eu heithrio'n gymdeithasol neu mewn perygl o allgáu cymdeithasol ac anfodlonrwydd. Tra'r oedd teuluoedd disgyblion ysgol yn cael eu hannog i fynychu, nid oedd yn fwriad i sefydlu prosiect dysgu teuluol yn benodol. Fodd bynnag, siomwyd gweithwyr prosiect gan y derbyniad, oedd fawr mwy na dim, wedi'r hysbysrwydd a anfonwyd trwy ysgolion ac arweiniadau denu mewn nosweithiau rhieni.

**Proffil Dysgwyr**

Benywod yw dwy ran o dair, a thraean yn wrywod. Caiff gwybodaeth ei chasglu i wybod o ble y dônt a chefndir addysgol sydd, wrth gwrs, yn ganolbwynt y prosiect cyfan.

**Nodau'r prosiect**

Cynnig cyfleoedd datblygu personol a phroffesiynol, gyda phwyslais arbennig ar sgiliau cyfathrebu. Ehangu mynediad a chynyddu cyfranogiad mewn dysgu gydol oes trwy chwalu rhwystrau i ddysgu; rhoi sylw i fater allgáu cymdeithasol yn enwedig tyndra ac ofn rhwng cenedlaethau – atgyfnerthu cymunedau; hyrwyddo datblygu amrywiaeth o sgiliau a chynnwys cyfranogwyr mewn arolygu a datblygu'r rhaglen at y dyfodol.

**Math o Ddarpariaeth**

Bydd y prosiect *Write On!* yn gwahodd cyfranogwyr i ymchwilio a chofnodi profiadau'n yr ysgol, eu profiadau eu hunain a rhai aelodau eraill y grŵp, gan gynnwys atgofion am athrawon, pynciau, adeiladau, dillad ac ati. Dewiswyd y testun hwn yn rhannol gan ei fod yn faes pwnc sydd gan y ddwy genhedlaeth brofiad ohono, ond hefyd oherwydd bod profiadau anhapus yn yr ysgol yn aml yn cael eu crybwyll fel cryn rwystr i ddysgu. Caiff amrywiaeth o gyfryngau eu defnyddio yn ystod sesiynau ymarferol, a chaiff sgiliau fel cyfweld (cyfathrebu a gwrando), gwneud nodiadau, defnyddio llyfrgelloedd, defnyddio tâp sain a Dictaffonau, fideo, camerâu digidol a *Polaroid*, llunio, prosesu geiriau a *PowerPoint*, sganwyr a ffotogopiwyr, chwilio'r rhyngrwyd, tudalennau gwe ac ati eu dysgu. Mae'r prosiect yn caniatáu i bobl gyfarfod a gweithio gydag eraill o wahanol genhedlaeth, gweithio mewn tîm, a sgiliau eraill gwerthfawr ar gyfer bywyd a chyflogaeth. Mae'r hyfforddiant yn cynnwys rheoli amser, datblygu cynlluniau gweithredu personol a phennu nodau. Mae pwyslais hefyd ar y cyfraniad allai cyfranogwyr hŷn ei gynnig i adfywio cymdeithasol. Roedd gan gyfranogwyr rywfaint o ddylanwad hefyd ar sut y rhedwyd y prosiect o fewn y strwythur sylfaenol a osodwyd gan arweinwyr y prosiect, a chanolbwyntiodd yr ychydig sesiynau cyntaf ar ddarganfod beth oedd y cyfranogwyr eisiau ohono. Caiff rhywfaint o hyfforddiant ei roi ar sut i fynd o gwmpas herio a newid ysgol neu gymdeithas yn gyffredinol. Mae'r prosiect hwn yn gweithredu trwy gyfrwng y Saesneg, er bod disgwyl y bydd posteri a deunyddiau ysgrifenedig yn cael eu cyfieithu i'r Gymraeg yn y dyfodol fel y gall y prosiect redeg mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg.

**Ffurfiau dysgu yn y gymuned**

Mae pwyslais ar 'ddysgu trwy wneud': sef dysgu anffurfiol. Mae dysgu heb fod yn ffurfiol yn rhan fawr o'r prosiect hefyd, gyda dysgu ffurfiol yn cael ei gyflwyno fel dewis. Fodd bynnag, mae'r canlyniadau gorau yn tueddu i gael eu gweld trwy ddysgu anffurfiol a heb fod yn ffurfiol, neu ddysgu cudd, fel y bydd rheolwr y prosiect yn cyfeirio ato.

**Achredu**

Rhoddwyd tystysgrif bresenoldeb erioed am gyrsiau addysg gymunedol cyffredinol heb achrediad ond, ar gyfer y prosiect *Write On!*, newidiwyd hyn i dystysgrif gyfranogiad sydd hefyd yn amlinellu'r gweithgareddau y cyfranogodd dysgwyr ynddynt. Fodd

bynnag, dangosodd ymateb rhai 16 oed, eu bod eisiau achrediad AU ac mae achredu dewisol yn cael ei gyflwyno (safon sylfaen AU – dau hanner modiwl, 10 credyd yr un).

**Mannau cyfarfod**

Ysgolion Uwchradd yn Rhondda Cynon Taf

**Dilyniant**

Cynhaliwyd dilyniant chwe mis ar ôl y cynlluniau rhagbrofol gwreiddiol (2001-2002). Defnyddiodd y grŵp iau brosiectau i'w helpu mewn meysydd fel datganiadau personol UCAS ac agwedd gymunedol Gwobrau Dug Caeredin. Mae ysgolion hefyd yn sôn am fwy o hyder. Roedd rhai cyfranogwyr wedi mynd i wneud gwaith gwirfoddol. Roedd aelodau'r grŵp hŷn hefyd wedi ymuno â'r sector gwirfoddol a rhai wedi mynd ar gyrsiau cyfrifiadurol i ddatblygu eu sgiliau.

**Mesur Llwyddiant / Gwerthuso Darpariaeth**

Mae cyfranogwyr yn ymwneud ag arolygu eu datblygiad eu hunain ac mae hyn yn ffurfio rhan o ddysgu, trwy eu hannog i gymryd cyfrifoldeb a'u cynorthwyo i ddod o hyd i ffyrdd o newid pethau sy'n eu poeni. Dosbarthwyd ffurflenni gwerthuso i bob un o'r 123 cyfranogwr ar ddiwedd y prosiect rhagbrofol, gyda 44% wedi ymateb. Roedd y gwerthuso'n cynnwys materion fel; oedd y prosiect yn ôl y disgwyl, rhesymau dros ymuno, asesu'r man cyfarfod, mynediad ac amseroedd, yn ogystal â holi beth oedd unigolion wedi ei fwynhau / heb ei fwynhau ynghylch y prosiect a beth oeddent yn teimlo iddynt ei gyflawni.

**Canlyniadau a Llwyddiannau**

- Caiff canlyniadau meddal eu mesur a'u harolygu trwy gydol y prosiectau, ond nid oedd unrhyw asesu ffurfiol yn ystod y cyfnod rhagbrofi
- Cynyddu hyder
- Atgyfnerthu cymunedau
- Nid oes unrhyw ganlyniadau economaidd amlwg gan nad yw rhan fwyaf y cyfranogwyr o oed cyflogaeth, neu maent heb gynlluniau cyflogaeth ar y pryd.
- Codi amlygrwydd pwysigrwydd hanes cymdeithasol, pwysigrwydd atgofion unigolyn

**Denu dysgwyr**

Bydd ysgolion yn cynorthwyo gyda denu'r grŵp iau, tra bydd tîm y prosiect yn denu'r genhedlaeth hŷn a'r rhai rhwng 16-19 sydd wedi gadael yr ysgol (roedd y grŵp olaf hwn yn anodd iawn ei gyrraedd a'i gymell). Bydd denu yn bennaf trwy bost-dafliadau, taflenni a phosteri, ond hefyd trwy gysylltu dros y ffôn, canolfannau cymunedol ac ati. Cysylltwyd â grwpiau cymunedol a gwirfoddol unigol fel ag i gael gwahoddiad i egluro'r prosiect i'r aelodau. Profodd y dull hwn, ynghyd â chymeradwyaeth lafar, fel y ffordd fwyaf effeithiol o ddenu, ond mae'n treulio amser.

**Rhwystrau i ddysgu**

- Mae cludiant yn aml o bwys i gyfranogwyr hŷn. Ar ben hynny, nid yw'r mannau cyfarfod (ysgolion) yn agos at gludiant cyhoeddus yn aml. Gwnaed cais am gymorth ariannol ar gyfer cludiant ond bu'n aflwyddiannus.
- Oed – mae'n anodd iawn cael cymorth ariannol ar gyfer oedolion dros 60; mae angen symud tu hwnt i ganolfannau cymunedol, ysgolion ac ati. Er enghraifft, mae bron i 20 o gartrefi cysgodol yn Rhondda Cynon Taf, yr un nifer ag o ysgolion uwchradd. Mewn cymdeithas sy'n heneiddio fwyfwy, mae angen gwneud i ddysgu gydol oes olygu gydol oes.
- Cymhelliad

**Ariannu**

Wedi ei ariannu'n rhannol gan Amcan 1 ESF yn ystod y cyfnod rhagbrofol (2001-2002)
Gyda chefnogaeth lawn Prifysgol Morgannwg (2002-2003), ynghyd ag ysgolion partner

**Sgiliau Sylfaenol**

Gall y rhai gyda llythrennedd gwael, er enghraifft, gymryd rhan trwy gyfryngau gwahanol fel recordiau clyweled. Caiff anghenion sgiliau sylfaenol eraill eu cyfeirio ymlaen.

**Anghenion Arbennig**

Nid oes unrhyw ddarpariaeth arbennig.

## 1.9 CLYBIAU FFERMWYR IFANC (CFfI) CYMRU

### Braslun o'r Darparwr

Mudiad ieuenctid gwirfoddol (elusen) yw CFfI gydag oddeutu 30 o gyflogeion a nifer mawr o wirfoddolwyr (tua 1200). Mae'r gwirfoddolwyr hyn yn tueddu i fod yn gyn-aelodau ac mae traddodiad cryf o roi yn ôl i'r mudiad 'mewn cynnyrch', ond bydd aelodau hŷn eraill y gymuned yn cyfranogi hefyd.

### Partneriaethau

Mae partneriaethau'n bodoli gydag amrywiol fudiadau, yn aml ar sail prosiectau a gweithgareddau unigol. Er enghraifft, mae partneriaethau gyda mudiadau ieuenctid gwirfoddol eraill: Awdurdod Datblygu Cymru, Menter Busnes, Cyngor Cefn Gwlad Cymru; mae cysylltiadau hefyd gyda rhai colegau. Mae CFfI yng Nghymru yn rhan hefyd o rwydwaith YFC rhyngwladol sy'n hwyluso cyfnewid gwybodaeth, arferion da ac ati (e.e. tynnu ar wybodaeth arbenigol amaethyddol a gwleidyddol yn Iwerddon, gwelwch isod) ac mae'n caniatáu profiad gwerthfawr i'r aelodau eu hunain o cyfranogi mewn cyfnewidfeydd wedi eu trefnu gyda CFfI yn Ewrop, Awstralia, Canada ac ati.

Yr iaith Gymraeg sydd yn bennaf mewn rhai rhanbarthau, e.e. Ceredigion a Meirionnydd; caiff y ddwy iaith eu defnyddio mewn ardaloedd fel Clwyd a Sir Benfro, ac mae'r Saesneg yn bennaf mewn ardaloedd eraill. Mae polisi dwyieithrwydd yn bodoli o fewn y CFfI gyda'r ddwy iaith yn cael eu defnyddio'n ganolog.

### Grŵp Targed

Pobl ifanc 10-26 oed; yn aml iawn yng nghefn gwlad. Yn draddodiadol mae CFfI wedi targedu'r rhai gyda chefndir amaethyddol, ond mae'n agored i bawb.

### Proffil Dysgwyr

Mae cynrychiolaeth y ddau ryw tua'r un faint ymysg aelodau CFfI. Mae'r aelodau yn 10-26 oed, ond bydd gwirfoddolwyr hŷn yn cyfranogi hefyd gan ddal i ddysgu yn eu swyddogaethau arweiniol a hyrwyddol. Daw'r aelodau o amrywiaeth eang o gefndiroedd dysgu – bydd llawer mynd ymlaen i addysg bellach ac uwch ac mae CFfI yn edrych ar addasu'r aelodaeth, e.e. hysbysu / cysylltu ag aelod-fyfyrwyr trwy e-bost. Caiff teuluoedd eu hannog i gefnogi plant (aelodau), e.e. Caiff teuluoedd eu hannog i fynychu a chefnogi

Nosweithiau Llawen y CFfI. Bydd y mudiad yn tynnu ar sgiliau rhieni hefyd gan ofyn iddynt gyfrannu weithiau at hyfforddiant sy'n cael ei gynnig gan CFfI ac mae hyn yn rhoi hwb i hyder cyfranogwyr o'r fath.

Yr amgyffred yw nad yw llawer o'r aelodau'n ddi-waith. Fodd bynnag, mae'r aelodau yn sensitif dros y mater hwn. Bydd aelodau'n cadw cysylltiad dros gyfnodau hir, yn aml yn ymestyn eu cysylltiad â CFfI tu hwnt i'r terfyn 26 oed trwy fabwysiadu swyddogaethau gwahanol, gwirfoddol o fewn y clybiau. Mynegwyd diddordeb hefyd mewn clybiau cymdeithasol cyn-aelodau ar ôl 26 oed.

**Nodau'r mudiad**

- Cefnogi pobl ifanc (rhai 10-26 oed) o blentyndod i lawn oed mewn cymaint o ardaloedd ag y bo modd.
- Gwella hyder a sgiliau pobl ifanc yn gyffredinol.
- Cynhyrchu a hyrwyddo ymdeimlad o gymuned, rhwydweithiau ac ati.
- Nodi a darparu hyfforddiant mewn meysydd perthnasol.
- Rhoi lle i gymdeithasu.
- Hyrwyddo dysgu anffurfiol.
- Annog aelodau i gyfranogi'n y gymuned ehangach.
- Mae'r holl feysydd hyn yn cyfrannu at ddatblygu cymunedol, adfywio economaidd, dysgu gydol oes, ymroddiad cymdeithasol a chyfranogiad gwleidyddol.

**Math o Ddarpariaeth**

Mae CFfI yn darparu amrywiaeth eang o weithgareddau ar gyfer ei aelodau – bydd cyfleoedd yn cynnwys ysgoloriaethau teithio a chefnogi menter. Mae cyfleoedd creadigol a chaiff teuluoedd eu hannog i fod yn rhan ohonynt.

Mae cymell unigolion yn agwedd allweddol hefyd – mae CFfI yn cydnabod pwysigrwydd brwydro'n erbyn unigedd – a strwythur y clybiau sy'n rhoi grym i aelodau trwy fod ar eu pwyllgorau. Bydd dulliau dylanwadu uniongyrchol eraill o fewn clybiau a'r mudiad CFfI ehangach yn sicrhau parhad cyfranogiad a chymhelliad aelodau. Ar gyfer y grwpiau oedran hŷn mae cyfleoedd hefyd i ffurfio grwpiau ar bynciau llosg fel tai yng nghefn gwlad. Bydd llawer yn byw adref, yn rhannol oherwydd costau tai uwch ac, yn ogystal â

chynnig fforwm ar agwedd wleidyddol y mater hwn, ac ymgynghori â'r gymuned ehangach a chynghorau a'r Cynulliad, mae CFfI yn ceisio cefnogi yn yr hyn all fod yn aml yn sefyllfa ddirdynnol ac anodd i'r aelodau a'u teuluoedd.

Bydd CFfI hefyd yn annog ac yn cefnogi gweithgaredd mentergar a chysylltiadau gyda mentrwyr yn y gymuned ehangach. Ar hyn o bryd mae'n ystyried sut i sefydlu cynllun mentora, yn arbennig mewn perthynas â chyngor ar hunangyflogaeth a menter, ond nid oes dim yn weithredol hyd yma.

Mae CFfI yn cynnig cyfle i'r aelodau ennill Tystysgrifau Cyflawniad gydag achrediad CBAC trwy eu cyfranogiad yn nigwyddiadau CFfI. Nod y cynllun yw cydnabod llwyddiannau aelodau ac ategu eu dysgu ffurfiol.

Caiff y ddarpariaeth ei llunio a'i threfnu yn y clybiau gan bwyllgorau sydd wedi eu ffurfio o aelodau a etholwyd gan aelodau eraill am flwyddyn. Mae'r grym, felly, yn aros gydag aelodau unigol sy'n cael profiadau dysgu anffurfiol gwerthfawr tra'n gwasanaethu fel aelodau'r pwyllgor. Mae hyn hefyd yn golygu bod aelodau yn rhan uniongyrchol o sefydlu eu hagenda eu hunain o achlysuron hyfforddi a chymdeithasol. Mae gwybodaeth drylwyr am y gymuned leol o le daw'r aelodau a'r gwirfoddolwyr yn caniatáu targedu a strwythuro hyfforddiant yn ôl yr angen. Mae hyfforddiant cyffredinol, e.e. sgiliau TG (cynllunio gwefan ac ati), ar gael ar draws y CFfI. Mae cyfnewidfeydd rhyngwladol wedi rhoi profiad gwerthfawr, fel y nodwyd uchod. Bydd y swyddfa ganolog, CFfI-Cymru, yn rhoi cefnogaeth a chyngor i'r clybiau, ond ni all orfodi dim arnynt. Yn gyffredinol, bydd y clybiau yn dilyn arweiniad CFfI-Cymru, ond nid bob amser.

Bydd cysylltiadau rhyngwladol CFfI yn rhoi cyfle i amrywiaeth o weithgareddau dysgu, fel ymweliadau â'r Iwerddon i weld pa mor llwyddiannus, cyfrannog a hyddysg yw CffI a'r gymuned amaethyddol yno yn gyffredinol. Bydd hyn yn rhoi hwb i gymhelliad yr aelodau Cymreig o ganlyniad, gan hybu dysgu'n uniongyrchol a hefyd mwy o wleidyddoli, h.y. cyfranogi yn y gymuned leol a chymdeithas ehangach, trwy gydnabod perthnasedd gwleidyddiaeth i fywyd yr unigolyn a'r gymuned.

**Ffurfiau dysgu yn y gymuned**

Gall CFfI ddangos enghreifftiau o bob math o ddysgu yn y gymuned. Mae dysgu yn y gymuned yn sylfaenol i strwythur CFfI sydd â 172 o glybiau fydd yn cyfarfod bob wythnos neu bob pythefnos mewn neuaddau pentref, ysgolion neu mewn adeilad arall yn y gymuned. Caiff gweithgareddau ynghyd â hyfforddiant eu cynnal yn y mannau hyn o fewn y gymuned leol. Mae enghreifftiau o Ffederasiynau Sirol yn gweithio gydag Ymddiriedolaeth y Tywysog a DofE i wella'r ddarpariaeth a chefnogi pobl ifanc. Mae dysgu ar gyfer y gymuned wedi ei fewnosod yn gadarn hefyd yn nodau'r CFfI ac mae'n darparu amrywiaeth eang o hyfforddiant, gan gynnwys hyfforddiant galwedigaethol sy'n datblygu aelodau ac yn eu hannog i chwarae rhan weithredol yn eu cymunedau. Bydd aelodau'n cael eu hannog yn gynnar mewn bywyd i gymryd cyfrifoldeb ac i chwarae rhan weithredol yn eu hardal. Bydd dysgu drwy'r gymuned yn digwydd mewn achosion fel Cynllun sy'n cael ei gynnig gan CFfI sy'n annog aelodau i weithio ar brosiectau yn y gymuned gyda chefnogaeth y gymuned. Mae CCGC yn cefnogi'r cynllun (mae llyfryn yn rhestru enghreifftiau o brosiectau o'r fath ar gael o Swyddfa CFfI). Mae dysgu ar gyfer y gymuned yn ganlyniad amlwg rhai o'r enghreifftiau uchod ac mae CFfI yng Nghymru yn rhoi pwyslais trwm ar annog aelodau i gyfranogi yn eu cymunedau. Mae amrywiaeth y gweithgareddau a digwyddiadau y bydd y mudiad yn ei gynnig i aelodau yn sicrhau bod pobl ifanc yn gallu cyfranogi mewn pob math o weithgareddau i ddatblygu sgiliau ac adeiladu eu hyder.

**Achredu**

Bydd rhywfaint o achredu ffurfiol yn cael ei gynnig – gwelwch  uchod.

**Mannau cyfarfod**

Amrywiaeth o fannau cyfarfod, rhai ohonynt heb fod yn ddelfrydol. Mae pob un o fewn cymunedau ac, ar gyfartaledd, ni fydd aelodau yn teithio mwy na 15 munud i gyrraedd clybiau.

**Dilyniant**

Bydd sylfeini cyfrifoldeb cymdeithasol, denu'r gymuned a diddordeb mewn gwirfoddoli yn cael eu gosod trwy gyfranogi gyda'r CFfI. Yn aml bydd aelodau'n mynd ymlaen i weithio gyda mudiadau gwirfoddol eraill, cynghorau cymuned, clybiau ieuenctid, elusennau ac ati.  Gallant ddod yn llywodraethwyr ysgol neu sefydlu eu clybiau cymdeithasol eu

hunain. Wedi mwynhau a gweithio'n dda o fewn strwythur y CFfI byddant yn aml eisiau parhau i fod yn rhan o sefydliad tebyg sy'n cynnig gwobrau a chyfleoedd tebyg.

**Denu**

Ymdrechion lleol sy'n denu fwyaf er bod rhai diwrnodau agored ond yn bennaf caiff aelodau eu denu ar lafar a thrwy gyfeillion. Fodd bynnag, gall clybiau wneud rhestri o unigolion i'w targedu gan fod y clybiau yn gymaint o ran o'r gymuned leol ac mewn cysylltiad â hi, a gwahodd unigolion i gyfranogi.

**Canlyniadau a Llwyddiannau**

Gwelwch uchod.

**Rhwystrau i ddysgu**

- Diffyg cymhelliad
- Unigedd

**Ariannu**

Rhywfaint oddi wrth Awdurdodau Lleol, Ymddiriedolaethau Lleol, cynigion am arian lleol, llawer o godi arian eu hunain. Bydd CFfI yn cael eu hannog i godi arian i elusennau eraill hefyd.

Yn genedlaethol, bydd Asiantaeth Ieuenctid Cymru a'r Cynulliad Cenedlaethol yn cyfrannu.

Caiff cyllid ei drefnu hefyd ar gyfer prosiectau penodol, e.e. Ymddiriedolaeth y Tywysog, HSBC, Lloyds TSB, nawdd busnes arall, prosiect gyda chyllid y Loteri Genedlaethol i sefydlu mewnrwyd.

Bydd problemau'n codi o anghysondebau rhwng y ddarpariaeth y bydd aelodau'n ei cheisio a chyrraedd meini prawf ariannu.

**Cymunedau'n Gyntaf**

Mae CFfI yn tueddu i osgoi unrhyw beth sy'n creu rhwystrau ac anghydraddoldeb o fewn cymunedau ac ar hyd a lled Cymru – mae pryderon tebyg dros gymorth ariannol Amcan Un – a bydd yn ceisio dod o hyd i arian trwy ffynhonnell arall fel ag i fod yn gynhwysol.

## 1.10 YSGOL DYFFRYN CONWY

Mae'r ysgol uwchradd hon yn darparu man cyfarfod i amrywiaeth o ddosbarthiadau nos yn cael eu rhedeg gan ddarparwyr annibynnol. Bydd yn llogi ei ystafelloedd TGCh yn ystod y dydd ac yn union ar ôl ysgol; yn ystod dosbarthiadau'r dydd mae technegydd yr ysgol ei hun ar gael i ddatrys problemau yn ystod y dosbarthiadau hyn. Ailwampiwyd ac uwchraddiwyd yr ystafelloedd TGCh hyn trwy gyfrwng Grant Ewropeaidd o'r cynllun Adfywio Gwledig. I gymhwyso ar gyfer y cynllun hwn roedd angen gweld bod y cyfleusterau hyn ar gael i gyhoedd mwy cyffredinol. Mae gan Ysgol Dyffryn Conwy bartneriaethau gyda cholegau AB lleol, CAG, CWYSI, Hafod a'r Bwrdd Cynghori Amaethyddol. Bydd y darparwyr dysgu hyn yn denu dysgwyr.

Mae'r bartneriaeth hon yn enghraifft o gael y mwyaf o gyfleusterau TGCh er lles y cymuned wledig ehangach.

## ATODIAD 2: GWEITHDAI

Fel rhan o ail gyfnod y prosiect ymchwil hwn, cynhaliwyd tri gweithdy ar hyd a lled Cymru. Gwahoddwyd y cyrff hynny oedd eisoes wedi mynegi ddiddordeb yn yr ymchwil hon i gyfranogi ac fe anfonwyd llythyrau gwahoddiad ychwanegol at benaethiaid colegau AB yng Nghymru, CCET, AALI ac ELWa hefyd. Roedd yr ymateb i'r gwahoddiadau hyn yn gadarnhaol iawn gyda derbyniad uchel (mae manylion o'r cyrff a gynrychiolwyd yn y gweithdai hyn ar gael yn Atodiad 5). Rhoddwyd crynodeb o'r Adroddiad Dros Dro i gynadleddwyr cyn yr achlysur, a rhoddwyd cyflwyniadau gan rai o'r cyrff yn yr astudiaethau achos yn yr adroddiad (sef Theatr Fforwm Cymru a Rhwydwaith Dysgu Newydd NPT yng ngweithdy Abertawe, Prosiect yr Ystol yng ngweithdy Bedwas a Choleg Cymunedol y Rhyl (yn canolbwyntio ar gynllun Menter Merched) yn Llanelwy. Nod sylfaenol y gweithdai oedd cael ymateb ar y gwaith a amlinellwyd yn yr adroddiad dros dro, a'r ymateb ysgubol oedd un o gymeradwyaeth a chefnogaeth. Arweiniodd trafodaethau bywiog hefyd at nodi rhai ychwanegiadau pwysig at, a manylu ar, y canlyniadau cyntaf a chaiff y pwyntiau hyn eu hamlinellu isod. Rhestrwyd y materion a gododd o dan gyfres o benawdau pwnc er eglurder. Fodd bynnag, mae'n amlwg bod llawer o'r meysydd hyn yn gydberthynol ac yn aml yn gyd-ddibynnol ac un o ganlyniadau'r gweithdai oedd yr angen i ystyried enghreifftiau arferion da yn gyfannol yn hytrach nag ar wahân.

## THEMÂU A MATERION YN CODI O'R GWEITHDAI

### Atborth ar enghreifftiau o Arferion Da fel y rhestrwyd yn yr Adroddiad Dros Dro

Roedd cytundeb cyffredinol â'r rhain ond, fodd bynnag, teimlwyd bod angen manylu ymhellach ar rai enghreifftiau o arferion da, er enghraifft rhestru'n fanwl amrywiol bwysau teuluol sy'n wynebu dysgwyr, fel gofal plant, gofalu am yr oedrannus neu'r anabl. Teimlwyd hefyd y dylid ystyried a thynnu sylw at gost pob enghraifft o arferion da.

### Cynaladwyedd

Gwelwyd cynaladwyedd darpariaeth fel mater allweddol o ran denu cymunedau'n llwyddiannus i ddysgu. Mae hwn yn cael ei amlygu'n fanwl mewn rhan arall o'r adroddiad ond, fodd bynnag, caiff rhai pwyntiau a godwyd a'u hailadrodd yn ystod y gweithdai eu rhestru isod.

- Nid yw denu cymunedau ac unigolion i ddysgu ac adfywio yn broses ‘ddechrau a gorffen’ ond, yn hytrach, yn un barhaol a dilyniadol. Felly, mae patrymau cynaliadwy yn hanfodol.
- Mae angen i ariannu a’r asesiad cysylltiedig o ddarpariaeth adlewyrchu ymrwymiad i gynaladwyedd.

**Canolwyr**

Ystyriwyd bod canolwyr yn chwarae rhan hanfodol wrth ddenu unigolion a chymunedau i ddysgu.

- Mae llawer o wahanol gategorïau o ganolwyr – gwirfoddol, anffurfiol a phroffesiynol.
- Mae angen mentoriaid i gefnogi unigolion unwaith y byddant wedi dechrau dysgu mwy ffurfiol
- Mae angen rhoi sylw ar fyrder i’r prinder sgiliau enbyd yn y maes hwn.
- Mae angen ystyried ffyrdd o gymell canolwyr.
- Mae’n hanfodol bod y gymuned maent yn ei gwasanaethu yn ymddiried yn y canolwyr (er enghraifft Cydgysylltwyr Cymuned yn Gyntaf).

**Cyfarwyddyd Gyrfaoedd**

Nodwyd Ymgynghorwyr Gyrfaoedd fel math arbenigol o ganolwr.

- Mae angen i’w weld am gyfarwyddyd gyrfaoedd *annibynnol* i hwyluso darpariaeth briodol.
- Mae’n hanfodol bod yn ddiduedd.
- Mae’n bwysig i ymgynghorwyr gyrfaoedd fod yn ymwybodol o’r pethau mwyaf diweddar sydd ar gael.
- Mae prinder ymgynghorwyr gyrfaoedd cymwysedig, gyda’r canlyniad bod y rhai sydd yn y swydd yn orbrysur ac wedi digalonni.
- Felly, mae angen dybryd i Lywodraeth Cynulliad Cymru roi cyllid i ddenu a hyfforddi ymgynghorwyr gyrfaoedd a Chynghorwyr Gyrfaoedd Cymunedol.

**Canfod Anghenion a Chymell Dysgwyr**

- Gall fod yn ddefnyddiol i dargedu grwpiau penodol, e.e. pobl ifanc dan anfantais, yr anabl, ac ati gan ei bod yn haws cymell grŵp cydlynol. Fodd bynnag, rhaid sicrhau nad yw grwpiau o'r fath yn cael eu hynysu o ganlyniad.
- Mae gan ddysgwyr rhesymau gwahanol dros ddysgu, ac mae'r rhain yn cynnwys sgiliau meddal neu nodau ar gyfer y dyfodol. Yn aml nid ydynt yn gwybod beth yw eu hanghenion addysg neu beth fydd eu hanghenion yn y dyfodol ac mae angen cynghorwr medrus i dynnu'r rhain allan.
- Ni ddylid ceisio gweithio trwy arolygon ac ati i ganfod anghenion gan y gall unigolion a grwpiau beidio bod yn ymwybodol o anghenion dysgu. Mae'n well gweithio gyda chymuned i sefydlu ymwybyddiaeth o anghenion a dylunio cynllun i'w diwallu.
- Gall achredu priodol ysgogi – yn bendant bydd achredu amhriodol yn digalonni.
- Mae angen y tiwtoriaid gorau i gymell a denu'r anoddaf i'w cyrraedd.
- Grwpiau bach yn aml yw'r gorau i ddenu a chymell yr anfodlon neu'r prin o hyder.
- Mae angen canfod 'bachau' mewn cymunedau i fachu diddordeb unigolion arnynt. Gall patrwm Frerian sy'n cael ei gynnig yn uniongyrchol yn Hyfforddi i Drawsffurfio ond hefyd â chyfeiriad ato ym Mhrosiect yr Ystol (a sy'n sail i lawer o batrymau eraill fel yr un ar gyfer Datblygu Cymunedol clasurol a ddefnyddiwyd i hyrwyddo ymddiriedolaethau datblygu) fod yn arbennig o lwyddiannus yn y maes hwn.
- Yn aml bydd darpariaeth sgiliau sylfaenol yn rhoi llwybr dilyniant i ddysgu achrededig ond mae wedi ei chyllido'n wael yn gyffredinol.
- Mynegwyd amheuon ynghylch yr angen i nodi arferion da ym maes cymell a/neu gyfiawnhau gwerth a diben dysgu i'r rhai hynny all fod wedi cael eu gorfodi i sefyllfaoedd dysgu yn groes i'w hewyllys, e.e. gan yr Asiantaeth Budd-daliadau / Canolfan Gwaith.

**Achredu**

- Mae cyrff cyllido yn tueddu i fynnu achrediad gan y caiff hyn ei weld fel dull dibynadwy o fesur canlyniadau llwyddiannus. Fodd bynnag, mae hyn yn creu rhwystrau i'r rhai sy'n anfodlon ar ddysgu ffurfiol.
- Mae darpariaeth ddysgu heb achrediad yn anoddach ei mesur ac mae perygl ynddi, ond dylai cyllidwyr fod yn barod i dderbyn peryglon rheoledig.

- Ni ddylid gweld sicrwydd ansawdd fel rheswm dros fynnu achredu gan fod ansawdd yn cael ei sicrhau trwy'r ffaith bod gofyn i holl ddarparwyr sydd wedi eu hariannu gan ELWa gyrraedd safonau Estyn.

Gan gyfeirio at achredu mae angen canfod gwahanol fathau o ofynion dysgu, yn enwedig lle mae materion cyllido. Byddai'r rhain yn cynnwys:

- Unigolion sydd angen achredu penodol cysylltiedig â gwaith,
- Unigolion sydd ond eisiau cael eu hachredu i nodi eu cyraeddiadau dysgu,
- Unigolion sydd eisiau dysgu anffurfiol, heb ei achredu.

**Sicrwydd Ansawdd / Gwerthuso Darpariaeth**

- Roedd yn cael ei gydnabod y gall darpariaeth annigonol neu amhriodol fod ag effaith negyddol faith a phellgyrhaeddol. Felly, mae ansawdd dysgu yn y gymuned yn hanfodol.
- Wrth fesur canlyniadau a chyrraedd targedau mae angen cynnwys cydnabyddiaeth o lwyddiannau cyfunol ac nid cymwysterau unigol a gafwyd yn unig. Felly, gall canlyniad dysgu yn y gymuned fod yn grŵp bach o famau wedi cofrestredig ac yn cynnal cylch chwarae yn llwyddiannus.
- Mae angen patrymau o asesu ansawdd darpariaeth, nad ydynt yn dibynnu'n unig ar achredu ffurfiol.
    - Awgrymwyd arolygu'r 'pellter a deithiodd' dysgwyr fel un patrwm gwerthuso ansawdd darpariaeth / buddiannau i ddysgwyr. Er enghraifft, nid yw Celfyddydau Gwirfoddol Cymru yn cynnig hyfforddiant achrededig ond bydd yn dilyn dysgwyr ar ôl tri mis a chwe mis i weld manteision yr hyfforddiant a dderbyniwyd ganddynt. Gall y math hwn o werthuso fod yn faich sylweddol ar adnoddau.

**Marchnata / Denu Dysgwyr Newydd**

Soniwyd am ddulliau gorau cyrraedd dysgwyr ond y teimlai cyffredinol oedd mai dull y dryll pelets sy'n gweithio orau; gyda llafar gwlad fel dull mwyaf cyffredin lledaenu'r neges. Yn aml ni fydd ymgyrchoedd posteri neu daflenni yn cyrraedd y rhai allai fod yn ddysgwyr yn uniongyrchol, ond bydd dysgwyr yn clywed am ddarpariaeth trwy gyfaill neu berthynas sydd wedi gweld y marchnata. Cytunwyd yn gyffredinol nad yw pamffledi lliwgar yn gweithio o ran denu dysgwyr, yn enwedig yr anfodlon neu dan anfantais, er eu

bod yn rhoi gwybodaeth ddefnyddiol i'r rhai sydd wedi penderfynu cymryd rhan mewn dysgu. Mae angen bod â chysylltiadau gyda darpariaeth gyfarwyddo annibynnol a ffyrdd o adeilad gallu cymeriadau cymunedol allweddol i gynorthwyo gyda hyrwyddo diddordeb ar lafar.

**Ariannu**

- Mae angen i gyllidwyr fentro a derbyn y bydd rhai cynlluniau yn aflwyddiannus, ond bod modd dysgu gwersi defnyddiol o fethiannau.
- Gall fod yn fanteisiol dros ben yn y tymor canolig i hir i barhau cwrs gyda nifer bach o bobl, o ran gwerth canlyniadau dysgu'r unigolion sy'n cyfranogi i ddechrau ac o ran annog dysgwyr newydd i ddarpariaeth sydd wedi sefydlu.

**Partneriaeth**

- Ystyriwyd bod partneriaethau yn bwysig iawn, er bod rhaid cydnabod materion cydraddoldeb ac allgáu.
- Bu Amcan Un yn gadarnhaol o ran ffurfio partneriaethau.

**Swyddogaeth Ysgolion**

Mae ysgolion yn adnodd pwysig ac mae'n hanfodol peidio colli eu swyddogaeth wrth weithio gyda'r gymuned. Fodd bynnag, rhaid i ysgolion dderbyn gwerthoedd dysgu yn y gymuned ac mae tystiolaeth chwedlonol bod rhai ysgolion yn ymwneud â gweithredu cymunedol yn unig fel dull o osgoi cael eu cau.  Mae enghreifftiau o arferion da ar gael, ond nid yw llawer o ysgolion yn gwybod sut i ddod yn ysgolion cymunedol ac maent angen cyfarwyddyd. Dylid strwythuro ariannu i annog ysgolion i ddod yn ysgolion cymunedol.

**Didorredd Dysgu**

Dangoswyd fod tuedd i ddysgu yn y gymuned roi'r gorau wedi cyrraedd Safon Sylfaen / Safon Un, gan dybio y dylai'r rhai sydd am fwrw ymlaen tu hwnt i hyn (dysgwyr 'o ddifrif') symud ymlaen i ddarpariaeth ffurfiol fel sydd i'w chael mewn colegau. Fodd bynnag, cytunwyd yn gyffredinol bod llawer o ddysgwyr yn y gymuned yn teimlo'n anghysurus wrth symud allan o dir cyfarwydd a gallant gael eu hanghymell pe byddai gofyn iddynt fynychu cyrsiau ar gampws coleg. Tra bo'n un o agweddau pwysig ar ddysgu y dylai roi hyder i'r dysgwr, mae rhesymau eraill pam na fyddai gorfod gadael y gymuned i ddysgu

yn hawdd efallai. Roedd barn gyffredinol y dylai dysgu ar bob safon fod ar gael lle mae'r dysgwr ei angen.

**Sgiliau Proffesiynol**

Cytunwyd yn gyffredinol bod angen cydnabod fod dysgu yn y gymuned angen sgiliau ychwanegol penodol na ddylid tybio eu bod yn bresennol mewn unrhyw athro/athrawes, darlithydd, gwirfoddolwr, ac ati. Mae'r rhain yn sgiliau uchel pa un ai ar gyfer dysgu yn y gymuned neu ddatblygu cymunedol o unrhyw fath. Caiff yr angen am y sgiliau hyn yn y gweithwyr proffesiynol dan sylw eu hanwybyddu'n aml a gall beri colli hyder ar ran dysgwyr a/neu'r gymuned yn gyffredinol.

- Mae prinder dybryd o weithwyr gyda'r sgiliau priodol at gynnal gwaith cymunedol.

**Swyddogaeth TG a TGCh**

- Mae gwahaniaeth rhwng TG a TGCh sydd heb ei gydnabod bob amser.
- Mae yn 'fach' effeithiol gan fod y rhan fwyaf o bobl yn cydnabod yr angen i ddysgu sgiliau TG, a heb fod ofn cyfaddef hynny.
- Efallai na fydd e-ddysgu yn briodol i'w ddefnyddio ar wahân am na fydd gan unigolion sydd wedi dadymafael yr offer na'r brwdfrydedd i ddilyn e-ddysgu yn eu cartrefi eu hunain. **Ond** gall e-ddysgu fod yn effeithiol iawn wrth oresgyn problemau ymarferoldeb cynnig dysgu i grwpiau bach neu unigolion. Mae modd ei gynnig mewn amgylchedd cymunedol cefnogol gan alluogi ymgysylltu ag eraill all fod yn astudio pynciau eraill ond yn defnyddio'r un fethodoleg a strwythurau cymorth dysgu cyffredinol.
- Ar hyn o bryd dim ond i ddysgu TG y caiff e-ddysgu ei ddefnyddi'n aml.
- Mae cefnogaeth dechnegol dda yn y gymuned yn hanfodol i sicrhau llwyddiant e-ddysgu.
- Teimlai rhai bod hyfforddiant TG yn cael ei hyrwyddo'n aml lle mae'n amhriodol. Roedd cyflogwyr lleol mewn arolwg wedi rhestru nifer o sgiliau meddal oedd eu hangen ganddynt, gan ddweud nad oedd eu gweithlu angen sgiliau TG yn eu busnes, eto dyma'r hyn oedd yn cael ei gynnig.

**Dwyieithrwydd**

Rhoddwyd tystiolaeth chwedlonol o ran pwysigrwydd y Gymraeg wrth ddenu siaradwyr Cymraeg anfodlon. Hyd yn oed os yw'r cwrs yn cael ei gynnal trwy gyfrwng y Saesneg,

mae'r gallu i gyfathrebu ar lefel bersonol yn eu dewis iaith gyda thiwtor yn gwneud dysgwyr yn gartrefol ac yn helpu gyda chymhelliad a dal gafael.

**Cysylltiadau gyda Datblygu ac Adfywio Cymunedol**

- Dylai'r rhai sy'n ceisio hyrwyddo ymyriadau mewn cylchoedd difreintiedig gydnabod yr economi du a'i ddefnyddio i ganfod anghenion a chymell dysgu.
- Mae cyswllt amlwg rhwng materion cymhelliad ac adfywiad. Mae'r rhan fwyaf o bobl eisiau gwell bywyd pa un ai yw hynny'n golygu mwy o gyfleusterau / cyfleoedd diwylliannol, gwell cludiant, rhoi pen ar i fwyngloddio brig neu hyrwyddo datblygu diwydiant lleol. Bydd pobl yn dysgu heb adnabod dysgu pan yn ymwneud ag ymgyrchu neu weithgareddau datblygu i adfywio eu cymuned.
- Mae Dysgu yn y Gymuned yn rhan o ddidorredd datblygu / adfywio cymunedol ac ni ddylid mynd ati i'w gwahanu.

**Cymunedau'n Gyntaf**

- Tra bo holl grwpiau'n cydnabod y buddiannau allai ddod o Gymunedau'n Gyntaf, roedd y cymunedau daearyddol a grëwyd gan Gymunedau'n Gyntaf yn cael eu gweld fel rhwystr i ddarparu dysgu gan fod cymorth ariannol ar gyfer dysgwyr roedd yn dibynnu ar eu preswylfa o fewn ffin anweladwy nad yw o angenrheidrwydd yn adlewyrchu ffiniau cymunedau neu'r cylchoedd y bydd unigolion a chymunedau'n gweithredu ynddynt.
- Er bod Cymunedau'n Gyntaf yn rhaglen deng mlynedd, effaith y pwyslais ar dargedau blynyddol yw cyfyngu ar gynllunio datblygiad. Tra bo raid cydnabod fod pobl yn colli cymhelliad os na fyddant yn gweld manteision dangosadwy yn gynnar, mae angen i'r rhain fod â gweledigaeth hirdymor yn sail iddynt.
- Mae cyfranogiad y gymuned mewn partneriaethau yn bwysig ond ansicr. Yn aml mae'n anodd denu nifer bach o bobl i bartneriaeth sy'n wirioneddol yn cynrychioli eu cymuned, yn hytrach na'r rhai sy fwyaf uchel eu cloch.
- Mae anhawster gyda denu Cydgysylltwyr Cymuned yn Gyntaf a gweithwyr yn gyffredinol sy'n lleol ac yn fedrus. Mae diffyg cyrff hefyd sy'n gallu arwain datblygiadau Cymunedau'n Gyntaf o fewn yr ardaloedd dynodedig.

**Rhagor o waith**

Gwnaed sylwadau fel yr angen i gyfoethogi'r sail sgiliau mewn gwaith cymunedol yn yr adrannau perthnasol uchod. Meysydd eraill lle nodwyd yn ystod y gweithdai bod angen rhagor o waith yw:

- Datblygu rhagor o astudiaethau achos mewn cymunedau dysg.
- Mae'n angenrheidiol prisio amrywiol batrymau arferion da fel ag i roi gwell syniad i gyllidwyr o'r adnoddau sydd eu hangen i wneud y gwaith.

**Blaenoriaethu Arferion Da**

Yn unol â manyleb y prosiect gofynnwyd i gyfranogwyr pob gweithdy flaenoriaethu tair neu bedair enghraifft o arferion da. Ac eithrio un is-grŵp (oedd yn teimlo fod 'Partneriaethau', 'Marchnata' (gan gynnwys canolwyr, nodi anghenion a chyfathrebu), 'Hyfforddiant a Chefnogaeth' a 'Sicrwydd Ansawdd', ynghyd ag egwyddor mewnosod darpariaeth yn y gymuned, yn feysydd allweddol bras) cytunwyd yn gyffredinol bod blaenoriaethu enghreifftiau unigol o arferion da fel hyn yn amhriodol ac na fyddai'n cynorthwyo datblygu gweithgaredd dysgu yn y gymuned.

Mae dewis yn lle blaenoriaethu enghreifftiau o arferion da, h.y. canfod *patrymau* llwyddiannus o ddysgu yn y gymuned y bydd modd i ELWa eu rhagbrofi ar hyd a lled Cymru, yn cael ei drafod yn Adran 8.

**ATODIAD 3: RHESTR O GYRFF A GYNRYCHIOLWYD YN Y GWEITHDAI**

**Abertawe, 22 Tachwedd 2002**

| |
|---|
| Coleg Aberdâr |
| Cyngor Sir Caerfyrddin |
| Asiantau Newid |
| Coleg Glan Hafren |
| Coleg Sir Gâr |
| Partneriaeth Prifysgol Gymunedol y Cymoedd |
| Dynamix Cyfyngedig |
| Estyn |
| Coleg Gorseinon |
| Prosiect Datblygu Cymunedol Llanharan |
| Cynulliad Cenedlaethol Cymru |
| Rhwydwaith Dysgu Newydd Castell Nedd Port Talbot |
| Coleg Castell Nedd Port Talbot |
| Prosiect Datblygu Cymunedol Newid |
| Ymddiriedolaeth Canolfan Ogwr |
| Coleg Sir Benfro |
| CBS Rhondda Cynon Taf |
| SCVS |
| Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Abertawe |
| Theatr Fforwm Cymru |
| TRAC |
| Prifysgol Cymru, Abertawe – Adran Addysg Barhaus Oedolion |

**Bedwas, 28 Tachwedd 2002**

| |
|---|
| Big Issue Cymru |
| Adfywio Cymuned Blaenllechau |
| Addysg Gymunedol Cyngor Caerffili |
| Prifddinas Dysg |
| Cymdeithas Dai Cymuned Caerdydd |
| Gwasanaeth Ysgolion Cyngor Caerdydd |
| Coleg Gwent |
| ELWa |
| GAVO |
| Mudiad Cymunedol Gilfach Goch |
| CCET Merthyr Tudful |
| Gwasanaeth Ieuenctid Sir Fynwy |
| Prosiect Ieuenctid y Werddon |
| Prosiect Ieuenctid Penarth |
| Uned Pobl a Gwaith |
| Coleg Pontypridd |
| Telecentre ac Ysgol Fusnes |

| |
|---|
| CCET Torfaen |
| Prifysgol Morgannwg |
| Coleg Prifysgol Cymru, Casnewydd |
| Swyddog Hyfforddiant Cymunedau'n Gyntaf Coleg YM |

**Llanelwy, 29 Tachwedd 2002**

| |
|---|
| AVOW |
| Coleg Meirion Dwyfor |
| Coleg Menai |
| Coleg Powys |
| Community Matters |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Coleg Glannau Dyfrdwy |
| Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych |
| ELWa |
| Cyngor Gwirfoddol Lleol Sir y Fflint |
| Gwasanaeth Llyfyrgell Caernarfon |
| Cyngor Sir Ynys Môn |
| Coleg Llandrillo |
| Mantell Gwynedd |
| Medrwn Môn |
| Hyfforddiant Ncompass |
| NIACE Dysgu Cymru |
| Ty'r Gymuned Peulwys |
| Coleg y Rhyl |
| SCOVO |
| Sylfaen Cymunedol |
| Celfyddydau Gwirfoddol Cymru |
| Rhaglenni Trefol 2 Gorllewin Wrecsam |
| Coleg Iâl |

**ATODIAD 4: RHESTR O DDEUNYDDIAU A NODWYD / A DDARPARWYD GAN GYFRANOGWYR**

| Dogfen | Blwyddyn | Awdur / Cyhoeddwr |
|---|---|---|
| Strategaeth Menter Economiadd Cymunedol ar gyfer De-ddwyrain Cymru | 2001 | ELWa |
| Cynghreiriau Dysgu Oedolion ac yn y Gymuned – Swyddogaeth Newydd i Awdurdodau Lleol | 2000 | Oedolion yn Dysgu |
| Dysgu Oedolion ac yn y Gymuned: Beth? Pam? Pwy? Lle? adolygiad o'r llenyddiaeth ar Ddysgu Oedolion ac yn y Gymuned | 2001 | DfES |
| Addysg Oedolion Barhaus | 2001 | www.cesi.org.uk |
| Menter Cwm Aman: Addysg Oedolion ac Adfywio Cymunedol yng Nghymoedd y De | | Cyhoeddiad NIACE |
| Denu Dysgwyr Newydd | 2001 | LSDA |
| Bancio ar eu cyfeillion hyblyg | 1999 | SLL - Dysgu Gydol Oes yr Alban |
| Agwedd o'r gwaelod i fyny at ddysgu | 1999 | SLL - Dysgu Gydol Oes yr Alban |
| Adeilad Gallu'r Sector Gwirfoddol yng Ngogledd Cymru i Ddarparu Addysg | | WCVA |
| Adolygiad Hyfforddiant Addysg Gymunedol | 2001 | Pwyllgor Adolygiad Hyfforddiant Addysg Gymunedol |
| Dysgu yn y Gymuned ym Mryste – Yn ymarferol | | Dyddlyfr o Arweiniadau Dysgu Gydol Oes |
| Gallu cystadleuol a chynhwysiad cymdeithasol: buddsoddi mewn datblygiad sgiliau trydydd sector – adroddiad ar brosiect sgiliau'r trydydd sector | | LBG |
| Rhaglenni Cymuneda Corfforaethol – pam eu bod yn gweithio | 2002 | Wythnos Elusennau |
| Disgyblaeth Chwyldro Canolfan Arddio | 1999 | SLL - Dysgu Gydol Oes yr Alban |
| Cromen Mileniwm Addysg | 2002 | EDUCA |

| | | |
|---|---|---|
| Gwerthuso Cyrsiau 3-awr a 6-awr | 2002 | LSDA |
| Gwerthuso'r Cronfa Dysgu Oedolion a Dysgu yn y Gymuned | 2001 | DfES |
| Wedi Pum Mlynedd – ydi adroddiad Kennedy wedi gweithio | 2002 | Newyddion Oedolion yn Dysgu |
| Addysg Bellach, Hyfforddiant ac Addysg Barhaus Oedolion 2001/2002 | 2002 | ELWa |
| Mynd ar y llinellau iawn | 2000 | Gwirfoddoli Rhif 59 |
| Rhwydwaith Prosiectau Cymdogaeth Swydd Caerloyw | 2002 | LEDIS |
| Glyn-nedd Cyfyngedig – Adroddiad blynyddol | 2002 | VIEW |
| Sut i addysgu adfywio | 2002 | Newyddion Llywodraeth Leol |
| Rwy'n wirfoddolwr … symud fi o'ma | 2002 | Elusen Cymru |
| Ymgorffori'r Gêm Ddysgu | | VSF |
| Cyfrifon Dysgu Unigol: Ymateb y Llywodraeth i Drydydd Adroddiad y pwyllgor | 2001 | Tŷ'r Cyffredin |
| Arwain y ffordd i newid | 2002 | Wythnos Elusennau |
| Cymunedau Dysg – Atgyfnerthu Dysgu Gydol Oes trwy ymarfer | 2000 | |
| Dysg i Ddinasyddion Gweithgar: astudiaeth o brofiadau aelodau dwy gangen o CAG mewn ardaloedd dan anfantais gymdeithasol yn Ne Cymru | 2002 | Coleg Prifysgol Cymru, Casnewydd |
| Adolygiad o'r Llenyddiaeth ar Ddysgu yn y Gymuned | 2002 | Cyfnewidfa Gynllunio |
| Materion Rheolaeth – Prosiect Ymchwil ar anghenion datblygu rheolwyr yn y Sector Gwirfoddol yng Nghymru | | NTO |
| Mantais gilyddol: Gweithio gyda mudiadau gwirfoddol a chymunedol ar ddysgu a sgiliau | | DFEE |

| | | |
|---|---|---|
| Cam Nesaf y Cymoedd | 1990 | VIAE |
| Proffil ffenomen | 2002 | EDUCA |
| Symud Ymlaen gyda Chynlluniau Dysgu yn y Gymuned | 2002 | Uned Addysg Bellach yr Alban |
| Rhoi Pobl yn y Darlun: canfod a diwallu anghenion dysgu mewn Mudiadau Gwirfoddol | 2001 | SCVO |
| Cydnabod a Dilysu Canlyniadau o Dysgu Heb ei Achredu | 2002 | LSDA |
| Dadansoddiad Rhanbarthol o Gyfranogiad mewn AB a hyfforddiant yng Nghymru 1998/99, /99/2000 | 1998 | ELWa |
| Adolygiad o'r Llenyddiaeth ar Arferion Da a Chyfredol | 2002 | Cyfnewidfa Gynllunio |
| Sgiliau am Oes – Y Strategaeth Genedlaethol at Wella Sgiliau Llythrennedd a Rhifedd Oedolion | 2002 | DFEE |
| Perthynas a chyfeillgarwch gymdeithasol ymysg pobl ifanc gyda Syndrom Down mewn ysgolion uwchradd | 2002 | BJSE - Cyfnodolyn Prydeinig Addysg Arbennig |
| Sgiliau Cefnogol Darpariaeth Mynediad Cymunedol De-ddwyrain Cymru | 2001 | ELWa |
| Archwiliad Sgiliau Cwm Tawe a'r cylch 1998 | 1998 | RCU - Uned Coleg Ymatebol |
| Effaith Cyfrifon Dysgu Unigol | 2002 | LSDA |
| Faint o Gefnogaeth Sgiliau Meddal mae darparwyr hyfforddiant yn ei gynnig yn Ne-ddwyrain Cymru | 2002 | Dysgu ac Addysgu Cymru |
| Y Prifysgolion yn y Cymoedd | 1992 | Reynolds |
| Defnyddio adnoddau datblygu'r gweithlu i adeiladu gallu'r Sector Cymunedol a Gwirfoddol yng Ngogledd Cymru | | Agweddau Strwythuredig |
| Tuag at Gynaladwyedd nodyn cyfarwyddo ar gyfer Colegau | 1999 | FEDA |
| Hyfforddiant yn y Sector Gwirfoddol a sut mae hyn yn cyfrannu at frwydro'n erbyn Allgáu Cymdeithasol | 2001 | PAVO |

| | | |
|---|---|---|
| Hyfforddiant yn y Sector Gwirfoddol a sut mae hyn yn cyfrannu at frwydro'n erbyn Allgáu Cymdeithasol | 2001 | Uned Pobl a Gwaith |
| Dadansoddi Anghenion Hyfforddiant Gogledd Cymru | 2002 | ELWa |
| Anghenion Hyfforddi yn y Sector Gwirfoddol yn Ne-ddwyrain Cymru | 2001 | Uned Pobl a Gwaith |
| Deallt a Datblygu'r Economi Cymdeithasol yng Ngogledd Cymru | 2002 | Parch Cymru |
| Cynllun Datblygu'r Gweithlu | 2001 | NTO |
| Gweithio dros well Byd | | Corff Hyfforddi Cenedlaethol |

**ATODIAD 5: LLYFRYDDIAETH DDETHOL**

Aldridge, Fiona a Horrocks, Nigel, (2002) *Tuag at Ddyfodol Dysg*: *Arolwg NIACE Dysgu Cymru ar Gyfranogiad oedolion mewn Dysgu yng Nghymru*, Cyngor Cenedlaethol – ELWa.

Menter Cwm Aman a Busnes Cymunedol Cwm Aman (2000), *Onwards and Upwards* – *Adroddiad Blynyddol 1999-2000,* Rhydaman: Menter Cwm Aman.

Britton, I (Medi 2001), *Adult Community Learning,* Cyfarwyddyd Gwaith.

Callaghan, G, Newton, D, Wallis, E, Winterton, J, Winterton, R (2001), *Adult and Community Learning; What? Why? Who? Where? – A literature review of community learning*: Adran Addysg a Sgiliau.

Clarke, S Mendola Byatt, A Hoban, M a Powell, D (Gol.) (2002) *Datblygu Cymunedol yn Ne Cymru*, Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru.

Cymunedau sy'n Gofalu (1997), *Communities that Care – a new kind of prevention programme,* Llundain; CTC (UK).

Couto, R A (1990), *Toward a Human Service Economy* yn Gaventa, J Smith, B E a Willingham, A (Gol.) (1990), *Communities in Economic Crisis – Appalachia and the South,* Philadelphia: Temple University Press.

Crequer, N (12/07/02), *E-learning rounds up 'usual suspects'* Llundain: TES FE Focus tud. 31.

Cuckle, P a Wilson, J (Mehefin 2002), *Social relationships and friendships among young people with Down's syndrome in secondary schools,* Cylchgrawn Prydeinig Addysg Arbennig Cyf. 29, Rhif 2.

Cusak, A (Ebrill 2002) *Gloucestershire Neighbourhood Projects Network,* Glasgow: The Planning Exchange.

Adran Addysg a Sgiliau (2002), *Skills for life: The National Strategy for Improving Adult Literacy and Numeracy Skills 'What Works' Early findings from the Pathfinder Projects.*

Gwefan Cymdeithas yr Ymddiriedolaethau Datblygu (2003), http://www.dta.org.uk/dtrust/index.htm (8/01/03)

Dimmock, S (2001), *Sgiliau Cenogol – darpariaeth Mynediad Cymunedol – De-ddwyrain Cymru,* Caerdydd: ELWa.

Dysgu ac Addysgu Cymru (2000/01), Cofnod Unigol y Myfyriwr (ISR) 2000/01

Dysgu ac Addysgu Cymru (ELWa) (2001), *Strategaeth Gorfforaethol Ddrafft,* Caerdydd: ELWa.

Dysgu ac Addysgu Cymru (ELWa) (2002a), *Manyleb – Denu Cymunedau,* Caerdydd; ELWa.

Dysgu ac Addysgu Cymru (ELWa) (2002b) *Gwerthfawrogi Dysgu Anffurfiol – Prosiect CCET Abertawe,* Caerdydd: ELWa.

Dysgu ac Addysgu Cymru (ELWa) (Awst 2002), *Ystadegau Cynnar Addysg Bellach, Hyfforddiant ac Addysg Barhaus Oedolion 2001/2002.* Caerdydd; ELWa.

Dysgu ac Addysgu Cymru (diddyddiad), *Cydweithio am gymdeithas ddysgu gynhwysol – Cytundeb rhwng Cyngor Cenedlaethol – ELWa a'r Sector Gwirfoddol yng Nghymru – Drafft at ymgynghori,* Caerdydd: ELWa.

Dysgu ac Addysgu Cymru (ELWa) Awst 2002, *Dogfen Ymgynghorol y Sector Gwirfoddol* www.ELWa.org.uk .

Faris, R (2001) Sculpting a Learning Community on its own terms: The Upper Skeena, Journal of Lifelong Learning Initiatives, The Planning Exchange

FEDA / FFORWM (2000) 'Ehangu Cyfranogiad a Chyfle Cyfartal mewn Addysg Bellach yng Nghymru: Astudiaeth ar Golegau Ardaloedd Diwydiannol De Cymru'.

Freire, Paulo (1970) *Pedagogy of the Oppressed.* Efrog Newydd: Continuum

Field, J, Spencer, D, Tight, M, Blaxer, L, Byrd, P a Merrill, B (July 2001), *Evaluation of the Adult and Community Education Fund,* Llundain: Adran Addysg a Sgiliau.

Foley, Griff (1999), *Learning in Social Action: A Contribution to Understanding Informal Education*, Caerlŷr, NIACE.

Francis, H a Alheit, P (Gol. 1989) *Addysg Oedolion mewn Rhanbarthau Diwydiannol Newidiol* Yr Almaen, Verlag Arbeiterbegwegung und Gesellschaftswissensschaft

Asiantaeth Datblygu Addysg Bellach (FEDA) (2000), *Ehangu Cyfranogiad a Chyfle Cyfartal mewn Addysg Bellach yng Nghymru.* Caerdydd: FEDA Cymru.

Gaventa, J Smith, B E a Willingham, A (Gol.) (1990), *Communities in Economic Crisis – Appalachia and the South,* Philadelphia: Temple University Press.

Gorard, S a Rees, R (2002), *Creating a Learning Society? Learning careers and policies for lifelong learning,* Bryste: The Policy Press.

Gray, M et al (2002), *The Impact of Individual Learning Accounts – research report,* Llundain: LSDA.

Greenwood, M, Hayes, A, Turner, C and Vorhais, J (2001), *Recognising and validating outcomes of non-accredited learning – A practical approach,* Llundain: LSDA.

Hillage, J ac Aston, J (2001), *Attracting new learners – a literature review* Llundain: LSDA.

Hooper, R (Medi 2000), *Adult and community Learning Alliances – A New Role for Local Authorities?,* Adult Learning.

Tŷ'r Cyffredin, Pwyllgor Addysg a Sgiliau (Mehefin 2002), *Individual Learning Accounts; Government Response to the Committee's Third Report of Session 2001-2002,* Llundain: Y Llyfrfa.

James, J (2002) *Was IT good for you*, papur a gyflwynwyd i Gynhadledd ECER. 2002.

Jansen, T a Van der Veen, R (1996) *Adult Education in the light of the Risk Society* in *The Learning Society,* Raggatt, Edwards a Small Gol. Efrog Newydd: Y Brifysgol Agored a Routledge.

Jones, L (2002) *Rhyddhad neu reolaeth mewn gwaith datblygu cymunedau* yn Datblygu Cymunedol yn Ne Cymru; (Gol. Clarke et al) Caerdydd, Gwasg Prifysgol Cymru.

Kirk, J a Kirk, G (2002), *Evaluation of 3 and 6 hour courses – Stage 2 Research Report,* Llundain: LSDA.

Lavalle, I a Blake, M (2001) *National Adult Learners Survey*, Adran Addysg a Sgiliau.

Asiantaeth Datblygu Addysg a Sgiliau (2000a), *Learning Communities – strengthening lifelong learning through practice – seminar series,* Llundain: LSDA

Asiantaeth Datblygu Addysg a Sgiliau (2002) *Attracting New Learners - International Evidence and practice,* Llundain, LSDA.

LEDIS (2002) *Gloucestershire Neighbourhood Projects Network* Adroddiad o Planning Exchange.

Lloyd-Jones, S (2002), *D'you Know What I Mean? – The Ladder Project – a study in learning to meet people's needs.*

Longworth, N (diddyddiad), *Learning Communities – one way to the Learning Society*

McGivney, V (2002) 'Informal Learning and Bridging the Class Divide in Educational Participation', yn *Rising East*, Cyf. 4, Rhif 2, Llundain, Prifysgol Dwyrain Llundain.

Mewn Cymru (1997) Making Voices Heard, Access to Services by Black and Ethnic Minority Women

Morgan, Derick Llwyd (cyf. Dyfnallt Morgan) (1988) *The Great Awakening in Wales,* Llundain, Epworth Press.

Morgan, C a Reynolds S (2002*) A project, aimed at young adults, will bring Welsh heritage closer to the community,* yn Briefing Ebrill 2002, Llundain, LSDA.

Mourant, A (04/10/02), *Insecure funding hampers youth work,* Llundain: TES FEFocus tud. 35.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru (2002) *Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, Adroddiad Gwaith Cymunedau'n Gyntaf* www.Wales.gov.uk.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Medi 2002) *Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, Policy Adolygu Polisi – Adfywio Cymunedol.*

Cyngor Cenedlaethol – ELWa, Llythyr Cyfrifoldeb: 2002 – 03 www.elwa.org.uk.

Sefydliad er Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD) (1999) *Overcoming exclusion through adult education*, Paris, OECD.

Uned Pobl a Gwaith (2001), *Training in the Voluntary Sector and How this Contributes to Combating Social Exclusion – A study undertaken on behalf of the Powys Association of Voluntary Associations,* Uned Pobl a Gwaith.

Pollock, J (Mehefin 2002), *How to teach regeneration,* Newyddion Llywodraeth Leol.

Read, E (21/05/99), *Bottom-up approach to learning,* Llundain: TES.

Rees, T (2001) *Adroddiad y Grŵp Ymchwilio Annibynnol i Galedi ac Ariannu Myfyrwyr yng Nghymru*, Caerdydd, Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Uned Coleg Ymatebol (1998) *Archwiliad Sgiliau Cwm Tawe a'r Cylch* ar ran Partneriaeth Hyfforddiant Cwm Tawe dan arweiniad Coleg Castell Nedd Port Talbot. (anghyhoeddedig).

Reynolds, S (1995), 'Menter Cwm Aman; Addysg Oedolion ac Adfywio Cymunedol yng Nghymoedd y De', yn *Adult Learning Critical Intelligence and Social Change* (Maio a Thompson Gol.) NIACE.

Reynolds, S a Francis, H (1992), *The Universities in the Valleys,* Trafodion Cynhadledd yr Agenda Newydd.

Reynolds, S a Francis, H (Gol. 1988) *Dysgu o Brofiad: Addysg Oedolion yn y Cymoedd, Yr Hanner Canrif Nesaf* Rhydaman, Menter Addysg Oedolion y Cymoedd.

Summers, J (Mehefin 2002), *Five years on – has the Kennedy Report worked?* Adult Learning.

Cyngor Gwasanaeth Gwirfoddol Abertawe (2002) *Gwerthfawrogi Dysgu Anffurfiol* Prosiect CCET Abertawe trwy Gronfa Ddatblygu CCET Cyngor Cenedlaethol – ELWa.

The Planning Exchange (Mawrth 2002), *Review of Literature in Current and Good Practice in Community Learning,* Glasgow: The Planning Exchange.

Turner, J (2002) 'Cefnogi cymunedau diwyd, Addysgedig a mentrus yng nghymoedd De Cymru' yn *Datblygu Cymunedol yn Ne Cymru*; (Gol. Clarke et al) Caerdydd, Gwasg Prifysgol Cymru.

Twining, J (Mai 2002), *Education's Millennium Dome,* Guildford: Education

Twining, J (Mehefin 2002), *Profile of a phenomenon,* Guildford: Education

Menter Addysg Oedolion y Cymoedd (1990) *Cam Nesaf y Cymoedd, Adfywio Cymunedau trwy Addysg Oedolion,* Rhydaman, VIAE.

Llywodraeth Cynulliad Cymru (LlCC) (October 2001) *Cynllun i Gymru 2001.*

Llywodraeth Cynulliad Cymru (LlCC) (2002a) Cymru ar ei Hennill: Dadansoddiad Economaidd.

Llywodraeth Cynulliad Cymru (LlCC) (2002b) Gwlad Dysg; Llwybrau Dysg

Waller, M, Lewis H M, McBrian, C a Wessinger, CL (1990), '*It Has to Come from the People' Responding to Plant Closings in Ivanhoe, Virginia* yn Gaventa, J Smith, B E a Willingham, A (Gol.) (1990), *Communities in Economic Crisis – Appalachia and the South,* Philadelphia: Temple University Press.

Waller, M, Lewis H M, McBrian, C a Wessinger, CL (1990), '*It Has to Come from the People' Responding to Plant Closings in Ivanhoe, Virginia* yn Gaventa, J Smith, B E a Willingham, A (Gol.) (1990), *Communities in Economic Crisis – Appalachia and the South,* Philadelphia: Temple University Press.

Cynllun Gweithredu Lleol Gorllewin Wrecsam ar gyfer Trefol II (diddyddiad).

Williams, R (20/09/2002), *Welsh teens top league,* Llundain: Times Educational Supplement tud. 20.

XL Cymru (2002) Cynorthwyo Cymru yn yr 21$^{ain}$ ganrif, cynllun busnes 10-mlynedd 2003-2012

Yarnit, M (2002), *Learning Communities; Strengthening lifelong learning through practice. Seminar 2: Local organisations and community learning.* Llundain: LSDA.